

# Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid

Cod Ymarfer (Prydain)

---

## TABL ADRANNAU A PHENODAU

RHAGAIR.....	4
<b>ADRAN 1: GWEINYDDIAETH.....</b>	<b><u>7</u></b>
PENNOD 1.1: MATERION RHYNG-AWDURDOD.....	7
PENNOD 1.2: CYMWYSTERAU A PHROFIAD .....	10
PENNOD 1.3: BUDDIANNAU'N GWRTHDARO.....	16
PENNOD 1.4: COFNODION SEFYDLIADAU BUSNES BWYD ANIFEILIAID .....	17
PENNOD 1.5: COFRESTRU/CYMERADWYO SEFYDLIADAU BUSNES BWYD ANIFEILIAID .....	18
PENNOD 1.6: DIGWYDDIADAU A PHERYGLON BWYD ANIFEILIAID.....	25
<b>ADRAN 2: CYFATHREBU.....</b>	<b>29</b>
PENNOD 2.1: DATGELU GWYBODAETH.....	29
PENNOD 2.2: RHYBUDDION BWYD ANIFEILIAID .....	30
PENNOD 2.3: GOHEBIAETH A CHANLLAWIAU'R ASIANTAETH.....	32
PENNOD 2.4: GWYBODAETH I'W HANFON I'R ASIANTAETH .....	33
PENNOD 2.5: YMWNEUD AG AELOD-WLADWRIAETHAU ERAILL .....	35
<b>ADRAN 3: GORFODI CYFFREDINOL .....</b>	<b>38</b>
PENNOD 3.1: DULL GORFODI.....	38
PENNOD 3.2: HYSBYSIADAU GWELLA BUSNESAU BWYD ANIFEILIAID.....	44
PENNOD 3.3: GWEITHDREFNAU GWAHARDD .....	45
PENNOD 3.4: CADW AC ATAFael.....	49
PENNOD 3.5: DEWISIADAU GORFODI MEWN SEFYDLIADAU SYDD ANGEN EU COFRESTRU/CYMERADWYO O DAN REOLIAD 183/2005 .....	53
PENNOD 3.6: DEWISIADAU GORFODI MEWN PERTHYNAS Â DEUNYDDIAU BWYD ANIFEILIAID WEDI'U MEWNFORIO O DRYDYDD GWLEDYDD.....	55
<b>ADRAN 4: ARCHWILIADAU .....</b>	<b>57</b>
PENNOD 4.1: ARCHWILIADAU .....	57
PENNOD 4.2: YR ARCHWILIAD .....	63
PENNOD 4.3: GOFYNION YCHWANEGOL YNGHYLCH ARCHWILIO SAFLEOEDD CYMERADWY .....	67
PENNOD 4.4: CAMAU GWEITHREDU AR ÔL ARCHWILIO.....	68

PENNOD 4.5:	BWYD ANIFEILIAID A FEWNFORIWYD O DRYDYDD GWLEDYDD.....	70
<b>ADRAN 5:</b>	<b>SAMPLU A DADANSODDI .....</b>	<b>71</b>
PENNOD 5.1:	SAMPLU A DADANSODDI.....	71
PENNOD 5.2:	POLISI SAMPLU A RHAGLEN SAMPLU.....	71
PENNOD 5.3:	CEISIADAU AM WYBODAETH GAN WNEUTHURWYR NEU FEWNFORWYR .....	71
PENNOD 5.4:	SAMPLU - CYFFREDINOL.....	71
<b>ADRAN 6:</b>	<b>ATODIADAU .....</b>	<b>74</b>
ATODIAD 1:	Termau a byrfoddau a ddefnyddiwyd yn y Cod Ymarfer hwn .....	74
ATODIAD 2:	Cymwyseddau Gwerthuso HACCP .....	75
ATODIAD 3:	Diagram Llif Digwyddiadau Bwyd Anifeiliaid.....	76
ATODIAD 4:	Ffurflen Adrodd am Ddigwyddiadau Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodau Bwyd Anifeiliaid) .....	<u>82</u>
ATODIAD 5:	Cynllun Graddio Archwilio Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.....	<u>85</u>
ATODIAD 6:	Adroddiad Archwilio Sefydliad Busnes Bwyd Anifeiliaid / Safle Bwyd Anifeiliaid .....	<u>94</u>
ATODIAD 7:	Ffurflenni enghreifftiol i'w defnyddio gyda'r Rheoliadau (Hylendid a Gorfodi Bwyd Anifeiliaid).....	<u>95</u>
ATODIAD 8:	Ffurflen gais enghreifftiol .....	<u>113</u>
ATODIAD 9:	Datganiad i Gymeradwyo heb Archwilio'r Safle Ymlaen Llaw .....	<u>117</u>

## **RHAGAIR**

Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd<sup>1</sup>. Mae'r Cod wedi'i gynllunio ar gyfer awdurdodau lleol (awdurdodau bwyd anifeiliaid) ym Mhrydain a enwir yn Adran 67 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970<sup>2</sup> (y Ddeddf) ar y cyd â'r Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid<sup>3</sup> (fel y'u diwygiwyd) yn ymdrin â darpariaethau manwl ar gyfansoddiad a labelu bwyd anifeiliaid. Mae yna Reoliadau cyfatebol ar wahân i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Mae yna ddogfennau cyfarwyddyd ar wahân i'w cael ar waith gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon (DARDNI) a'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Anifeiliaid (AMI) ym Mhrydain. Nid yw'r Cod hwn yn rheoli gwaith DARDNI a'r AMI.

O dan y ddeddfwriaeth Rheolaethau Swyddogol perthnasol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd mae gofyn i awdurdodau bwyd anifeiliaid Prydain gydymffurfio â'r Cod hwn wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae hyn yn golygu fod rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid ddilyn a gweithredu darpariaethau'r Cod hwn sy'n berthnasol iddyn nhw.

Efallai y bydd penderfyniadau neu weithredoedd awdurdodau bwyd anifeiliaid nad ydynt yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Cod hwn yn cael eu herio'n llwyddiannus, ac y bydd tystiolaeth a gesglir yn ystod ymchwiliad troseddol yn cael ei farnu'n annerbyniol gan Lys.

Yn ogystal, ar ôl ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol a'r gweinidogion yng ngweinyddiaethau datganoledig Cymru a Lloegr, gall yr Asiantaeth Safonau Bwyd (yr Asiantaeth) gyflwyno cyfarwyddyd i awdurdod bwyd anifeiliaid yn gofyn iddo gymryd camau penodol i gydymffurfio â'r Cod hwn.

Os yw awdurdod bwyd anifeiliaid yn gweld y gallai cydymffurfio â'r Cod hwn gyfaddawdu iechyd anifeiliaid, iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch bwyd anifeiliaid dylai drafod y mater gyda'r Asiantaeth cyn gynted â phosibl.

Mae gan awdurdodau bwyd anifeiliaid ddyletswyddau statudol i orfodi deddfwriaeth bwyd anifeiliaid. Mae Rheoliad 4 o'r Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi)<sup>4</sup> er enghraifft, yn nodi sut mae cyfrifoldebau gorfodi

---

<sup>1</sup> Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Lloegr) OS 2006 Rhif 15 Rheoliad 6

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (yr Alban) OS 2005 Rhif 616 Rheoliad 7

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) OS 2006 Rhif 590 (W.66) Rheoliad 6

<sup>2</sup> 1970 c.40.

<sup>3</sup> Rheoliadau Porthiant (Lloegr) 2005 OS 2005 Rhif 3281

Rheoliadau Porthiant (yr Alban) 2005 OS 2005 Rhif 605

wedi'u rhannu rhwng Awdurdodau a'r Asiantaeth at ddibenion y Rheoliadau hynny a Rheoliadau Hylendid Bwyd Anifeiliaid Ewropeaidd (Rheoliad (CE) Rhif 183/2005) Senedd a Chyngor Ewrop yn nodi'r gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid.

Mae awdurdodau bwyd anifeiliaid hefyd yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth ar gyfansoddiad a marchnata bwydydd anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â rheoli ychwanegion (e.e. fitaminau ac elfennau hybrin) a awdurdodwyd i'w defnyddio mewn bwydydd anifeiliaid, rheolaethau ar sylweddau a deunyddiau annymunol a waharddwyd rhag eu defnyddio mewn bwydydd anifeiliaid. Mae yna reolau hefyd ar labelu a marchnata bwydydd anifeiliaid a deunyddiau bwydydd anifeiliaid cyfansawdd. Y Ddeddf yw'r deddfwriaeth sylfaenol sy'n delio gyda bwydydd anifeiliaid niweidiol, afiach a pheryglus. Mae Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid 2005 (fel y'u diwygiwyd) yn cynnwys darpariaethau ar gyfansoddiad a labelu bwydydd anifeiliaid. Mae yna Reoliadau cyfatebol ar wahân yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Pwrpas gorfodi yw sicrhau bod pob awdurdod bwyd anifeiliaid ym Mhrydain yn cydymffurfio â deddfwriaeth bwyd anifeiliaid. Mae'n rhaid i bob awdurdod bwyd anifeiliaid, felly, gyflawni ei ddyletswydd mor effeithiol â phosibl, gan ddefnyddio'r dulliau mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau.

Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd yn effeithiol mae angen i swyddogion gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid fod yn gyfarwydd â'r gyfraith honno, gan gyfeirio at y gyfraith ei hun yn ogystal â'r Cod hwn a chanllawiau eraill, deall beth mae'r gyfraith yn ei ddweud a'i angen mewn gwirionedd, a gofyn am ganllawiau pan fydd pethau'n aneglur.

O dro i dro, gall yr Asiantaeth gyhoeddi Canllawiau Ymarfer i awdurdodau bwyd anifeiliaid. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ystyried canllawiau o'r fath.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sy'n gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid gydymffurfio â Chytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd Awdurdodau Lleol hefyd<sup>5</sup> sy'n adlewyrchu gofynion y Cod. Mae'r Cytundeb Fframwaith yn gyson ag egwyddorion y Concordat Gorfodi hefyd<sup>6</sup>.

---

Rheoliadau Porthiant (Cymru) 2006 OS 2006 Rhif 116 (W.14)

<sup>4</sup> Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005 OS Rhif 3368 (W.265)

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Lloegr) 2005 OS Rhif 3280

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (yr Alban) 2005 OS Rhif 608

<sup>5</sup> "The Framework Agreement on Local Authority Food Law Enforcement", a gafodd ei gyhoeddi a'i ddiweddarau gan yr Asiantaeth, Aviation House, 125 Kingsway, Llundain, WC2B 6NH, [www.food.gov.uk](http://www.food.gov.uk)

<sup>6</sup> "The Enforcement Concordat", a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet, Better Regulation Unit, 22 Whitehall, Llundain, SW1A 2WH, <http://www.dti.gov.uk/consumers/enforcement/enforcement-concordat/index.html>

Mae gan yr AMI gyfrifoldeb am reolaethau swyddogol sy'n ymwneud â defnyddio, trafod neu gynnwys meddyginiaeth filfeddygol/cynhyrchion penodedig. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd awdurdodau bwyd anifeiliaid a'r AMI yn dilyn yr egwyddorion a nodwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol (LACORS) a'r AMI<sup>7</sup>.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid fod yn ymwybodol nad yw'r gyfraith ar fwyd anifeiliaid yn cael ei llunio o dan y Ddeddf o reidrwydd. Mae'n cael ei llunio hefyd o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, Deddf Disgrifiadau Masnachol 1968, yn uniongyrchol o dan Reoliadau'r CE ac o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Mae cyfeiriadau at benodau, paragraffau ac Atodiadau yn cyfeirio at rannau perthnasol y Cod hwn oni nodir yn wahanol.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn cynnwys crynodebau o rai darpariaethau statudol. Felly, mae'n rhaid darllen y crynodebau ar y cyd â'r ddeddfwriaeth berthnasol nid yn ei lle.

Defnyddir y term "swyddog" gydol y ddogfen hon i gynnwys, lle bo'n berthnasol, arolygwr at ddibenion y Ddeddf a'r Rheoliadau a wnaed oddi tani.

---

<sup>7</sup> <http://www.lacors.gov.uk/lacors>

# **ADRAN 1      GWEINYDDIAETH**

## **PENNOD 1.1      MATERION RHYNG-AWDURDOD**

### **1.1.1 Cyflwyniad**

Mae'r bennod hon yn trafod trefniadau cyswllt rhwng awdurdodau bwyd anifeiliaid, a sut mae cyfrifoldebau gorfodi'n cael eu rhannu. Mae'n gofyn am gyfnewid gwybodaeth am gofrestru/cymeradwyo sefydliad busnes bwyd anifeiliaid<sup>8</sup> yn brydlon, mabwysiadu "Egwyddor yr Awdurdod Cartref"<sup>9</sup> (HAP), lle bo'n bosibl, a sicrhau cynrychiolaeth briodol gan awdurdodau bwyd anifeiliaid mewn grwpiau cyswllt. Mae hefyd yn nodi rheolau defnyddio pwerau mynediad ar gyfer swyddogion awdurdodedig y tu allan i'w hardal awdurdod bwyd anifeiliaid.

### **1.1.2 Dyletswyddau Awdurdodau Bwyd Anifeiliaid**

Yn ôl adran 67 o'r Ddeddf, mae gan awdurdodau lleol Cymru, Lloegr a'r Alban ac Awdurdod Porthladd Llundain ddyletswydd statudol i orfodi'r ddeddfwriaeth ar reoli bwydydd anifeiliaid anfeddyginiaethol. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yr AMI, adain o'r Gyfarwyddiaeth Feddyginiaethau Milfeddygol (VMD) sy'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys meddyginiaethau milfeddygol neu gynhyrchion penodedig (h.y. rhai ychwanegion lled-feddyginiaethol) - gweler paragraff 1.5.4.1 isod. Yng Ngogledd Iwerddon, mae DARDNI'n gorfodi deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid anfeddyginiaethol a deddfwriaeth sy'n ymwneud â meddyginiaethau milfeddygol neu gynhyrchion penodedig. Mae awdurdodau lleol, Awdurdod Porthladd Llundain a DARDNI yn gyrff gorfodi dynodedig ac yn awdurdodau cymwys mewn perthynas â deddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd yn eu meysydd cyfrifoldeb perthnasol. I gael rhagor o wybodaeth am orfodi'r ddeddfwriaeth ar fwyd anifeiliaid sy'n cynnwys meddyginiaethau milfeddygol neu gynhyrchion penodedig gweler y dogfennau cyfarwyddyd ar ymarfer a gyhoeddwyd gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol a DARDNI.

### **1.1.3 Cyswllt rhwng Awdurdodau Bwyd Anifeiliaid**

Dylai prif swyddogion bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol (gweler paragraff 1.2.8) ac Awdurdod Iechyd Porthladd Llundain sicrhau bod yna drefniadau cyswllt o ddydd i ddydd effeithiol ar waith rhwng eu hawdurdodau a'r AMI, sy'n cael eu dogfennu a'u gweithredu'n foddhaol.

Mewn sefydliad bwyd anifeiliaid sy'n cyflawni mwy nag un gweithgarwch, gydag un ohonynt yn defnyddio, trafod neu gynnwys meddyginiaeth filfeddygol/cynhyrchion penodedig, bydd awdurdodau lleol a'r AMI yn gydgyfrifol am reolaethau swyddogol yn y sefydliad hwnnw. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng LACORS a'r AMI yn nodi gweithdrefnau cytunedig i'w dilyn dan yr amgylchiadau hyn.

---

<sup>8</sup> Rheoliad y CE 178/2002 Erthygl 3

<sup>9</sup> Mae "The Home Authority Principle - Guidelines for Home Authorities", a Dogfen Safonau Egwyddor Awdurdod Cartref LACORS ar gael gan LACORS: [www.lacors.gov.uk](http://www.lacors.gov.uk)

#### **1.1.4 Gwybodaeth gofrestru/cymeradwyo**

Dylai awdurdodau mewn ardaloedd bwyd anifeiliaid sy'n derbyn ceisiadau cychwynnol am gymeradwyaeth gan sefydliad bwyd anifeiliaid o dan Erthygl 10 o Reoliad 183/2005<sup>10</sup> ddarparu'r wybodaeth hon i'w swyddfa AMI leol pan fo gan yr awdurdod bwyd anifeiliaid wybodaeth sy'n awgrymu bod y sefydliad yn defnyddio, trafod neu gynnwys meddyginiaeth filfeddygol/cynhyrchion penodedig. Gwneir hyn er mwyn hwyluso cysylltiadau ar gyfer archwilio'r safle yn briodol a chyhoeddi rhifau cymeradwyo.

#### **1.1.5 Cydgysylltu Cyngor, Gorfodaeth ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref**

Mae'r Asiantaeth yn ardystio HAP Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol (LACORS) a dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid fabwysyadau a gweithredu'i ddarpariaethau lle bo'n bosibl.

Mae'n rhaid i awdurdod bwyd anifeiliaid sy'n methu mabwysiadu, gweithredu, neu lynu at yr HAP drafod y mater gyda LACORS yn gyntaf, ac os na ellir datrys y mater, ei drafod gyda'r Asiantaeth.

Mae cydgysylltu gwaith cynghori a gorfodi awdurdodau bwyd anifeiliaid yn hanfodol i sicrhau cysondeb wrth ymdrin â busnesau bwyd anifeiliaid, yn arbennig y rhai sydd â changhennau neu unedau mewn ardaloedd awdurdod bwyd anifeiliaid arall.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sy'n ystyried rhoi cyngor neu gymryd camau gorfodi mewn perthynas â busnesau bwyd anifeiliaid sydd ag awdurdod cartref ystyried a ddylid cysylltu â'r awdurdod cartref cyn gwneud hynny. Byddai angen gwneud hyn fel rheol pan fo'r cyngor neu'r camau gorfodi yn ymwneud â pholisïau neu weithdrefnau busnes bwyd anifeiliaid y cytunwyd arnynt yn ganolog. Ond efallai na fydd angen gwneud hynny pan fydd gweithredu o'r fath yn ymwneud â materion lleol yn unig.

#### **1.1.6 Gweithredu mewn ardaloedd eraill**

Fel rheol, dylai awdurdod bwyd anifeiliaid ddelio â materion sy'n codi yn ei ardal ef ei hun oni bai ei fod wedi cael caniatâd awdurdod bwyd anifeiliaid arall i wneud gwaith gorfodi yn yr ardal honno. Gall swyddogion gael eu penodi i orfodi gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid gan fwy nag un awdurdod. Byddai hyn yn caniatáu'r swyddogion i orfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yn yr ardaloedd lle maent wedi cael awdurdod i wneud hynny gan yr awdurdodau bwyd anifeiliaid perthnasol.

<sup>10</sup> Rheoliad (CE) Rhif 183/2005 Senedd a Chyngor Ewrop 12 Ionawr 2005 yn nodi gofynion hylendid bwyd anifeiliaid

### **1.1.7 Cyswllt rhanbarthol a lleol**

Dylai swyddog uwch priodol o awdurdod bwyd anifeiliaid, sef y prif swyddog neu swyddogion bwyd anifeiliaid fel rheol, gynrychioli'r awdurdod mewn cyfarfodydd grwpiau cyswllt bwyd anifeiliaid rhanbarthol neu leol, i helpu i gynnal cysondeb gorfodi gydag awdurdodau bwyd anifeiliaid eraill. Gellir cyfuno grŵp cyswllt bwyd anifeiliaid gyda grŵp cyswllt cyfredol lle bo'n briodol. Mae cydgysylltu ar faterion cyfraith bwyd anifeiliaid yn rhan orfodol o gylch gwaith y grŵp cyfun.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod grwpiau cyswllt rhanbarthol neu leol yn cynnwys cynrychiolaeth briodol o ddadansoddwyr amaethyddol pob awdurdod bwyd anifeiliaid. Dylid cael cynrychiolaeth o'r AMI hefyd i rannu gwybodaeth ac i osgoi dyblygu gwaith gorfodi. Dylid ystyried gwahodd cynrychiolwyr o asiantaethau eraill fel bo'r angen yn codi e.e. arbenigwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC).

Dylid trafod materion dehongli cyfreithiol a chysondeb gyda chydweithwyr yn y grŵp cyswllt bwyd anifeiliaid rhanbarthol neu leol perthnasol a'r awdurdod cartref neu wreiddiol os yw'n briodol. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid osgoi cymryd penderfyniadau unochrog ar ddehongliadau heb ofyn am farn awdurdodau bwyd anifeiliaid eraill neu LACORS.

Dylai pob grŵp rhanbarthol ystyried anfon swyddog i'w gynrychioli ar Grŵp Cenedlaethol Ffocws Bwyd Anifeiliaid a Gwraith LACORS, sy'n cyfarfod yn rheolaidd.

Dylai grwpiau o awdurdodau cartref sy'n gwasanaethu busnesau bwyd anifeiliaid sy'n masnachu yn yr un sector diwydiant gysylltu'n rheolaidd i sicrhau bod awdurdodau cartref yn rhoi cyngor cyson ledled y sector. Gall LACORS hwyluso datblygiad y trefniadau cyswllt hyn.

## **PENNOD 1.2 CYMWYSTERAU A PHROFIAD**

### **1.2.1 Cyflwyniad**

Mae'r Bennod hon yn trafod cymwysterau swyddogion awdurdodedig awdurdodau bwyd anifeiliaid sy'n cynnal archwiliadau neu'n cyflawni dyletswyddau gorfodi eraill o dan gyfraith bwyd anifeiliaid.

Mae'n gweithredu darpariaethau cymhwyso a hyfforddi Rheoliad 882/2004<sup>11</sup> y CE ar reolaethau swyddogol.

Nid yw'r Bennod hon yn berthnasol i staff nad oes ganddynt gyfrifoldeb gweithredol uniongyrchol am wasanaeth gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yr awdurdod bwyd anifeiliaid megis Prif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr neu Brif Swyddogion, neu'r rhai a gyflogir mewn swyddi cymorth fel staff gweinyddol a chyfreithiol.

Os yw awdurdod bwyd anifeiliaid angen cael arbenigedd mewn maes a restrir ym Mhennod 1 o Atodiad II Rheoliad 882/2004, dylai sicrhau bod gan y cyfryw arbenigwr gymhwyster cydnabyddedig a phrofiad yn y maes arbenigol dan sylw.

### **1.2.2 Gofynion Cymwysterau a Phrofiad Cyffredinol**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sefydlu a rhoi gweithdrefn ddogfenedig ar waith i awdurdodi swyddogion. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer awdurdodi swyddogion, yn ysgrifenedig, boed yn benodol neu'n gyffredinol, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Ddeddf neu Reoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Fodd bynnag, mae angen i swyddogion sy'n cyflawni dyletswyddau o dan y Rheoliadau Hylendid a Gorfodi Bwyd Anifeiliaid a'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd gael eu hawdurdodi ar wahân i ddelio â materion sy'n codi wrth roi'r Rheoliadau hyn ar waith e.e. materion o dan y "darpariaethau cymunedol penodedig". O ran Rheoliadau penodedig eraill ar fwyd anifeiliaid a wneir o dan Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, lle bo'n briodol dylai swyddogion perthnasol gael eu hawdurdodi'n benodol ar gyfer y ddau fath o Reoliadau.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod y swyddogion maent yn eu hawdurdodi'n unol â'u gweithdrefn ddogfenedig i wneud gwaith gorfodi o dan gyfraith bwyd anifeiliaid:

- yn meddu ar gymwysterau addas;
- yn brofiadol, ac
- yn gymwys i gyflawni'r tasgau a'r dyletswyddau angenrheidiol.

---

<sup>11</sup> Rheoliad (CE) 882/2004 Senedd a Chyngor Ewrop 29 Ebrill 2004 ar reolaethau swyddogol i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, a rheolau iechyd a lles anifeiliaid.

Mae hyn yr un mor berthnasol i'r rhai sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol, i staff dros dro, ac i'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan neu fel contractwyr.

Efallai bod yna gymwysterau eraill sy'n gyfwerth i'r rhai a nodir yn y Cod hwn. Dylid holi'r Asiantaeth am hyn.

Gall darpar swyddogion neu swyddogion cyfredol awdurdod bwyd anifeiliaid feddu ar amrywiaeth o gymwysterau, hyfforddiant ychwanegol a phrofiad sy'n dangos eu gallu i gyflawni gweithgareddau gorfodi penodol yn y Cod hwn. Mewn achosion o'r fath, dylai'r cyflogwr awdurdod bwyd anifeiliaid cyfredol neu'r darpar swyddog gysylltu'n uniongyrchol â'r cyrff proffesiynol a'r cyrff dyfarnu perthnasol i asesu a yw'r cymwysterau'n gyfwerth.

O dan gyfraith y Gymuned, mae gan bobl o wledydd eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) hawl i gael cydnabyddiaeth am gymwysterau a phrofiad a enillwyd y tu allan i'r DU. Gall y sefyllfa hon godi pan fo unigolyn yn ceisio cael swydd fel dadansoddwr amaethyddol, neu swyddog gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid ym Mhrydain ar ôl ennill cymwysterau a phrofiad gwaith perthnasol yn eu gwlad enedigol. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid dderbyn cymwysterau a phrofiad tramor er mwyn galluogi pobl i arfer yr hawliau hyn. Bydd yr hyn sy'n gyfwerth i gymwysterau tramor yn cael eu penderfynu gan sefydliadau a gydnabyddir gan yr Adran Masnach a Diwydiant at ddibenion Cyfarwyddeb 89/48/EEC<sup>12</sup> (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol ei Gilydd). Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid wneud ymholiadau gyda'r cyrff proffesiynol a dyfarnu perthnasol os oes ganddynt unrhyw amheuan am y maes hwn cyn cadarnhau penodiad.

### **1.2.3 Penodiadau Newydd**

Ni ddylai awdurdodau bwyd anifeiliaid awdurdodi swyddogion newydd, neu ymestyn dyletswyddau swyddogion cyflogedig cyfredol, oni bai bod y swyddogion dan sylw yn gymwys yn unol â darpariaethau perthnasol y Bennod hon a'u bod yn bodloni unrhyw ofynion ychwanegol perthnasol ynglŷn â dyletswyddau penodol neu gyfrifoldebau gorfodi. Gweler paragraff 1.2.10 hefyd mewn perthynas â swyddogion newydd gymhwys.

### **1.2.4 Hyfforddiant**

Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod swyddogion awdurdodedig yn derbyn hyfforddiant parhaus strwythuredig perthnasol yn y meysydd a nodir ym mhennod 1 o Atodiad II Rheoliad 882/2004. Dylai hyfforddiant o'r fath egluro deddfwriaeth a gweithdrefnau newydd a datblygiadau technolegol sy'n berthnasol i fusnesau bwyd anifeiliaid yn

---

<sup>12</sup> Cyfarwyddeb 89/48/EEC ar System Gyffredinol i Gynabod Diplomâu Addysg Uwch a Ddyfernir wrth Gwblhau Addysg a Hyfforddiant Proffesiynol sy'n para am o leiaf 3 blynedd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol Ei Gilydd)

amodol ar eu harchwilio. Dylid darparu o leiaf 10 awr o hyfforddiant parhaus y flwyddyn yn seiliedig ar egwyddorion datblygiad proffesiynol parhaus.

Dylai swyddogion nad oes ganddynt wybodaeth neu brofiad ymarferol cyfredol o orfodi cyfraith bwyd anifeiliaid dderbyn hyfforddiant gloywi strwythuredig a chael eu monitro gan brif swyddog neu swyddog gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid profiadol arall yn ystod yr hyfforddiant.

Bydd faint o hyfforddiant sydd ei angen yn amrywio yn ôl profiad blaenorol y swyddog a hyd y cyfnod na fu'n cyflawni dyletswyddau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid. Dylent dderbyn o leiaf 15 awr y flwyddyn o hyfforddiant gloywi yn seiliedig ar egwyddorion datblygiad proffesiynol parhaus.

Dylai swyddogion sydd newydd gymhwyso neu sy'n dychwelyd i gyflawni dyletswyddau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid ar ôl absenoldeb o fwy na 3 blynedd gael eu monitro am o leiaf dri mis neu am yr holl gyfnod hyfforddi, pa un bynnag sydd hiraf.

### **1.2.5 Cofnodion Hyfforddiant**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gadw copiâu o ddogfennau cofrestru, cymwysterau a dogfennau eraill sy'n ofynnol gan y Bennod hon a chofnodi hyfforddiant parhaus a gloywi a gwblheir gan eu swyddogion awdurdodedig, yn cynnwys staff dros dro a staff contract.

### **1.2.6 Staff Dros Dro a Staff Contract**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid fod yn fodlon bod staff gorfodi dros dro neu staff contract yn bodloni'r gofynion cymwysterau a phrofiad a nodir ym mharagraff 1.2.9 isod sy'n berthnasol i'w dyletswyddau gorfodi. Mae hyn yn cynnwys yr hyfforddiant y cyfeirir ato uchod ym mharagraff 1.2.4.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid fod yn fodlon bod staff o'r fath yn gymwys i gyflawni'r ddyletswydd angenrheidiol a'u bod yn gyfarwydd â pholisi gorfodi a pholisïau a gweithdrefnau eraill yr awdurdod bwyd anifeiliaid.

Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod pobl a gyflogir gan yr awdurdod bwyd anifeiliaid neu fel contractwyr i gynnal archwiliad neu weithgareddau gorfodi eraill a gyflogir ar eu rhan, yn unol ag Erthygl 5 o Reoliad 882/2004 y CE, wedi cael caniatâd ysgrifenedig yr awdurdod bwyd anifeiliaid i wneud hynny. Dylai awdurdodau nodi'r cyfyngiadau a osodir gan y Rheoliad mewn perthynas â'r graddau y gellir dirprwyo swyddogaethau gorfodi i "gyrff rheoli" fel y'u diffinnir yn y Rheoliad.

### **1.2.7 Samplu**

Dim ond swyddogion awdurdodedig sy'n cael hyfforddiant ar y technegau priodol ac sy'n gymwys i gyflawni'r dyletswyddau a ddyrennir iddynt ddylai gymryd samplau o fwyd anifeiliaid. Dim ond swyddogion sy'n bodloni'r gofynion perthnasol a ddisgrifir ym mharagraff 1.2.9 isod ddylai samplu yn unol â darpariaethau Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi)

1999<sup>13</sup> a'r Cod Ymarfer hwn. Nid yw'r gofynion hyn yn berthnasol lle na allai adroddiad andwyol yn dilyn y sampl arwain at gamau gweithredu ffurfiol h.y. nid yw'r sampl wedi'i gymryd yn y dull priodol.

### 1.2.8 Swyddogion Arweiniol

Dylai'r Awdurdod Bwyd Anifeiliaid hysbysu'r Asiantaeth o enw(au) eu swyddog(ion) arweiniol a rhoi gwybod i'r Asiantaeth am unrhyw newidiadau.

Dylai'r swyddog fod ag awdurdod i gyflawni dyletswyddau gorfodi lefel dau fel y nodir ym mharagraff 1.2.9.

Pan nad oes gan awdurdod lleol lawer o gyfrifoldebau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid h.y. nid oes llawer o sefydliadau busnesau bwyd anifeiliaid yn eu hardal, gall y swyddog arweiniol fod yn swyddog cymwys a phrofiadol addas a gyflogir gan awdurdod lleol arall.

### 1.2.9 Gofynion Cymwysterau a Chymwyseddau Penodol

Gall swyddogion awdurdodau lleol fod ag awdurdod i gyflawni dyletswyddau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid ar ddwy lefel.

**Lefel un** - mae awdurdodiad lefel un yn ymwneud â sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid, yn cynnwys mewforion, sy'n gwneud gwaith syml ac uniongyrchol ac sydd â systemau rheoli ansawdd a diogelwch sylfaenol ar waith. Ni fydd hyn yn cynnwys archwilio gweithgareddau sy'n gofyn am gymeradwyaeth o dan delerau Rheoliadau Hylendid a Gorfodi Bwyd Anifeiliaid.

Mae cynhyrchwyr sylfaenol, ffermydd sy'n cynhyrchu a/neu'n storio bwyd anifeiliaid i'w ddefnyddio ganddyn nhw, cyfanwerthwyr neu fasnachwyr nad ydynt yn newid natur y bwyd anifeiliaid yn enghreifftiau o fusnesau bwyd anifeiliaid lle mae gwaith gorfodi'n cael ei wneud gan swyddogion awdurdodedig "lefel un".

**Lefel dau** – mae awdurdodiad lefel dau yn ymwneud â'r ystod lawn o ddyletswyddau gorfodi bwyd anifeiliaid a gyflawnir gan awdurdodau lleol.

Mae busnesau sydd angen cymeradwyaeth, fel gweithgynhyrchwyr ychwanegion a rhag-gymysgeddau, gweithgynhyrchwyr a'r rhai sy'n gweithgynhyrchu a/neu'n rhoi bwydydd anifeiliaid cyfansawdd ar y farchnad yn enghreifftiau o fusnesau bwyd anifeiliaid lle dylai gwaith gorfodi gael ei wneud gan swyddogion awdurdodedig "lefel dau".

#### 1.2.9.1 Cymwysterau Lefel Un

Mae'n rhaid i swyddogion awdurdodau lleol feddu ar un o'r canlynol:

- Diploma mewn Safonau Masnach (DTS) neu'r cymwysterau a'i rhagflaenodd;

---

<sup>13</sup> OS 1663 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan OS 2006/113

- Diploma mewn Materion Defnyddwyr (DCA) sy'n cynnwys y Papur Bwyd ac Amaethyddiaeth yn Rhan II, neu'r cymwysterau a'i rhagflaenodd;
- Tystysgrif Cymhwysedd mewn perthynas â Bwyd ac Amaethyddiaeth;
- Tystysgrif mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach sy'n cynnwys y Modiwl Amaethyddiaeth;
- Diploma neu Ddiploma Uwch mewn Materion Defnyddwyr a Safonau Masnach sy'n cynnwys y Modiwl Amaethyddiaeth.

Yn ogystal, mae'n rhaid i swyddogion awdurdod lleol allu dangos cymhwysedd yn y materion canlynol ar ôl cael cymwysterau/hyfforddiant priodol a phrofiad wedi'i oruchwylio:

- archwilio systemau rheoli diogelwch yn seiliedig ar ddadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol (HACCP); ac
- elfennau sylfaenol systemau rheoli ansawdd a thechnegau archwilio i sicrhau effeithiolrwydd a gweithrediad y systemau syml.

### **1.2.9.2 Cymwysterau Lefel Dau**

Mae'n rhaid i'r swyddogion feddu ar y cymwysterau a amlinellwyd ym mharagraff 1.2.9.1 a dylent fod wedi'u hyfforddi a gallu dangos eu bod yn gymwys i asesu systemau sicrhau ansawdd a HACCP mwy cymhleth.

Dylai swyddogion lefel dau sy'n archwilio gweithdrefnau gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid yn seiliedig ar egwyddorion HACCP feddu ar y cymwyseddau a nodir yn Atodiad 2 hefyd.

### **1.2.10 Profiad**

Dylai cyrff gorfodi allu dangos bod eu swyddogion yn brofiadol a chymwys a:

- bod ganddynt wybodaeth gefndir resymol o'r diwydiant bwyd anifeiliaid a ffermio, cynhyrchion bwyd anifeiliaid ac arferion bwyd anifeiliaid;
- bod ganddynt ddealltwriaeth dda o drefniadau caffael, a dulliau cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd anifeiliaid;
- bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r peryglon posibl sy'n gysylltiedig â chynhyrchu, storio a defnyddio bwyd anifeiliaid, a thebygolrwydd y peryglon hyn;
- bod y swyddogion wedi'u hyfforddi ym mhob agwedd ar ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid;

- bod y swyddogion wedi'u hyfforddi yng ngofynion bioddiogelwch ar adael neu fynd i mewn i adeilad lle cedwir anifeiliaid; a'u
- bod wedi bod yn dilyn yn llwyddiannus y meysydd dyletswyddau gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid y byddant yn gyfrifol amdanynt am gyfnod o ddau fis o leiaf dan oruchwyliaeth.

### **1.2.11 Cyflwyno Hysbysiadau a Gorchmynion Gwahardd Brys**

Lle bo'n bosibl, dylai hysbysiadau gwahardd brys busnesau bwyd anifeiliaid o dan reoliad 22 Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) gael eu llofnodi gan swyddogion sy'n meddu ar y cymwysterau a amlinellwyd ym mharagraff 1.2.9.2 uchod, ac sydd â dwy flynedd o brofiad ôl-gymhwyso mewn materion diogelwch bwyd anifeiliaid. Dylent hefyd fod yn gweithio ym maes gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid, fod wedi'u hyfforddi, yn gymwys ac yn awdurdodedig.

### **1.2.12 Swyddogion Cyfredol Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid Awdurdodau Lleol**

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol fodloni eu hunain bod gan swyddogion gorfodi cyfredol, nad oes ganddynt y cymwysterau angenrheidiol, y wybodaeth ddiweddaraf a'r profiad i gyflawni eu dyletswyddau gorfodi'n effeithiol. Mae'n rhaid i'r swyddogion hyn allu dangos y gofynion profiad a amlinellwyd ym mharagraff 1.2.10 a bod wedi cael hyfforddiant ar HACCP a thechnegau sicrhau ansawdd eraill. Bydd disgwyl iddynt ennill y cymhwyster angenrheidiol a amlinellwyd ym mharagraff 1.2.9 o fewn pum mlynedd i ddyddiad gweithredu'r cod hwn.

### **1.2.13 Strategaethau Gorfodi Eraill**

Nid oes rhaid i swyddogion sy'n dilyn strategaethau gorfodi eraill fodloni'r gofynion cymhwyso a nodwyd yn y Bennod hon, ond dylent fod wedi'u hawdurdodi'n briodol. Dim ond dyletswyddau casglu gwybodaeth ac adrodd yn ôl ddylai swyddogion anghymwys o'r fath, gydag awdurdod priodol, eu gwneud fel rhan o strategaeth arall. Mae'n rhaid i'r gwaith o reoli strategaethau gorfodi eraill aros yn nwylo swyddog gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid lefel 2 sydd wedi cymhwyso yn unol â'r Bennod hon, a swyddog o'r fath ddylai gymryd penderfyniadau i gymryd camau gorfodi eraill a/neu i ymyrryd ymhellach hefyd.

## **PENNOD 1.3 BUDDIANNAU'N GWRTHDARO**

### **1.3.1 Cyflwyniad**

Mae'r Bennod hon yn trafod materion i'w hystyried wrth sicrhau bod awdurdodau bwyd anifeiliaid a'u swyddogion awdurdodedig yn ddiuedd ac nad yw eu buddiannau'n gwrthdaro.

### **1.3.2 Osgoi achos posibl o fuddiannau'n gwrthdaro**

Mae Erthygl 4(2)(b) Rheoliad 882/2004 yn gofyn i staff sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol beidio â chael buddiannau sy'n gwrthdaro. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod eu swyddogion yn ymwybodol o achosion posibl o fuddiannau'n gwrthdaro a allai godi mewn sefyllfa gorfodi trwy hybu gwasanaethau awdurdod bwyd anifeiliaid.

Ni ddylai swyddogion ddarparu eu gwasanaethau eu hunain e.e. hyfforddiant, yn eu hamser eu hunain o fewn ardal yr awdurdod bwyd anifeiliaid.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau nad oes achosion posibl neu wirioneddol o fuddiannau'n gwrthdaro yn codi o ganlyniad i gyfrifoldebau awdurdod cartref neu wreiddiol a chontractio mewn gwasanaethau at ddibenion gorfodi.

Ni ddylai awdurdodau bwyd anifeiliaid a'u swyddogion hyrwyddo gwasanaethau'r awdurdod bwyd anifeiliaid yn unig os oes eraill yn darparu'r gwasanaethau hynny yn yr ardal.

Mae hyfforddiant ar hylendid bwyd yn enghraifft o wasanaethau awdurdod bwyd anifeiliaid lleol a allai fod yn cael eu darparu mewn cystadleuaeth â hyfforddiant a gynigir gan sefydliadau eraill.

Pan fo awdurdod bwyd anifeiliaid yn dirprwyo tasg reoli swyddogol e.e. samplu i drydydd parti annibynnol (corff rheoli<sup>14</sup>) mae'n rhaid i'r awdurdod gael tystiolaeth bod y corff rheoli'n ddiuedd ac nad oes unrhyw fuddiannau'n gwrthdaro mewn perthynas â'r tasgau a ddirprwywyd iddo.

---

<sup>14</sup> Gweler Erthygl 2(5) Rheoliad 882/2004

## **PENNOD 1.4 COFNODION SEFYDLIADAU BUSNES BWYD ANIFEILIAID**

### **1.4.1 Cyflwyniad**

Yn unol ag Erthygl 19 Rheoliad 183/2005, mae'r Bennod hon yn gofyn i awdurdodau bwyd anifeiliaid gadw cronfa ddata gyfredol o sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid cymeradwy a chofrestredig yn eu hardal, ac i ddatgelu'r data hwn at ddibenion sicrhau iechyd y cyhoedd a gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yn effeithiol.

### **1.4.2 Cronfa ddata Sefydliadau Busnes Bwyd Anifeiliaid**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gadw cronfa ddata o sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid sydd wedi'u cofrestru gyda'r awdurdod a sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid a gymeradwywyd ganddynt yn barhaol neu dros dro. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid drafod fel bo angen i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i bob awdurdod sydd ei hangen yn unol â pharagraff 1.1.4. Dylai'r gronfa ddata gynnwys cofnod cynhwysfawr o:

- sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid sydd wedi cofrestru gyda'r awdurdod. Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid gadw cofnodion a fydd yn eu galluogi i lunio rhestr o dan bob gweithgarwch a gyflawnir gan sefydliadau bwyd anifeiliaid a gofrestrwyd ganddynt;
- sefydliadau sy'n gwneud penderfyniadau dros fusnesau y mae'r awdurdod bwyd anifeiliaid yn gweithredu fel awdurdod cartref ar gyfer materion bwyd anifeiliaid; a
- sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid a gymeradwywyd gan yr awdurdod bwyd anifeiliaid.

Dylai pob awdurdod bwyd anifeiliaid gael gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod ei gronfa ddata'n gyfredol ac wedi'i diogelu yn erbyn twyll a cholli gwybodaeth, a fydd yn cynnwys defnyddio'r wybodaeth a roddwyd ar ffurflenni cais am gofrestru neu gymeradwyaeth i ddiweddarau'r gronfa ddata.

### **1.4.3 Mynediad i wybodaeth**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ddarparu manylion cofnodion sefydliad busnes bwyd anifeiliaid os oes asiantaethau gorfodi tebyg eraill neu gorff goruchwyllo yn gofyn am hynny i hwyluso ymchwiliad i berygl bwyd anifeiliaid neu argyfwng neu ymchwiliad troseddol arall sy'n gysylltiedig â bwyd anifeiliaid neu fwyd.

Wrth drafod ceisiadau am wybodaeth gan gyrrff heblaw awdurdodau bwyd anifeiliaid neu'r Asiantaeth dylid rhoi sylw dyledus i'r ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data.

## **PENNOD 1.5    COFRESTRU/CYMERADWYO SEFYDLIADAU BUSNES BWYD ANIFEILIAID**

### **1.5.1    Cyflwyniad**

O dan Erthygl 9(3) Rheoliad 183/2005, dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gadw cofrestr o sefydliadau ac eithrio'r rhai nad ydynt yn dod o dan Reoliad 183/2005 (gweler paragraff 1.5.2).

Mae awdurdodau bwyd anifeiliaid yn gyfrifol am gofnodi a chadw manylion am sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid sydd wedi'u cofrestru/cymeradwyo ganddynt o dan Reoliad 183/2005 (gweler Pennod 1.4).

### **1.5.2    Eithriadau**

Mae'r gweithgareddau sydd y tu allan i gwmpas Rheoliad 183/2005 ar hyn o bryd ac nad oes angen eu cofrestru neu eu cymeradwyo o ganlyniad yn cynnwys:

- cynhyrchu bwyd anifeiliaid domestig preifat ar gyfer bwydo (i) anifeiliaid a gedwir i'w bwyta'n breifat yn y cartref (ii) anifeiliaid nad ydynt yn cael eu cadw ar gyfer cynhyrchu bwyd.
- bwydo anifeiliaid cynhyrchu bwyd a gedwir i'w bwyta'n breifat yn y cartref neu ar gyfer y gweithgareddau a nodir yn Erthygl 1(2)(c) Rheoliad (CE) 852/2004 Senedd a Chyngor Ewrop 29 Ebrill 2004 ar hylendid bwydydd anifeiliaid;
- bwydo anifeiliaid nad ydynt yn cael eu cadw i gynhyrchu bwyd;
- cyflenwi symiau bach o gynhyrchion cynhyrchu sylfaenol yn uniongyrchol i ffermydd lleol i'w defnyddio'n bersonol; a
- manwerthu bwyd anifeiliaid anwes. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys gweithgynhyrchu mewn safleoedd manwerthu bwyd anifeiliaid anwes i'w werthu h.y. cymysgu cynhyrchion gan greu fformiwleiddiad newydd. Bydd angen cofrestru'r gweithgarwch hwn.

### **1.5.3    Cofrestru Sefydliadau Busnes Bwyd Anifeiliaid**

#### **1.5.3.1    Ceisiadau Cofrestru: Cyffredinol**

O dan Erthygl 31(1)(a) Rheoliad 882/2004 mae gofyn i'r awdurdodau cymwys, sef yr Asiantaeth ac awdurdodau lleol ym Mhrydain, sefydlu gweithdrefnau i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid eu dilyn wrth wneud cais am gofrestru eu sefydliadau. Mae rhai o'r trefniadau wedi'u nodi yn y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi). Mae'r paragraffau canlynol yn cynnwys gweithdrefnau pellach.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gymryd camau i sicrhau bod pawb sy'n gwneud cais am gofrestru yn ymwybodol o'r gofynion sy'n rhaid iddynt eu bodloni ar gyfer cofrestru yn Atodiad I neu II Rheoliad Hylendid Bwyd Anifeiliaid 183/2005 y CE a gweithredu egwyddorion HACCP fel y bo'n berthnasol.

### **1.5.3.2 Ffurflenni Cofrestru**

Gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid<sup>15</sup> sy'n gyfrifol am sicrhau bod y ffurflen gais yn cael ei llenwi'n gywir. Pan dderbynnir ffurflenni anghyflawn, dylai'r corff gofodi asesu'r wybodaeth i weld a oes angen cysylltu â gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid i gael rhagor o wybodaeth. Pan gred yr awdurdod fod y manylion a gyflwynwyd yn anghywir dylent gymryd yr holl gamau rhesymol angenrheidiol i wirio'r wybodaeth cyn symud ymlaen. Mae ffurflen gais enghreifftiol yn Atodiad 8 y Cod hwn.

### **1.5.4 Sefydliadau Cymeradwy**

#### **1.5.4.1 Cyfrifoldebau Gorfodi ar gyfer Sefydliadau Cymeradwy**

Mae awdurdodau lleol Prydain yn gyfrifol am gymeradwyo sefydliadau sy'n cyflawni gweithgareddau a restrir yn Erthygl 10(1)(a) Rheoliad 183/2005.

Yr AMI ym Mhrydain sy'n gyfrifol am gymeradwyo a gorfodi mewn sefydliad sy'n gweithgynhyrchu rhag-gymysgeddau a bwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys ychwanegion meddyginiaethol neu fwyd anifeiliaid penodedig e.e. cocsidiostadau, histomonostadau a hyrwyddwyr tyfiant fel y'u rhestrir yn Erthygl 10(1)(b) a (c), waeth a yw hefyd yn cynnwys fitamin A neu D, neu elfennau hybrin copr neu seleniwm.

Mae canllawiau pellach ar y safleoedd sydd angen cymeradwyaeth a'u trefniadau archwilio ym Mhennod 4.3.

#### **1.5.4.2 Ceisiadau Cymeradwyaeth: Gweithdrefnau / Ffurflenni**

Mae Erthygl 31(2)(a) Rheoliad 882/2004 yn gosod rheidrwydd ar awdurdodau cymwys i sefydlu gweithdrefnau i weithredwyr busnes bwyd anifeiliaid eu dilyn wrth wneud cais i gymeradwyo eu sefydliadau yn unol â Rheoliad 183/2005. Mae rhai o'r trefniadau ffurfiol wedi'u nodi yn y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) ac mae gweithdrefnau trafod ceisiadau cymeradwyo wedi'u nodi ym mharagraffau 1.5.4.3 i 1.5.4.11. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau eu bod nhw, a gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid, yn dilyn y gweithdrefnau hyn fel y bo'n briodol. Dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid gofnodi a chadw unrhyw achosion o beidio â dilyn y gweithdrefnau hyn.

#### **1.5.4.3 Ceisiadau Cymeradwyaeth: Trafod**

Dylid rhoi sylw buan i unrhyw gais am gymeradwyaeth gan weithredwr busnes bwyd anifeiliaid. Er mwyn sicrhau cysondeb, dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ofyn i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid gyflwyno ceisiadau cymeradwyaeth yn y fformat briodol. Mae ffurflen gais enghreifftiol yn Atodiad 8.

<sup>15</sup> Fel y diffiniwyd yn Erthygl 3 Rheoliad 178/2002 y CE

Dim ond gan weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid sy'n bwriadu cyflawni gweithgareddau sydd angen eu cymeradwyo yn unol â Rheoliad 183/2005 y dylid derbyn ceisiadau am gymeradwyo sefydliadau. Ni ddylid, ar unrhyw gyfrif, roi cymeradwyaeth i sefydliad nad yw'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad 183/2005.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod y gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol cyn dod i benderfyniad ar gais cymeradwyaeth. Gellir cael y wybodaeth hon gan weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid mewn dogfennaeth a roddir gyda'r cais neu yn ystod ymweliad dilynol â'r sefydliad yn ôl gofynion Erthygl 31(2)(b) Rheoliad 882/2004 (gweler Pennod 4.3). Yr awdurdod bwyd anifeiliaid sydd i benderfynu pryd yn ystod y broses o wneud cais y dylid darparu'r wybodaeth hon.

#### **1.5.4.4 Penderfynu ar Geisiadau Cymeradwyaeth**

**1.5.4.4.1** Cyn dod i benderfyniad ar gais cymeradwyaeth dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid ymweld â'r safle yn unol ag Erthygl 13 Rheoliad 183/2005 oni bai bod yr eithriad o ymweliad safle cyn cymeradwyo yn Erthygl 17 Rheoliad 183/2005 yn berthnasol (gweler paragraff 1.5.5.4.2 isod). Archwiliad sylfaenol o'r sefydliad fydd yr ymweliad (gweler paragraff 4.1.2). Dylid cynnal yr ymchwiliad yn unol â, a chan gwmpasu, yr holl agweddau ar ffurflen archwilio berthnasol y busnes dan sylw (gweler paragraff 4.1.2) ac ystyried yr holl faterion a nodwyd gan Reoliad 183/2005. Yn unol ag Erthygl 31(2) Rheoliad 882/2004 mae'n rhaid bodloni holl ofynion cyfraith bwyd anifeiliaid sy'n berthnasol i'r busnes.

#### **1.5.4.4.2 Eithrio o Ymweliad Safle cyn Cymeradwyaeth**

Mae'r eithriad hwn yn ymwneud â busnesau bwyd anifeiliaid sy'n masnachu cynhyrchion bwyd anifeiliaid ond nad ydynt byth yn cadw'r cynnyrch ar eu safle. I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn mae'n rhaid i fusnesau bwyd anifeiliaid wneud datganiad i'r awdurdod bwyd anifeiliaid priodol bod y bwydydd anifeiliaid y maent yn eu gosod ar y farchnad yn cydymffurfio â gofynion perthnasol Rheoliad 183/2005. Mae ffurflen ddatgan enghreifftiol yn Atodiad 9.

#### **1.5.4.5 Cymeradwyaeth Amodol**

Mae Erthygl 13(2) Rheoliad 183/2005 yn caniatáu rhoi cymeradwyaeth amodol i sefydliad nad yw'n cydymffurfio'n llawn â gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid, yn dilyn ymweliad â safle'r sefydliad, ond dim ond os yw'r sefydliad yn bodloni'r holl ofynion seilwaith a chyfarpar.

Yr awdurdodau bwyd anifeiliaid sydd i benderfynu a ddylid rhoi cymeradwyaeth amodol i sefydliad nad yw'n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion. Dylid defnyddio barn broffesiynol wrth benderfynu a fyddai'n briodol rhoi cymeradwyaeth amodol, yn ôl pob achos unigol. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r disgrisiwn hwn i roi cymeradwyaeth amodol os gallai'r materion nad ydynt yn cydymffurfio olygu bod bwydydd anifeiliaid yn achosi perygl

difrifol i iechyd anifeiliaid, a phobl wrth iddynt fwyta cynhyrchion anifeiliaid, neu gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd.

Os rhoddir cymeradwyaeth amodol, mae'n rhaid ymweld â'r sefydliad eto o fewn tri mis i roi'r gymeradwyaeth yn unol ag Erthygl 13(2) Rheoliad 183/2005. Ymchwiliad eilaidd fydd yr ymweliad hwn (gweler 4.1.3). Mewn amgylchiadau priodol, fel y nodwyd yn Erthygl 13(2) Rheoliad 183/2005, gellir ymestyn cymeradwyaeth amodol, ond mae hyn wedi'i gyfyngu i uchafswm o chwe mis o ddyddiad rhoi'r gymeradwyaeth amodol. Dylid defnyddio barn broffesiynol wrth benderfynu a fyddai'n briodol ymestyn cymeradwyaeth amodol, yn ôl pob achos unigol.

#### **1.5.4.6 Rhif Cymeradwyo / Marc Adnabod**

Mae'n rhaid i awdurdod bwyd anifeiliaid roi rhif cymeradwyo i bob sefydliad bwyd anifeiliaid mae'n ei gymeradwyo neu'n ei gymeradwyo'n amodol yn unol ag Erthygl 19(5) Rheoliad 183/2005. Y digid cyntaf yw'r symbol alffa, 'α'. Y digidau nesaf yw cod ISO yr Aelod-Wladwriaeth "GB" ar gyfer y DU. Y digidau eraill yw'r cyfeirnod cenedlaethol, ond yn achos awdurdodau lleol dylent ddechrau gyda thri digid cyfarwyddeb rheoli swyddogol yr awdurdod (e elwir yn gyfeirnod y Safonau Bwyd hefyd) yn cael eu dilyn gan rif rhwng 1 a 9999.

#### **1.5.4.7 Gwrthod Cymeradwyaeth ac Apeliadau**

Os nad yw sefydliad yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Rheoliad 183/2005, dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid ystyried a yw cymeradwyaeth amodol yn briodol o dan yr amgylchiadau (gweler paragraff 1.5.4.5).

Pan fo awdurdod bwyd anifeiliaid wedi penderfynu gwrthod cais cymeradwyaeth dylai hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'r penderfyniad cyn gynted â phosibl. Dylai'r awdurdod roi rhesymau dros wrthod y cais, nodi'r materion sydd angen eu bodloni i gydymffurfio â gofynion y Rheoliad, a datgan yn glir na ellir cyflawni gweithgareddau sydd angen cymeradwyaeth oni bai fod y sefydliad wedi cael cymeradwyaeth amodol. Dylai hysbysiad o'r fath wneud y gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn ymwybodol o'u hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a chynnwys cyfeiriad llys ynadon lle gellir cyflwyno apêl o'r fath neu Lys Siryf yn yr Alban. Mae hawliau i apelio wedi'u nodi yn rheoliad 13 y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi).

Os yw'r awdurdod bwyd anifeiliaid yn ystyried y gall unrhyw weithgareddau a gyflawnir mewn sefydliad sy'n aros am ganlyniad apêl achosi perygl i iechyd y cyhoedd, dylai ystyried defnyddio pwerau gorfodi perthnasol eraill sy'n briodol i'r amgylchiadau dan sylw (gweler Pennod 3).

#### **1.5.4.8 Hysbysu am Gymeradwyaeth**

Unwaith y bydd cymeradwyaeth, neu gymeradwyaeth amodol, wedi'i rhoi, dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid hysbysu'r ymgeisydd, yn ysgrifenedig, o natur a chwmpas y gymeradwyaeth ac unrhyw amodau neu gyfyngiadau perthnasol a'r rhif cymeradwyo.

Pan roddir cymeradwyaeth lawn yn dilyn cymeradwyaeth amodol, dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn ysgrifenedig. Dylai hysbysiad o'r fath gynnwys manylion am natur a chwmpas y gymeradwyaeth, unrhyw amodau neu gyfyngiadau perthnasol a chadarnhad y gellir parhau i ddefnyddio'r rhif cymeradwyo a roddwyd i'r sefydliad.

Dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid gadw copi o'r hysbysiadau uchod yn ffeil y sefydliad perthnasol a sicrhau bod yr Asiantaeth yn cael ei hysbysu am y gymeradwyaeth yn unol â pharagraff 2.4.3.

#### **1.5.4.9 Newid Manylion neu Weithgareddau**

Mae Erthygl 16 Rheoliad 183/2005 yn gofyn i awdurdodau bwyd anifeiliaid ddiwygio manylion cymeradwyo sefydliad, lle mae wedi dangos ei allu i ddatblygu gweithgareddau sy'n ychwanegol i'r rhai a gafodd eu cymeradwyo i'w cyflawni y tro cyntaf, neu sy'n eu disodli. Pan fydd awdurdod bwyd anifeiliaid yn dod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sylweddol i weithgareddau sefydliad cymeradwyo dylent gynnal ymchwiliad.

#### **1.5.4.10 Ffioedd**

Yn unol â rheoliad 14 Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi), mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid godi ffi statudol ar gyfer cymeradwyo neu wneud newidiadau i gymeradwyaeth fel yr amlinellwyd yn yr atodlenni i'r Rheoliadau. Ni ddylai awdurdod bwyd anifeiliaid godi ffi am gynnwys busnes bwyd anifeiliaid yn eu rhestr o sefydliadau cymeradwyo pan roddwyd cymeradwyaeth eisoes gan awdurdod bwyd anifeiliaid arall yn cynnwys yr AMI a bod y ffi briodol wedi'i thalu. Gall awdurdodau bwyd anifeiliaid ofyn am ad-daliad o unrhyw gostau dadansoddi mewn labordy sy'n gysylltiedig ag asesu'r sefydliad cyn ei gymeradwyo.

#### **1.5.4.11 Sefydliadau heb eu cymeradwyo y credir eu bod yn cyflawni gweithgareddau sydd angen eu cymeradwyo**

Pan fo awdurdodau bwyd anifeiliaid yn dod yn ymwybodol o fusnesau sy'n cyflawni gweithgareddau sydd angen eu cymeradwyo, ond nad ydynt wedi'u cymeradwyo, dylent hysbysu'r gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid, yn ysgrifenedig, o'r angen am gymeradwyaeth ac ystyried camau gorfodi priodol.

Gweler Adran 3 am ganllawiau cyffredinol ar orfodi.

### **1.5.5 Rhestri o Sefydliadau Busnes Bwyd Anifeiliaid**

#### **1.5.5.1 Gofynion Rheoliad 183/2005**

Mae Erthygl 19 Rheoliad 183/2005 yn gofyn i'r awdurdod cymwys priodol lunio rhestr o sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd wedi'u cofrestru neu eu cymeradwyo.

#### **1.5.5.2 Rhestr ar wahân o Sefydliadau Busnes Bwyd Anifeiliaid wedi'u cofrestru/cymeradwyo**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod yna restr gyfredol ar wahân o sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd wedi cofrestru gyda nhw ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar unrhyw adeg resymol. Dylai'r rhestr gynnwys y wybodaeth ganlynol am bob busnes bwyd anifeiliaid a dylai fod yn gyson â'r wybodaeth sydd yng nghronfa ddata'r awdurdod bwyd anifeiliaid:

1. Enw'r busnes bwyd anifeiliaid;
2. Cyfeiriad y sefydliad busnes bwyd anifeiliaid; a
3. Gweithgarwch.

Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid gadw rhestr gyfredol o sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd wedi'u cymeradwyo ganddynt i'r cyhoedd ei gweld ar adegau rhesymol. Mae'n rhaid i'r rhestr hon gynnwys y wybodaeth ganlynol am bob busnes bwyd anifeiliaid a dylai fod yn gyson â'r wybodaeth sydd yng nghronfa ddata'r awdurdod bwyd anifeiliaid:

1. Rhif adnabod (cymeradwyo);
2. Gweithgarwch;
3. Enw neu enw busnes y busnes bwyd anifeiliaid;
4. Cyfeiriad y busnes bwyd anifeiliaid; a
5. Sylwadau perthnasol.

Gall yr awdurdodau hyn roi neu anfon copi o'u rhestr neu unrhyw gofnod arni at unrhyw unigolyn sy'n gwneud cais am wybodaeth o'r fath. Dylid rhoi sylw dyledus i ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data wrth drafod ceisiadau am wybodaeth ynglŷn â sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid.

Wrth dderbyn hysbysiad am newid mewn gweithgareddau dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ddiweddarau'r rhestr o sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid cofrestredig/cymeradwy fel sy'n briodol, a gosod neu gofnodi'r manylion ar ffeil y sefydliad busnes bwyd anifeiliaid.

Dylai cyrff gorfodi ddarparu copi cyflawn o'u cofrestrï a rhestri i'r Asiantaeth Safonau Bwyd pan fydd yr Asiantaeth yn gofyn am hynny.

Mae'r rhestri hyn hefyd yn galluogi'r Asiantaeth i gyflawni ei rhwymedigaeth i ddarparu rhestr genedlaethol o adeiladau cofrestredig a chymeradwy i'r cyhoedd a darparu rhestr gyflawn o sefydliadau cymeradwy'r DU i'r Comisiwn.

## **PENNOD 1.6 ACHOSION A PHERYGLON BWYD ANIFEILIAID**

### **1.6.1 Cyflwyniad**

Mae'r Bennod hon yn trafod digwyddiadau bwyd anifeiliaid a pheryglon bwyd anifeiliaid sy'n cael eu nodi gyntaf gan awdurdodau bwyd anifeiliaid.

Mae Atodiad 3 yn cynnwys cynrychiolaeth sgematig o'r broses y dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid eu dilyn wrth ymdrin â digwyddiad neu berygl bwyd anifeiliaid.

### **1.6.2 Digwyddiadau Bwyd Anifeiliaid / Peryglon Bwyd Anifeiliaid**

#### **1.6.2.1 Digwyddiad Bwyd Anifeiliaid: Diffiniad**

Mae "digwyddiad bwyd anifeiliaid" yn digwydd pan fo awdurdod bwyd anifeiliaid neu'r Asiantaeth yn dod yn ymwybodol nad yw bwyd anifeiliaid neu ei labeli yn bodloni gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid, neu ei bod hi'n ymddangos felly. Gall digwyddiad bwyd anifeiliaid fod yn fater cymharol ddibwys neu'n berygl mawr.

#### **1.6.2.2 Perygl Bwyd Anifeiliaid: Diffiniad**

"Perygl bwyd anifeiliaid" yw digwyddiad bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cyfrwng biolegol, cemegol neu ffisegol mewn bwyd anifeiliaid, neu cyflwr bwyd anifeiliaid, a all achosi effaith niweidiol ar iechyd neu ddiogelwch anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu'r cyhoedd.

#### **1.6.2.3 Gweithdrefn Ddogfenedig**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sefydlu a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymdrin â digwyddiadau bwyd anifeiliaid sy'n cael eu nodi yn eu hardal.

#### **1.6.2.4 Categoriâu o Beryglon Bwyd Anifeiliaid**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gategoreiddio peryglon bwyd anifeiliaid yn unol â'r meini prawf canlynol:

- perygl bwyd anifeiliaid lleol – un lle nad yw bwyd anifeiliaid wedi'i ddosbarthu y tu hwnt i ffiniau'r awdurdod bwyd anifeiliaid ac NAD yw'n cael ei ystyried yn berygl bwyd anifeiliaid lleol difrifol;
- perygl bwyd anifeiliaid lleol difrifol – un lle nad yw bwyd anifeiliaid wedi'i ddosbarthu y tu hwnt i ffiniau'r awdurdod bwyd anifeiliaid ond sy'n cynnwys anaf neu salwch anifeiliaid y mae'r awdurdod bwyd anifeiliaid yn ei ystyried yn arwyddocaol oherwydd, er enghraifft, natur agored i niwed y boblogaeth sy'n debyg o gael eu heffeithio, y niferoedd dan sylw neu unrhyw farwolaethau sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad; a

- pherygl bwyd anifeiliaid nad yw'n lleol – un lle mae bwyd anifeiliaid wedi'i ddsbarthu y tu hwnt i ffiniau'r awdurdod bwyd anifeiliaid.

Dylai awdurdod bwyd anifeiliaid ofyn am gyngor gan yr Asiantaeth os nad yw'n siŵr a yw digwyddiad bwyd anifeiliaid yn berygl bwyd anifeiliaid.

### **1.6.2.5 Halogi Bwriadol ac Ymyrryd Maleisus**

Gall bwyd gael ei halogi'n fwriadol. Os yw hyn yn digwydd, dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ddilyn y trefniadau yn y Bennod hon, ac eithrio pan greidir fod yr halogi bwriadol yn achos o ymyrryd maleisus. At ddibenion y Cod hwn, ystyr "ymyrryd maleisus" yw halogi bwyd anifeiliaid yn fwriadol trwy weithgarwch terfysgol, neu gyda'r bwriad i flacmelio neu gribddeilio.

Mae trefniadau ar gyfer ymdrin ag achosion o ymyrryd maleisus wedi'u sefydlu rhwng yr Asiantaeth a heddluoedd ledled y DU a bydd Gwasanaeth Cenedlaethol Cudd-wybodaeth Droseddol yn rhan o'r ymchwiliad os oes angen.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gysylltu â'r Asiantaeth cyn gynted â phosibl os ydynt yn amau achos o ymyrryd maleisus a throsglwyddo cyfrifoldeb am ymdrin ag achosion o'r fath i'r heddlu os ydynt yn gofyn am hynny.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gydweithredu'n llawn ag ymchwiliadau'r heddlu i achosion o ymyrryd maleisus a pharchu ceisiadau'r heddlu am gyfrinachedd lle bo'n bosibl, er y gallai fod yna adegau pan fo'r angen i rybuddio defnyddwyr o bresenoldeb perygl bwyd anifeiliaid yn bwysicach na'r angen i gadw'r cyfan yn gyfrinachol.

### **1.6.2.6 Gweithredu gan yr Awdurdod Bwyd Anifeiliaid – Peryglon Bwyd Anifeiliaid**

Ar ôl nodi bod perygl bwyd anifeiliaid, dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid gynnal asesiad yn syth i benderfynu maint a difrifoldeb tebygol y risg i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd yn sgil y perygl, gan gynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol. Gall yr asiantaethau hyn gynnwys awdurdodau cartref, gwreiddiol a chymdogol, arbenigwyr meddygol, dadansoddwyr amaethyddol, a microbiolegwyr.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gael gweithdrefnau i alw asiantaethau priodol ynghyd ar fyr rybudd, i weithredu mesurau rheoli brys lle bo angen ac i nodi awdurdod arweiniol os oes angen.

Dylai'r asesiad gynnwys y canlynol:

- natur y perygl;
- pa mor wenwynig yw'r halogydd, natur alergenaidd cynhwysyn/cyfansoddyn heb ei ddatgan, neu ffyrnigrwydd a natur bathogenaidd yr organeb;
- y math o anaf y gellir ei achosi gan halogydd ffisegol;

- pwy sy'n debygol o gael eu heffeithio a pha mor agored i niwed ydynt;
- maint a dosbarthiad tebygol y bwyd anifeiliaid yn y gadwyn bwyd anifeiliaid hyd at y pwynt bwyta;
- gallu a pharodrwydd y cynhyrchwr neu'r dosbarthwr i dynnu'r cynnyrch yn ôl yn effeithiol;
- gallu i nodi'r llwyth(i) neu swp/sypiau sydd wedi'u heffeithio'n gywir;
- faint o gofnodion sy'n cael eu cadw gan y cynhyrchwr, y dosbarthwr neu'r prynwyr terfynol a'u cywirdeb;
- effeithiolrwydd tebygol unrhyw achos o dynnu'r cynnyrch yn ôl ar bob cam o'r gadwyn bwyd anifeiliaid;
- y cam(au) lle yr amheuir y nam mae'n debyg (er enghraifft, wrth brosesu, pacio, trafod, storio neu ddsbarthu) a'i arwyddocâd tebygol i'r broblem;
- a yw cynhyrchion eraill a gynhyrchwyd yn yr un sefydliad wedi'u heffeithio hefyd;
- a yw'r bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio;
- a yw'r bwyd anifeiliaid wedi'i allforio;
- oes yna oblygiadau ehangach i eraill yn yr un diwydiant neu i sefydliadau sy'n defnyddio prosesau tebyg mewn diwydiannau bwyd anifeiliaid eraill; a'r
- posibilrwydd bod y gŵyn neu'r broblem wedi'i hachosi gan weithred faleisus (gweler paragraff 1.6.4).

Pan fo awdurdod bwyd anifeiliaid yn dod yn ymwybodol o berygl bwyd anifeiliaid dylai gymryd camau gweithredu i ddiogelu iechyd a diogelwch anifeiliaid a'r cyhoedd yn ddi-oed, yn cynnwys cadw neu atafaelu'r bwyd anifeiliaid dan sylw os yw wedi'i leoli yn ardal yr awdurdod bwyd anifeiliaid (gweler Pennod 3.4).

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ystyried defnyddio pwerau eraill o dan y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) fel y bo'n briodol, sy'n berthnasol i'r amgylchiadau dan sylw.

Yr awdurdod bwyd anifeiliaid, ar y cyd ag asiantaethau eraill, ddylai ymdrin â pheryglon bwyd anifeiliaid lleol ac nid oes angen eu hadrodd i'r Asiantaeth.

Dylid hysbysu'r Asiantaeth ac asiantaethau perthnasol eraill yn ddi-oed am beryglon bwyd anifeiliaid lleol difrifol a pheryglon bwyd anifeiliaid nad ydynt yn

lleol a thrwy'r dull cyflymaf posibl<sup>16</sup> a'u cadarnhau yn ysgrifenedig gan ddefnyddio copi o'r ffurflen adrodd am ddigwyddiadau yn Atodiad 4. Mae'r ffurflen hefyd ar gael ar wefan yr Asiantaeth a gellir ei chyflwyno'n syth i'r Tîm Digwyddiadau Bwyd ar y wefan.

Fodd bynnag, pan fydd awdurdod bwyd anifeiliaid yn dod yn ymwybodol bod gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn ei ardal wedi tynnu bwyd anifeiliaid o'r farchnad yn unol ag Erthygl 20 Rheoliad 178/2002 gan nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd anifeiliaid y Rheoliad hwnnw, dylai'r awdurdod gadarnhau bod yr Asiantaeth hefyd yn ymwybodol o'r sefyllfa.

Yr awdurdod bwyd anifeiliaid sy'n parhau i fod yn gyfrifol am weithredu'n lleol oni bai fod yr Asiantaeth yn hysbysu'r awdurdod fel arall.

#### **1.6.2.7 Peryglon Bwyd Anifeiliaid Lleol – Cysylltiadau â'r Cyfryngau**

Yn achos perygl bwyd anifeiliaid lleol, gall awdurdod bwyd anifeiliaid gyhoeddi datganiad i'r wasg lleol i rybuddio'r cyhoedd am y perygl. Dylid ymgynghori â gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid perthnasol cyn datgelu enw'r busnes neu'r brand o fwyd anifeiliaid i'r cyfryngau. Dylid anfon datganiadau o'r fath i'r Asiantaeth yn ddi-oed. Dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid hysbysu'r Asiantaeth yn syth os yw gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn gwrthwynebu cyhoeddi gwybodaeth o'r fath.

#### **1.6.2.8 Camau Gweithredu gan yr Awdurdod Bwyd Anifeiliaid – Digwyddiadau Bwyd Anifeiliaid**

Dylai digwyddiadau bwyd anifeiliaid sy'n torri cyfraith bwyd anifeiliaid ond nad ydynt yn beryglon gael eu datrys gan yr awdurdod bwyd anifeiliaid a gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid, trwy'r awdurdod cartref neu wreiddiol os yn briodol.

#### **1.6.2.9 System Rhybudd Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF)**

Os yw'r digwyddiad bwyd anifeiliaid yn digwydd mewn porthladd neu bwynt mynediad a bod y bwyd anifeiliaid yn cael ei wrthod, mae'n rhaid llenwi ffurflen RASFF a'i hanfon gyda'r ddogfennaeth briodol (nodyn danfon, tystysgrifau iechyd, manylion y mewforiwr, ac ati) i Gangen Digwyddiadau'r Asiantaeth. Mae copi o'r RASFF ar wefan Fforwm Iechyd yr UE<sup>17</sup>.

---

<sup>16</sup> Caiff rhestr yn rhoi manylion cyswllt ei chyhoeddi fel dogfen ar wahân ac mae ar gael gan y Tîm Digwyddiadau Bwyd yn yr Asiantaeth, Room 715B, Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH. Ffôn: 020 7276 8448 / 8453.

<sup>17</sup> <http://forum.europa.eu.int/Public/irc/sanco/Home/main>

## **ADRAN 2 CYFATHREBU**

### **PENNOD 2.1 DATGELU GWYBODAETH**

#### **2.1.1 Cyffredinol**

Wrth ymdrin â gohebiaeth a chyfathrebu bydd yna amgylchiadau lle bydd materion cyfrinachedd, diogelu data a hawliau dynol yn codi. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid ystyried cynnwys ei gynllun cyhoeddi ei hun o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth<sup>18</sup>. Mae'n rhaid iddynt weithredu'r gyfraith a'r egwyddorion cyffredinol a nodwyd mewn deddfwriaeth berthnasol a chyfraith achos i ffeithiau penodol yr achos dan sylw. Dylid gwneud hyn ar lefel lleol, a dylai gweinyddwyr lleol ymgynghori â'u Hadran Gyfreithiol eu hunain.

<sup>18</sup> Deddf Rhyddid Gwybodaeth Cyfeiriadau at Gymru, Lloegr a'r Alban

## **PENNOD 2.2 RHYBUDDION BWYD ANIFEILIAID**

### **2.2.1 Cyflwyniad**

Neges gan yr Asiantaeth i awdurdod bwyd anifeiliaid yw “rhybudd bwyd anifeiliaid”. Mae'r neges yn ymwneud â pherygl bwyd anifeiliaid neu ddigwyddiad bwyd anifeiliaid arall, a dylid darllen “diweddariad rhybudd bwyd anifeiliaid” yn unol â hynny. Efallai y bydd rhybudd bwyd anifeiliaid neu ddiweddariad rhybudd bwyd anifeiliaid yn golygu bod rhaid i'r awdurdod bwyd anifeiliaid gymryd camau gweithredu ac y bydd unrhyw weithredu/ymatebion sy'n rhaid i'r Asiantaeth eu gwneud yn cael eu nodi'n glir.

Gall yr Asiantaeth gyhoeddi gwybodaeth i awdurdodau bwyd anifeiliaid ar adalw cynnyrch neu ddigwyddiadau bwyd anifeiliaid.

### **2.2.2 Ymateb i Rybuddion Bwyd Anifeiliaid**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod eu gweithdrefn ddogfenedig ar ymdrin â digwyddiadau diogelwch bwyd anifeiliaid yn cynnwys ymateb effeithiol i rybuddion bwyd anifeiliaid a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth.

Dylai'r weithdrefn ddogfenedig hon gael ei datblygu ar y cyd ag:

- aelodau o'r Grŵp Cyswllt Bwyd Anifeiliaid perthnasol;
- Dadansoddwr amaethyddol; a
- swyddogion perthnasol yr Awdurdod Bwyd Anifeiliaid e.e. Swyddog Cynllunio at Argyfwng.

Mae'n rhaid i'r weithdrefn ddogfenedig gynnwys y canlynol o leiaf:

- manylion y Swyddog Arweiniol ar faterion o'r fath, gan gynnwys ei fanylion cyswllt;
- unrhyw drefniadau ar gyfer derbyn ac ymateb i rybuddion a dderbyniwyd y tu allan i oriau swyddfa;
- trefniadau i sicrhau bod rhybuddion bwyd anifeiliaid a diweddariadau yn cael eu dwyn i sylw swyddog yn yr awdurdod i ddechrau camau gweithredu priodol heb oedi diangen;
- trefniadau ar gyfer cysylltu â chyrrff perthnasol eraill, yn cynnwys awdurdodau bwyd anifeiliaid cyfagos, o fewn a thu allan i oriau swyddfa arferol;
- trefniadau i ddarparu adnoddau staff digonol fel bod modd ymateb yn effeithiol i rybuddion; a

- threfniadau i ddarparu cyfarpar digonol, yn cynnwys mynediad i swyddfeydd y Cyngor y tu allan i oriau arferol, er mwyn gallu ymateb yn effeithiol.

### **2.2.3 Cyfleusterau ar gyfer Derbyn Rhybuddion Bwyd Anifeiliaid a Diweddariadau**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gael cyfleusterau i dderbyn rhybuddion bwyd anifeiliaid a diweddariadau gan yr Asiantaeth drwy system bost electronig sy'n dderbyniol gan yr Asiantaeth. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gyflwyno systemau i sicrhau bod modd ymateb i rybuddion bwyd anifeiliaid y tu allan i oriau gwaith arferol.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid roi gwybod beth yw eu cyfeiriad post electronig i'r Asiantaeth a'i hysbysu am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn cyn gynted â phosibl.

### **2.2.4 Gwasanaethau y tu allan i oriau arferol**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid hysbysu'r Asiantaeth am rifau ffôn cyswllt mewn argyfwng i swyddogion cyfrifol y tu allan i oriau swyddfa arferol yr awdurdod ac am unrhyw newidiadau i'r manylion cyn gynted â phosibl.

### **2.2.5 Gweithredu gan Awdurdodau Bwyd Anifeiliaid**

Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod unrhyw gweithredu penodol gan yr Asiantaeth os bydd rhybudd bwyd anifeiliaid yn cael eu cymryd yn fuan ac yn unol ag unrhyw asesiad risg a wnaed gan yr Asiantaeth. Os yw awdurdodau bwyd anifeiliaid yn bwriadu cymryd camau gweithredu eraill, dylent gytuno arnynt gyda'r Asiantaeth cyn eu gweithredu. Pan fo awdurdod bwyd anifeiliaid yn rhagweld anawsterau i gydymffurfio â chais am weithredu mewn rhybudd, dylid cysylltu'n syth â Thîm Digwyddiadau Bwyd yr Asiantaeth.

### **2.2.6 Cysylltiadau â'r Cyfryngau – Rhybuddion Bwyd Anifeiliaid**

Gall awdurdodau bwyd anifeiliaid sydd am roi mwy o gyhoeddusrwydd lleol ddefnyddio datganiad i'r wasg/i'r cyfryngau a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel sail i ddatganiad i'r wasg lleol, pan fo'r Asiantaeth yn caniatáu hynny. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i'r awdurdod bwyd anifeiliaid sicrhau bod y datganiad lleol yn gywir, perthnasol a chyson gyda datganiad yr Asiantaeth.

Os yw awdurdodau bwyd anifeiliaid yn dymuno dangos rhybuddion bwyd anifeiliaid ar eu gwefannau dylent sicrhau bod unrhyw ddeunydd o rybuddion bwyd anifeiliaid neu ddatganiadau i'r wasg/i'r cyfryngau'r Asiantaeth yn cael ei olygu er mwyn nodi pa gamau gweithredu lleol sydd wedi'u cymryd mewn ymateb i'r rhybudd. Dylai hefyd gynnwys gwybodaeth gysylltu leol.

## **PENNOD 2.3 GOHEBIAETH A CHANLLAWIAU'R ASIANTAETH**

### **2.3.1 Cyflwyniad**

Mae'r Bennod hon yn gofyn i awdurdodau bwyd anifeiliaid gymryd camau gweithredu priodol ynglŷn â chanllawiau'r Asiantaeth ar orfodi cyfraith bwyd yn effeithiol.

### **2.3.2 Canllawiau a Gyhoeddir i Awdurdodau Bwyd Anifeiliaid**

O dro i dro, bydd angen i'r Asiantaeth gyhoeddi canllawiau gorfodi neu gyfathrebu gydag awdurdodau bwyd anifeiliaid i ofyn iddynt weithredu, i drosglwyddo gwybodaeth, neu gysylltu â nhw am reswm arall sy'n gysylltiedig â gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yn effeithiol.

Gall y cyfathrebu hwn fod ar ffurf llythyr, ffacs neu e-bost a bydd yn cael ei nodi'n glir fel cyfathrebu y mae'r Bennod hon yn ymwneud ag ef. Bydd yr ohebiaeth yn cael ei chyfeiriadu'n ddilynol ac yn cynnwys manylion am unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd gan yr awdurdod bwyd anifeiliaid.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid fod â threfniadau i benderfynu pa gamau gweithredu sydd eu hangen yn lleol wrth dderbyn gohebiaeth o'r fath ac i dynnu sylw swyddogion awdurdodedig at yr ohebiaeth os oes angen.

### **2.3.3 Cysondeb Gorfodi**

Mae'n hanfodol bod awdurdodau bwyd anifeiliaid yn gweithredu a gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yn gyson i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu a bod busnesau bwyd anifeiliaid yn cael eu trin yn deg.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid roi sylw dyledus felly i ganllawiau gorfodi a gyhoeddir gan yr Asiantaeth, ar y cyd â'r Asiantaeth neu ar ei rhan.

Dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid ystyried unrhyw gyngor a gyhoeddwyd gan LACORS.

## **PENNOD 2.4 GWYBODAETH I'W HANFON I'R ASIANTAETH**

### **2.4.1 Cyflwyniad**

Mae'r Bennod hon yn trafod y wybodaeth sydd ei hangen ar yr Asiantaeth mewn perthynas â pheryglon bwyd anifeiliaid, cymeradwyaeth a materion eraill o dan Reoliadau Hylendid Bwyd Anifeiliaid yr UE; materion sy'n ymwneud â threfniadau cyswllt Ewropeaidd; swyddogion arweiniol; cyfeiriadau post electronig; a rhifau ffôn mewn argyfwng.

### **2.4.2 Materion sy'n gysylltiedig â Pheryglon Bwyd Anifeiliaid**

Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid hysbysu'r Asiantaeth cyn gynted â'u bod yn ymwybodol o:

- Berygl bwyd anifeiliaid lleol difrifol;
- Perygl bwyd anifeiliaid nad yw'n lleol;
- Achos lleol difrifol o salwch a gludir gan fwyd anifeiliaid;
- Gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn tynnu bwyd anifeiliaid yn ôl am nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd anifeiliaid Rheoliad 178/2002 (Erthygl 20).

### **2.4.3 Materion sy'n gysylltiedig â Sefydliadau Cofrestredig/Cymeradwy**

Dylai cyrff gorfodi anfon copi cyflawn o'u cofrestri a'u rhestri os bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gofyn amdanynt.

### **2.4.4 Materion sy'n gysylltiedig â Dyrannu Tasgau sy'n gysylltiedig â Rheolaethau Swyddogol**

Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid sy'n dyrannu tasgau penodol i drydydd partiön annibynnol (cyrff rheoli) ddarparu manylion y corff rheolaethau a'r tasgau a roddwyd iddo i'r Asiantaeth.

### **2.4.5 Materion sy'n gysylltiedig â Threfniadau Cysylltu ag Aelod-Wladwriaethau Eraill**

Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid hysbysu'r Asiantaeth pan fyddant yn ymwybodol o fater trawsffiniol y dylid ei gyfeirio'n uniongyrchol i'r Asiantaeth (gweler paragraff 2.5.1).

### **2.4.6 Swyddogion Arweiniol**

Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid roi i'r Asiantaeth enw eu swyddog arweiniol penodedig sydd â chyfrifoldeb gweithredol a rheolaethol am orfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a hysbysu'r Asiantaeth am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn (gweler paragraff 1.2.8).

#### **2.4.7 Cyfeiriadau Post Electronig**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid hysbysu'r Asiantaeth o'u cyfeiriad post electronig a hysbysu am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn (gweler paragraff 2.2.3).

#### **2.4.8 Rhifau Ffôn mewn Argyfwng**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid hysbysu'r Asiantaeth am rifau ffôn mewn argyfwng i'w ffonio y tu allan i oriau swyddfa arferol a hysbysu am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn (gweler paragraff 2.2.4).

#### **2.4.9 Gorchymyn Gwahardd Busnes Bwyd Anifeiliaid a wneir yn erbyn Unigolyn**

Gweler paragraffau 3.3.2.7 a 3.3.2.8 isod am fanylion pellach.

## **PENNOD 2.5 YMWNEUD AG AELOD-WLADWRIAETHAU ERAILL**

### **2.5.1 Cyflwyniad**

Yr Asiantaeth yw'r corff cyswllt penodedig at ddibenion Erthygl 35 Rheoliad 882/2004 ac, o'r herwydd, mae'n gyfrifol am gynorthwyo a chydgysylltu cyfathrebu rhwng awdurdodau cymwys a throsglwyddo a derbyn ceisiadau am gymorth. Fodd bynnag, nid yw hyn atal cyswllt uniongyrchol, cyfnewid gwybodaeth neu gydweithio rhwng staff awdurdodau bwyd anifeiliaid yn y gwahanol Aelod-Wladwriaethau.

Yr Asiantaeth sy'n ymdrin â materion trawsffiniol a all fod ag oblygiadau polisi a materion sy'n gysylltiedig â pheryglon bwyd anifeiliaid. Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid hysbysu'r Asiantaeth am bob mater o'r fath felly cyn gynted â phosibl.

Mae darpariaethau manwl ar gymorth gweinyddol a chydweithredu ag Aelod-Wladwriaethau eraill wedi'u nodi yn Erthyglau 34 i 38 Rheoliad 882/2004.

### **2.5.2 Materion trawsffiniol**

Mae materion trawsffiniol yn perthyn i dri chategori bras:

- A. materion trawsffiniol sydd angen eu cyfeirio i'r Asiantaeth yn uniongyrchol;
- B. materion trawsffiniol a hysbyswyd i'r Asiantaeth ar ôl ymwneud ag Aelod-Wladwriaethau eraill;
- C. ymwneud rheolaidd rhwng awdurdodau bwyd anifeiliaid ac awdurdodau rheoli bwyd anifeiliaid mewn Aelod-Wladwriaethau eraill.

#### **2.5.2.1 A. Materion trawsffiniol i'w cyfeirio'n uniongyrchol i'r Asiantaeth**

- bwydydd anifeiliaid sy'n ymddangos fel petaent yn achosi risg i iechyd neu ddiogelwch anifeiliaid;
- ymholiadau am gynnyrch penodol sydd wedi'i archwilio a'r cyflwr microbiolegol sy'n destun pryder;
- bwydydd anifeiliaid sy'n ymwneud â rhybuddion, twyll neu beryglon bwyd anifeiliaid a nodwyd yn flaenorol;
- achosion tybiedig o ymyrryd yn faleisus â bwyd anifeiliaid;
- amgylchiadau lle mae cynhyrchion bwyd anifeiliaid wedi'u tynnu o'r farchnad yn y DU gyda neu heb gytundeb y manwerthwr neu'r cyflenwr;
- achosion lle mae'r swyddog awdurdodedig yn amau bod yna faterion polisi cenedlaethol neu bolisi CE arwyddocaol yn gysylltiedig; a

- mwy nag un achos o fethu â chydymffurfio wedi'i nodi mewn cysylltiad â gwahanol lwythi o'r un ffynhonnell.

### **2.5.2.2 B. Materion trawsffiniol a hysbyswyd i'r Asiantaeth ar ôl ymwneud ag Aelod-Wladwriaethau eraill**

- unrhyw fater y mae'n ymddangos fod amgylchiadau paragraff 2.5.2.1 uchod yn berthnasol iddo ar ôl ymchwilio, cysylltu neu archwilio;
- achosion sy'n cynnwys awdurdodau gorfodi mewn Aelod-Wladwriaethau eraill lle mae yna oedi diangen, amwysedd neu wrthodiad i gymryd camau gweithredu sy'n ymddangos yn angenrheidiol;
- amgylchiadau lle mae'n ymddangos bod elfennau cyfraith bwyd anifeiliaid cenedlaethol un Aelod-Wladwriaeth yn gwrthdaro â chyfraith Aelod-Wladwriaeth arall; ac
- unrhyw fater a restrwyd er gwybodaeth sy'n ymddangos, ar ôl ymchwilio, cysylltu neu archwilio, fel bod ganddo oblygiadau difrifol y dylai'r Asiantaeth gael gwybod amdanynt.

### **2.5.2.3 C. Cyswllt Rheolaidd rhwng Awdurdodau Rheoli Bwyd Anifeiliaid Lleol Aelod-Wladwriaethau**

Dim ond materion "er gwybodaeth" y dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid eu trafod yn uniongyrchol. Dylid cyfeirio materion eraill sydd angen cymryd camau gweithredu yn eu cylch i'r Asiantaeth yn ddi-oed. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ofyn i'r Asiantaeth am gyngor os ydynt yn ansicr ynglŷn â beth yw'r weithdrefn briodol o ymdrin â mater trawsffiniol penodol.

Byddai materion cyswllt rheolaidd rhwng awdurdodau rheoli bwyd anifeiliaid Aelod-Wladwriaethau o dan Gategori C yn cynnwys:

- ymholiadau am gynnyrch penodol a ddadansoddwyd ac nad oedd yn cynnwys goblygiadau i ddiogelwch bwyd anifeiliaid;
- ymholiadau am label neu ddisgrifiad cynnyrch sy'n ymddangos fel pe bai'n torri'r gofynion;
- ymholiadau am gofnodion samplu, hanes y cwmni neu systemau rheoli sy'n debygol o ategu camau gweithredu cyfreithiol;
- ymholiadau am gyfraith achos berthnasol, rheoleiddio, gofynion cyfansoddiadol a safonau bwyd anifeiliaid eraill sy'n weithredol mewn Aelod-Wladwriaeth benodol;
- ymholiadau i wirio didwylledd dogfennau, i fynd i lygad y ffynnon problemau ac i osgoi dyblygu gwaith samplu neu archwilio;
- ymholiadau ynglŷn ag amgylchiadau arbennig gwrthod cynnyrch bwyd anifeiliaid penodol yn y DU neu a arweiniodd at gamau gorfodi ynglŷn â'r cynnyrch hwnnw; a

- diffygion a throseddau eraill sy'n annhebygol o fod angen gweithredu arnynt yn y DU, ond a fyddai'n gofyn am gamau gweithredu gan awdurdod mewn Aelod-Wladwriaeth arall.

### **2.5.3 Ymholiadau i Aelod-Wladwriaethau eraill**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gyfeirio ymholiadau am faterion gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid mewn Aelod-Wladwriaethau eraill i'r corff neu'r awdurdod cyswllt priodol yn yr Aelod-Wladwriaeth dan sylw naill ai trwy'r Asiantaeth neu'n uniongyrchol. Gall yr Asiantaeth roi cymorth i nodi'r corff neu'r awdurdod cyswllt perthnasol os oes angen.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gynnal ymchwiliad cyn cyfeirio mater i'r Asiantaeth a darparu dogfennaeth gefnogi lawn.

### **2.5.4 Ymholiadau gan Aelod-Wladwriaethau eraill**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth gan awdurdod bwyd anifeiliaid arall, corff rheoli bwyd anifeiliaid, Aelod-Wladwriaeth arall (neu'r Asiantaeth). Wrth wneud hynny, dylent gymryd y camau gweithredu canlynol:

- cydnabod eu bod wedi derbyn y cais a chynghori'r parti gwreiddiol fod y mater yn derbyn sylw;
- ymchwilio os oes angen;
- cymryd camau gorfodi priodol, os oes angen;
- hysbysu'r parti gwreiddiol am ganlyniadau unrhyw ymholiadau, archwiliadau, neu gamau gorfodi eraill, naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r Asiantaeth;
- sicrhau bod ymatebion i geisiadau'n agored, yn ddefnyddiol ac yn cael eu darparu heb oedi diangen;
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i'r parti gwreiddiol pan fo camau gweithredu'n cael eu cymryd ac na fydd y canlyniad ar gael am gryn amser.

Dylid cyfeirio unrhyw gais am wybodaeth sydd, ar ôl ymchwilio, cysylltu neu archwilio, yn ymddangos yn ddifrifol, i'r Asiantaeth.

### **2.5.5 Datgelu gwybodaeth i Aelod-Wladwriaethau eraill**

Mae Erthygl 7 Rheoliad 882/2004 yn nodi'r gofynion cyffredinol mewn perthynas â thryloywder a chyfrinachedd. Mae darpariaethau manwl ar gymorth gweinyddol a chydweithredu ag Aelod-Wladwriaethau eraill wedi'u nodi yn Erthyglau 34 i 38 Rheoliad 882/2004. Mae Erthygl 34 yn nodi na ddylai Erthyglau 35 - 40 y Rheoliad hwnnw, sy'n ymdrin â chymorth gweinyddol a chydweithredu rhwng Aelod-Wladwriaethau "*prejudice national*

*rules applicable to the release of documents which are the object of, or are related to, court proceedings, or rules aimed at the protection of natural or legal persons' commercial interests".*

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid felly sicrhau bod unrhyw wybodaeth a gyhoeddir yn cael ei chyhoeddi yn unol â deddfwriaeth genedlaethol yn cynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â Diogelu Data.

## **ADRAN 3      GORFODI CYFFREDINOL**

### **PENNOD 3.1      DULL GORFODI**

#### **3.1.1 Cyflwyniad**

Mae'r Bennod hon yn rhestru deunyddiau cyfeirio y dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid eu hystyried. Mae'n gofyn i bob awdurdod bwyd anifeiliaid ddogfennu ei Pholisi Gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid a'i chadw'n gyfredol. Mae hefyd yn gofyn i fusnesau bwyd anifeiliaid aml-safle gysylltu'n uniongyrchol â'r brif swyddfa oni bai bod y busnes wedi cytuno ar drefniadau eraill. Mae'n rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng gofynion statudol ac arferion da mewn unrhyw gyfathrebu gyda busnesau bwyd anifeiliaid. Lle bo'n briodol, dylid cymryd penderfyniadau i erlyn (neu gyfeirio at y Procuradur Ariannol yn yr Alban) cyn gynted â phosibl. Pan benderfynir mabwysiadu dull anffurfiol, dylid egluro i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid pa gamau sydd angen eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth.

#### **3.1.2 Gwybodaeth Gorfodi**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod gan swyddogion awdurdodedig y wybodaeth ddiweddaraf wrth law i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n iawn.

Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer hwn, Canllawiau Arfer Da y DU<sup>19</sup> lle bo'n briodol; canllawiau'r Asiantaeth a LACORS; codau ymarfer y diwydiannau perthnasol, a llenyddiaeth dechnegol briodol.

#### **3.1.3 Rhesymoldeb, Cymesuredd a Chysondeb**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod camau gorfodi sy'n cael eu cymryd gan eu swyddogion awdurdodedig yn rhesymol, cymesur a chyson ag arferion da.

Dylai swyddogion awdurdodedig ystyried yr amrywiaeth lawn o ddewisiadau gorfodi. Mae hyn yn cynnwys addysgu gweithredwyr busnes bwyd anifeiliaid, rhoi cyngor, gweithredu anffurfiol, samplu, cadw ac atafaelu bwyd anifeiliaid, cyflwyno hysbysiadau gwella, gweithdrefnau gwahardd ac erlyn.

Ac eithrio lle mae amgylchiadau'n dangos bod yna berygl sylweddol, dylai swyddogion ddefnyddio dull graddedig ac addysgol gan ddechrau gyda chynghor/addysg a gweithredu anffurfiol ac ni ddylent symud ymlaen i weithredu ffurfiol oni bai nad yw'r gweithredu anffurfiol yn cyflawni'r effaith a ddymunir. Dylai hyn leihau'r tebygolrwydd o achos cyfreithiol.

---

<sup>19</sup> Mae cyfeiriadau at Ganllawiau Arfer Da y DU yn y Cod hwn yn cyfeirio at Ganllawiau y mae Llywodraeth y DU yn eu cydnabod fel Canllawiau sy'n cydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid perthnasol.

Wrth bwyso a mesur a ddylid dechrau camau gorfodi ai peidio, dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ystyried y canlynol:

- yng Nghymru a Lloegr, y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron<sup>20</sup> neu yn yr Alban, Canllawiau Swyddfa'r Goron<sup>21</sup>;
- y Concordat Gorfodi<sup>22</sup>;
- yng Nghymru a Lloegr, unrhyw Godau Ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diwygio Rheoleiddio 2001; a
- Pholisi Gorfodi'r awdurdod bwyd anifeiliaid.

### 3.1.4 Polisiâu Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid

Dylai pob awdurdod bwyd anifeiliaid gael Polisi Gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid cyfredol wedi'i ddogfennu sydd ar gael yn hawdd i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a'r cyhoedd.

Dylai'r Polisi gwmpasu pob maes o gyfraith bwyd anifeiliaid sy'n dod o dan ddyletswydd yr awdurdod bwyd anifeiliaid a chynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl ddewisiadau gorfodi sydd ar gael.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ystyried unrhyw gyngor a gyhoeddir gan yr Asiantaeth a LACORS wrth lunio eu Polisiâu Gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid.

Gall Polisi Gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid fod yn rhan o bolisi cyffredinol, neu fod wedi'i gyfuno gyda pholisïau gorfodi eraill e.e. cyfraith bwyd anifeiliaid, cyn belled bod cymhwysedd y Polisi i orfodi cyfraith bwyd anifeiliaid yn glir.

Dylai swyddogion awdurdodedig weithredu Polisi Gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid eu hawdurdod bwyd anifeiliaid, a ddylai adlewyrchu'r holl ffactorau a nodwyd ym mharagraff 3.1.3.

Dim ond mewn achosion eithriadol y dylid eithrio o'r Polisi a dylid cofnodi'r rhesymau dros hyn.

Wrth benderfynu ar y math o gamau gorfodi i'w cymryd, dylai swyddog awdurdodedig ystyried natur y torri rheolau a hanes cydymffurfio'r gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid neu, yn achos busnesau newydd, asesu parodrwydd gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid i gyflawni'r gwaith a nodwyd gan y swyddog.

---

<sup>20</sup> Mae'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yn gyfrifol am gyhoeddi Cod i Erlynwyr y Goron o dan adran 10 o Ddeddf Erlyniad Troseddau 1985, sy'n rhoi canllawiau ar yr egwyddorion cyffredinol i'w dilyn wrth wneud penderfyniadau am erlyniadau: <http://www.cps.gov.uk/index.html>

<sup>21</sup> *Crown Office Guidance – Reports to the Procurator Fiscal: A Guide for Specialist Reporting Agencies*. Gallwch gael copi o'r ddogfen ganllawiau hon o Swyddfa'r Goron.

<sup>22</sup> <http://www.dti.gov.uk/consumers/enforcement/enforcemt-concordat/index.html>

Mae'n bwysig bod yr amrywiaeth lawn o ddewisiadau gorfodi'n parhau'n agored i swyddog awdurdodedig. Ni ddylai awdurdod bwyd anifeiliaid fabwysiadu polisïau lle mae nifer yr hysbysiadau gwella a gyflwynwyd neu nifer y prosesau cyfreithiol eraill fel erlyniad, yng Nghymru a Lloegr, neu rybudd yn ddangosydd perfformiad.

### **3.1.5 Cyfathrebu gyda Busnesau Bwyd Anifeiliaid Aml-safle**

Dylai unrhyw gyfathrebu rhwng awdurdodau bwyd anifeiliaid a busnesau bwyd anifeiliaid aml-safle fod yn unol ag Egwyddor yr Awdurdod Cartref lle bo'n bosibl.

Fel rheol, dylai cyfathrebu uniongyrchol rhwng awdurdodau bwyd anifeiliaid a busnesau bwyd anifeiliaid aml-safle fod gyda phrif swyddfa'r busnes dan sylw oni bai bod y busnes wedi rhoi cyfeiriad gwahanol ar gyfer anfon gohebiaeth.

Dylai dogfennau sy'n cael eu gadael gyda staff ar y safle gael eu copïo i'r brif swyddfa berthnasol neu gyfeiriad arall hefyd oni bai bod y busnes yn nodi fel arall.

### **3.1.6 Gofynion a Chyngor Gorfodol**

Dylai unrhyw gyfathrebu â busnesau bwyd anifeiliaid wahaniaethu'n glir rhwng camau gweithredu sydd eu hangen i fodloni gofynion statudol ac argymhellion am arferion da.

Dylai pob gohebiaeth nodi unrhyw achos o dorri gofynion a'r mesurau y dylid eu cymryd i gydymffurfio ym marn y swyddog. Dylai'r ohebiaeth gynnwys amserlen ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth.

Dylai dogfennau, cylchlythyrau, llyfrynau a chyhoeddiadau safonol eraill gan yr awdurdod bwyd anifeiliaid fod yn gywir ac adlewyrchu arferion cyfredol. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid fod yn barod i drafod llythyrau, cylchlythyrau ac ati gydag unrhyw weithredwr busnes bwyd anifeiliaid yr anfonwyd nhw atynt.

### **3.1.7 Deddf Hawliau Dynol: Pwerau Mynediad ac Atafael 1998 / ac yng Nghymru a Lloegr, Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)**

Mae'r hawl i breifatrwydd a pharch at eiddo personol yn egwyddorion allweddol o Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Dylid cyfiawnhau pwerau mynediad ac atafael yn llawn a chlir cyn eu defnyddio gan y gallent ymyrryd yn sylweddol â phreifatrwydd pobl.

Mae Rheoliad 24 Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) yn caniatáu swyddog awdurdodedig i fynd ag unrhyw unigolion y tybiant sy'n angenrheidiol gyda nhw. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd â chymwysterau neu sgiliau addas neu arbenigwr, er enghraifft.

Ym mhob achos dylai swyddogion awdurdodedig:

- ddefnyddio eu pwerau'n gwrtais gan barchu unigolion ac eiddo;
- defnyddio grym rhesymol yn unig o dan reoliad 24 i fynd i mewn i adeilad a hynny pan ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau;
- os yng Nghymru a Lloegr, na fydd darpariaethau Adrannau 15 ac 16 PACE neu God Ymarfer B PACE yn yr Alban, Canllawiau Swyddfa'r Goron ar gyfer Asiantaethau Adrodd Arbenigol, y Ddeddf, y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi), y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Bwyd Swyddogol a'r Cod hwn, yn cael eu dilyn yn briodol, gall tystiolaeth a gesglir mewn ymchwiliad gael ei chyfaddawdu.

### **3.1.8 Dull Anffurfiol**

Dylai swyddog awdurdodedig sy'n penderfynu mabwysiadu dull anffurfiol yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod bwyd anifeiliaid i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid ddilyn y gweithdrefnau a nodwyd yn Egwyddor Awdurdod Cartref LACORS lle bo'n briodol.

Dylai unrhyw ohebiaeth ddilynol rhwng yr awdurdod cartref, gwreiddiol neu orfodi a gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid gynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r gweithredwr i ddeall yn union pa gamau y mae disgwyl iddo eu cymryd, a pham fod angen gwneud hynny.

Dylid trin gohebiaeth fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.1.5. Dylid trafod hyn ac, os yn bosibl, dod i gytundeb gyda gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid.

### **3.1.9 Erlyn yng Nghymru a Lloegr**

Dylid mynd ati cyn gynted â phosibl i benderfynu a ddylid dechrau erlyn ai peidio.

Cyn penderfynu a ddylid erlyn, dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ystyried nifer o ffactorau:

- bod hierarchaeth y strwythur gorfodi'n dangos bod erlyn yn briodol yn hytrach na chamau gweithredu anffurfiol neu hysbysiad gorfodi er enghraifft. (Fodd bynnag, dylai swyddogion fod yn ymwybodol, os defnyddir Hysbysiad Gwella Busnes Bwyd Anifeiliaid neu ddull tebyg, bod hwn hefyd yn fater y gellir ei ddwyn gerbron y Llys, ac y dylai'r Swyddog allu cyfiawnhau ei weithredoedd. Bydd y meini prawf isod o gymorth yn hyn o beth);
- bod y Polisi Gorfodi wedi'i ddilyn; a
- bod yna ddigon o dystiolaeth (mae'r prawf wedi'i nodi yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron).

Mae'r canlynol yn ffactorau pwysig:

- effeithiolrwydd tebygol unrhyw dyst pwysig, a'u parodrwydd i gydweithredu;
- bod yr unigolyn neu'r unigolion honedig wedi'u hadnabod;
- unrhyw esboniad a roddir gan y sawl sydd dan amheuaeth;
- tebygolrwydd bod y sawl sydd dan amheuaeth yn gallu amddiffyn ei hun – yn arbennig amddiffyniad diwydrwydd dyladwy; a
- bod prawf lles y cyhoedd wedi'i fodloni (eto, mae'r prawf wedi'i nodi yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron). Dylai erlynwyr sylwi bod y Prawf yn amherthnasol oni bai bod modd bodloni'r Prawf Tystiolaeth. Os na cheir tystiolaeth, ni fydd unrhyw ddadl o blaid lles y cyhoedd yn ddigonol i gyfiawnhau dechrau erlyn, gan y bydd yr Erlynwr wedi penderfynu, mwy na thebyg, y bydd yr achos yn methu yn y llys gan nad oes digon o dystiolaeth ar gael.

Mae'r amrywiol ffactorau sy'n ffafrio erlyn:

- difrifoldeb y drosedd;
- faint o'r math hwn o drosedd sydd yn yr ardal lle cyflawnwyd y drosedd (os nad yw'r drosedd yn ddifrifol ynddi'i hun); a
- cholffarnau neu rybuddion blaenorol y sawl sydd dan amheuaeth.

Mae'r amrywiol ffactorau yn erbyn erlyn yn cynnwys:

- y tebygolrwydd o gosb nominal;
- bod y drosedd wedi'i chyflawni o ganlyniad i gamgymeriad neu gamddealltwriaeth gwirioneddol (rhaid cydbwysu hyn yn erbyn difrifoldeb y drosedd); ac
- a fyddai unrhyw gamau gweithredu eraill, fel cyflwyno rhybudd yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref<sup>23</sup> yn fwy priodol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig fod y swyddogion awdurdodedig yn briffio eu cynghorwyr cyfreithiol yn llawn ar agwedd iechyd cyhoeddus yr achos dan sylw, yn cynnwys y sail iechyd cyhoeddus ar gyfer y gofynion cyfreithiol sydd wedi'u torri, fel y gallant, yn eu tro, bwysleisio difrifoldeb y cyhuddiadau i'r Llys.

Lle bo'n bosibl, dylai swyddogion egluro'r rheswm dros erlyn a chofnodi'r rheswm hwnnw, fel y gellir cyfeirio ato'n ddiweddarach os bydd angen mewn Llys agored.

---

<sup>23</sup> Cylchlythyr 30/2005 y Swyddfa Gartref ar rybuddion syml a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2004 ar rybuddio amodol.

### 3.1.10 Erllyn yn yr Alban

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gyfeirio at gyhoeddiad Swyddfa'r Goron – *A guide to Specialist Reporting Agencies* – y chweched argraffiad, am gyngor ar gyflwyno adroddiad i'r Procadur Ariannol. Mae'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am gamau paratoadol a ffactorau i'w hystyried, yn cynnwys cyngor ar dystiolaeth ac amserlenni.

Cyn penderfynu a ddylid hysbysu'r procadur ariannol dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ystyried:

- a yw hierarchaeth y strwythur gorfodi'n dangos bod erlyn yn briodol yn hytrach na chamau gweithredu anffurfiol neu hysbysiad gorfodi er enghraifft. Dylai swyddogion fod yn ymwybodol y gellir defnyddio Hysbysiad Gwella Busnes Bwyd Anifeiliaid neu ddull tebyg fel rhan o dystiolaeth y goron mewn erlyniad yn y dyfodol, ac y dylai'r Swyddog allu cyfiawnhau ei weithredoedd;
- a gydymffurfiwyd â'r Polisi Gorfodi;
- unrhyw esboniad a roddir gan y gweithredwr;
- difrifoldeb y drosedd; ac
- a gyflawnwyd y drosedd o ganlyniad i gamgymeriad neu gamddealltwriaeth gwirioneddol (rhaid cydbwysu hyn yn erbyn difrifoldeb y drosedd);

## **PENNOD 3.2: HYSBYSIADAU GWELLA BUSNESAU BWYD ANIFEILIAID**

### **3.2.1 Cyflwyniad**

Mae'r Bennod hon yn trafod defnyddio hysbysiadau gwella busnesau bwyd anifeiliaid o dan reoliad 17 y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi).

Mae ffurflen enghreifftiol i'w defnyddio mewn cysylltiad â Rheoliad 17 y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) yn Atodiad 7.

### **3.2.2 Hysbysiadau Gwella Hylendid Bwyd Anifeiliaid – Pryd i ddefnyddio hysbysiadau gwella busnesau bwyd anifeiliaid**

Gall hysbysiadau gwella busnes bwyd anifeiliaid fod yn briodol mewn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol neu gyfuniad ohonynt:

- pan fo camau gweithredu ffurfiol yn gymesur i'r perygl i iechyd anifeiliaid neu bobl;
- pan fo yna gofnod o anghydymffurfio gydag achosion o dorri cyfraith bwyd anifeiliaid penodol sydd wedi'u rhestru yn y Rheoliadau Hylendid a Gorfodi Bwyd Anifeiliaid;
- pan fo gan y swyddog awdurdodedig reswm i gredu na fydd dull anffurfiol yn gallu llwyddo.

### **3.2.3 Pan na fydd hysbysiadau gwella busnesau bwyd anifeiliaid yn briodol**

Ni fyddai gweithdrefn hysbysiadau gwella busnesau bwyd anifeiliaid yn briodol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn barhaol, lle mae angen camau gorfodi cyflym er enghraifft, gŵyl undydd neu ddigwyddiad chwaraeon. Hysbysiad Gwahardd Brys fyddai'r unig a fyddai'n dod i rym yn syth;
- pan fo arferion hylendid da wedi'u torri ond nad oes achos o fethu cydymffurfio â rheoliad priodol; ac
- yn gyffredinol, ni ddylid defnyddio hysbysiad gwella i dynnu cynnyrch yn ôl mewn amgylchiadau lle na fyddai rheidrwydd ar weithredwr busnes bwyd anifeiliaid i wneud hynny o dan Erthygl 20 Rheoliad 178/2002.

## **PENNOD 3.3 GWEITHDREFNAU GWAHARDD**

(gweler paragraff 1.2.11 hefyd)

### **3.3.1 Cyflwyniad**

Mae'r Bennod hon yn trafod y defnydd o weithdrefnau gwahardd brys ar gyfer busnesau bwyd anifeiliaid o dan Reoliad 22 Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) i ddechrau yna'n trafod gorchmynion gwahardd busnesau bwyd anifeiliaid o dan reoliad 21.

Mae ffurflenni enghreifftiol i'w defnyddio mewn cysylltiad â Rheoliadau 21 a 22 Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) yn Atodiad 7.

### **3.3.2 Defnyddio Gweithdrefnau Gwahardd Brys Busnesau Bwyd Anifeiliaid Rheoliad 22)**

Oni bai bod defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol (gweler paragraff 3.3.2.6) yn fwy priodol o dan yr amgylchiadau, dylid defnyddio gweithdrefnau gwahardd brys bwyd anifeiliaid os oes gan swyddog awdurdodedig dystiolaeth y bodlonir yr amod perygl i iechyd a bod y perygl yn uniongyrchol. Os deuir o hyd i'r dystiolaeth briodol, gellir cyflwyno Rhybudd Gwahardd Brys Bwyd Anifeiliaid i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid, wedi'i ddilyn gan gais i Lys Ynadon neu i'r Siryf am orchymyn gwahardd brys.

#### **3.3.2.1 Amodau Perygl i Iechyd lle gall defnyddio Gweithdrefnau Gwahardd Busnesau Bwyd Anifeiliaid a Gweithdrefnau Gwahardd Brys Busnesau Bwyd Anifeiliaid fod yn briodol**

Mae'r paragraffau canlynol yn cynnig enghreifftiau o'r amgylchiadau sy'n gallu dangos y bodlonir yr amod perygl i iechyd fel y diffinnir ef yn rheoliad 21(2) / rheoliad 22(4) h.y. mae perygl / perygl ar ddigwydd o niweidio iechyd, a'r amgylchiadau hynny lle gall swyddog awdurdodedig, felly, ystyried defnyddio'r cyfryw bwerau gwahardd. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn rhagnodol neu'n ddi-derfyn mewn unrhyw ffordd, a'u diben yw egluro yn unig. Dim ond y llysoedd all gadarnhau Gorchmynion Gwahardd.

#### **3.3.2.2 Amodau Perygl i Iechyd lle gall Gwahardd defnyddio Safle fod yn briodol**

- Pla o lygod mawr, llygod, chwilod duon neu fermin eraill, sy'n ddigon difrifol i arwain at lygru'r bwyd mewn gwirionedd neu at berygl sylweddol o lygru;
- Cyflwr strwythurol gwael iawn a chyfarpar gwael a/neu gynnal a chadw gwael neu lanhau rheolaidd gwael a/neu grynhoad difrifol o wastraff, bryntni neu fater allanol arall sy'n arwain at lygru'r bwyd mewn gwirionedd neu berygl sylweddol o lygru bwyd;
- Namau â'r draeniad neu orlifo'r sefydliad, sy'n ddigon difrifol i arwain at lygru'r bwyd mewn gwirionedd neu berygl sylweddol o lygru;

- Amodau storio annigonol neu weithdrefnau glanhau gwael sy'n creu perygl sylweddol o lygru neu draws-halogi o fwyd anifeiliaid sy'n achosi perygl gwirioneddol i iechyd anifeiliaid, neu gynhyrchion anifeiliaid o'r fath i iechyd pobl;
- Unrhyw gyfuniad o'r uchod, neu effaith gronnus troseddau sydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn cynrychioli bodloni'r amod perygl i iechyd.

### **3.3.2.3 Amodau Perygl i Iechyd lle gall Gwahardd defnyddio Cyfarpar fod yn briodol**

- Defnyddio cyfarpar diffygiol, e.e. cymysgydd nad yw'n gallu cymysgu i'r graddau sydd ei angen;
- Defnyddio cyfarpar ar gyfer prosesu bwydydd risg uchel sydd wedi'u glanhau neu eu diheintio'n annigonol neu sydd wedi'u llygru'n ddifrifol ac na ellir eu glanhau yn iawn mwyach.

### **3.3.2.4 Amodau Perygl i Iechyd lle gall Gwahardd defnyddio Proses fod yn briodol**

- Perygl difrifol o draws-halogi gyda sylweddau annymunol;
- Defnyddio proses neu gynnyrch sy'n amhriodol ar ei gyfer.

### **3.3.2.5 Amod Perygl i Iechyd nad yw'n bodoli mwyach: Tystysgrif (Rheoliad 21(7) a Rheoliad 22(9))**

O ran gorchmynion gwahardd busnesau bwyd anifeiliaid dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid gyhoeddi tystysgrif i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid cyn pen tridiau, os yw'n fodlon nad yw'r amod perygl i iechyd yn bodoli mwyach. Os yw'r gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn gwneud cais am y fath dystysgrif, rhaid i'r awdurdod bwyd anifeiliaid benderfynu ar y sefyllfa cyn gynted ag y bo'n rhesymol arferol a chyn pen cyfnod nad yw'n fwy na phedwar diwrnod ar ddeg.

### **3.3.2.6 Gweithdrefnau Gwirfoddol**

Gellir defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol i ddileu amodau perygl i iechyd, ar gais gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid, pan fydd gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn cytuno bod amodau perygl i iechyd yn bodoli. Gall swyddog awgrymu'r dewis hwn i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid, ond dim ond mewn perthynas ag achos sifil o dan Rheoliad 22. Os oes amheuaeth, dylid cynghori gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid i gymryd cyngor cyfreithiol.

Dylid cadarnhau unrhyw gytundeb i gau'n wirfoddol yn ysgrifenedig gan weithredwr y busnes bwyd a'r swyddog awdurdodedig, gydag addewid gan weithredwr neu reolwr y busnes bwyd anifeiliaid na fydd yn ailagor heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y swyddog.

Os bydd rheolwr busnes bwyd anifeiliaid yn cynnig cau'n wirfoddol, dylai'r swyddog gael cadarnhad ysgrifenedig gan y rheolwr bod ganddo ef neu hi'r awdurdod i gytuno i gamau gweithredu o'r fath.

Dylai'r swyddog sicrhau y cynhelir gwiriadau rheolaidd i sicrhau nad yw'r safle wedi ailagor.

Os yw gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn cynnig cau'n wirfoddol, dylai'r swyddog:

- ystyried a oes perygl y bydd y safle'n ailagor heb i'r swyddog wybod a/neu heb iddo gytuno ar hynny (pe byddai hyn yn achosi digwyddiad bwyd anifeiliaid, gellid beirniadu'r awdurdod bwyd anifeiliaid am beidio â defnyddio pwerau statudol);
- cydnabod nad oes cosb gyfreithiol wahanol yn erbyn gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid sy'n ailagor i fasnachu ar ôl cynnig cau, er bod y camau gorfodi ar gyfer y troseddau gwirioneddol e.e. bwyd anifeiliaid anniogel, prosesu tebyg i'r hynny a gaed o'r blaen, ac ati, yn parhau ar gael;
- esbonio i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid, trwy gynnig cau, y collir unrhyw hawl i iawndal os yw Llys neu'r Siryf, wedi hynny, yn gwrthod cyhoeddi gorchymyn gwahardd brys ar y busnes bwyd anifeiliaid.

### **3.3.2.7 Camau Gweithredu pan gyhoeddir Gorchymyn Gwahardd Busnes Bwyd Anifeiliaid yn erbyn Unigolyn (Rheoliad 21(4))**

Dim ond os rhoddir gwybod i awdurdodau bwyd eraill y gall Llys gyhoeddi gorchymyn gwahardd busnes bwyd anifeiliaid, gan y gall yr unigolyn perthnasol geisio cychwyn busnes mewn ardal arall.

Dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid roi gwybod i'r Asiantaeth cyn gynted ag y bo modd ar ôl cyhoeddi'r gorchymyn gwahardd yn erbyn unigolyn sydd wedi'i wahardd rhag rhedeg busnes bwyd anifeiliaid, cyn belled nad yw'r gorchymyn yn destun apêl, a bod y cyfnod a ganiateir i apelio wedi dod i ben, gan roi'r wybodaeth ganlynol:

- rhif yr achos;
- manylion y llys;
- dyddiad y gorchymyn gwahardd;
- dyddiad(au) troseddu;
- natur y drosedd/troseddau;
- rhif y rheoliad/adran y cyflawnwyd y drosedd oddi tano/i;
- cosbau;

- enw'r unigolyn euog;
- enw'r busnes;
- cyfeiriad y sefydliad busnes bwyd, gan gynnwys cod post;
- math o fusnes/prif weithgaredd (e.e. arlwyo, manwerthu ac ati); a
- manylion ynghylch ffugenwau.

### **3.3.2.8 Diddymu Gorchymyn Gwahardd Busnes Bwyd Anifeiliaid yn erbyn Unigolyn (Rheoliad 21(6)(b) a Rheoliad 21(8))**

Dim ond os, ar ôl i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wneud cais amdano, y bydd y llys yn rhoi cyfarwyddyd, y gall Gorchymyn Gwahardd Busnes Bwyd Anifeiliaid yn erbyn unigolyn a orfodwyd gan lys o dan Rheoliad 7(4) beidio â bod yn weithredol.

Dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid hefyd roi gwybod i'r Asiantaeth yn ddi-oed unwaith y bydd yn gwybod bod y Gorchymyn Gwahardd Busnes Bwyd Anifeiliaid yn erbyn unigolyn yn ei ardal wedi'i ddiddymu.

## **PENNOD 3.4 CADW AC ATAFael**

### **3.4.1 Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi), Rheoliad 25**

Pan fo swyddog awdurdodedig wedi archwilio neu samplu unrhyw ddeunydd bwyd anifeiliaid a phan fo'r archwiliad neu ddadansoddiad o sampl a gymerwyd yn dangos nad yw'r deunydd yn cydymffurfio â gofynion y bwyd anifeiliaid penodol, gall y swyddog gadw neu atafaelu'r bwyd anifeiliaid. Mae ffurflen enghreifftiol yn Atodiad 7.

### **3.4.2 Cadw Bwyd Anifeiliaid**

Oni bai bod yr amgylchiadau'n golygu bod angen gweithredu ar unwaith, fel arfer dylid ond cymryd penderfyniad i gadw bwyd anifeiliaid ar ôl trafod hynny gyda'r perchennog neu'r sawl sy'n gyfrifol am fwyd anifeiliaid ac, os yw'n briodol, gyda'r gweithgynhyrchwr.

Lle bydd y swyddog awdurdodedig wedi cyflwyno rhybudd cadw bwyd anifeiliaid, dylid defnyddio barn broffesiynol i bennu a ddylid cadw bwyd anifeiliaid yn y fan lle mae, neu ei symud i rywle arall. Os bydd gan y swyddog unrhyw amheuan am ddiogelwch neu ofal ffisegol y bwyd anifeiliaid, dylai'r rhybudd cadw fanylu ar neu nodi safle y dylid symud y bwyd anifeiliaid iddo.

Os yw bwyd anifeiliaid i'w symud i ardal awdurdod bwyd anifeiliaid arall, dylai'r swyddog roi gwybod i'r awdurdod bwyd anifeiliaid a gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol i wirio'r bwyd anifeiliaid tra ei fod yn cael ei gadw.

Ym mhob achos, ond yn enwedig yn achos bwyd anifeiliaid hynod o ddarfodus, dylai'r swyddog weithredu'n gyflym ar bob cam a darparu gwybodaeth lawn i'r rheiny sy'n gorfod dadansoddi neu archwilio samplau o'r bwyd anifeiliaid.

Os yw'r bwyd anifeiliaid i'w gadw ymhle y cafodd ei ganfod, dylai'r swyddog awdurdodedig fodloni ei hun y gellir gwneud trefniadau digonol i sicrhau ei ddiogelwch ac atal pobl rhag ymyrryd ag ef. Dylai'r swyddog drefnu i fonitro'r bwyd anifeiliaid yn gyfnodol trwy gydol y cyfnod y cedwir ef. Cyn gwneud y fath drefniadau, dylid ystyried natur y bwyd anifeiliaid, faint ohono sydd, unrhyw berygl i iechyd, a phwy sy'n berchen ar y man lle cedwir y bwyd anifeiliaid. Yn gyffredinol, dylai'r swyddog osgoi ei adael mewn sefydliad sydd ym mherchnogaeth unrhyw unigolyn y gellir ei erlyn am drosedd o dan gyfraith bwyd.

### **3.4.3 Atafaelu Bwyd Anifeiliaid**

Wrth ystyried a ddylid atafaelu bwyd anifeiliaid, dylai swyddogion awdurdodedig ystyried a ellir trin neu brosesu'r bwyd anifeiliaid cyn ei fwyta ac, os felly, a fyddai'r bwyd anifeiliaid yn bodloni gofynion diogelwch bwyd anifeiliaid ar ôl ei drin neu ei brosesu. Dylid nodi nad yw Erthygl 5

Cyfarwyddeb 2002/32 y CE yn caniatáu cymysgu bwyd anifeiliaid i leihau lefelau uchel o sylweddau annymunol<sup>24</sup>.

Dylai'r swyddog awdurdodedig a'r perchennog neu'r sawl sy'n rheoli'r bwyd anifeiliaid gytuno ar drefniadau ar gyfer trin neu brosesu bwyd anifeiliaid yn yr amgylchiadau hyn, a dylai fod yn destun cytundeb ysgrifenedig a lofnodwyd.

Dylid cytuno ar unrhyw drefniant sy'n cynnwys symud bwyd anifeiliaid i ardal awdurdod bwyd anifeiliaid arall er mwyn ei drin neu ei brosesu gyda'r awdurdod bwyd sy'n derbyn y bwyd anifeiliaid cyn y cwblheir y cytundeb.

Dylid gwneud trefniadau i'r awdurdod bwyd hwnnw gymryd camau i sicrhau bod y driniaeth neu'r prosesu yn cael ei gyflwyno, gan gynnwys cyflwyno hysbysiad Cadw Bwyd os yw hynny'n briodol.

Os nad yw'r awdurdod bwyd anifeiliaid sy'n derbyn y bwyd yn gallu derbyn cyfrifoldeb am sicrhau y caiff y bwyd anifeiliaid ei brosesu'n briodol neu'n cael ei drin yn briodol, ni ddylai'r trefniant fynd yn ei flaen oni bai bod yna ffordd arall o ddatrys y broblem.

Oni bai bod paragraffau blaenorol yr adran hon yn gymwys, neu fod defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol yn fwy priodol, dylid atafaelu bwyd anifeiliaid os oes gan swyddog awdurdodedig dystiolaeth nad yw'n bodloni gofynion diogelwch bwyd anifeiliaid.

Os yw dystiolaeth neu wybodaeth yn dangos y dylid atafaelu bwyd anifeiliaid a gadwyd eisoes, dylai'r swyddog gyflwyno hysbysiad condemnio bwyd anifeiliaid, rhybudd o'r bwriad i ddwyn y bwyd anifeiliaid gerbron Ynad Heddwch a gwneud cais i'w gondemnio.

Dylai Ynad Heddwch (neu Siryf yn yr Alban) ymdrin â bwyd anifeiliaid a atafaelwyd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, o fewn 2 ddiwrnod fel arfer ond, os yw hynny'n ofynnol, dylid caniatáu mwy o amser i sicrhau bod y partïon yn mynychu a'u bod yn cael eu cynrychioli os ydynt yn dymuno hynny. Dylid ymdrin â bwyd hynod ddarfodus yn ddi-oed.

Dylid hysbysu'r sawl sy'n gyfrifol am y bwyd anifeiliaid o'r bwriad i wneud cais am orchymyn condemnio, er na ddylid oedi rhag cymryd camau os na ellir dod o hyd i'r perchennog neu os na ellir cysylltu ag ef. Mae'r Rheoliadau yn nodi fod gan unrhyw un sy'n atebol i gael ei erlyn hawl i fod yn bresennol, a dylid cofnodi y rhoddwyd gwybod am y gwrandawriad mewn da bryd a chadw'r cofnod i ddangos i'r Llys mai dyna ddigwyddodd. Yn yr Alban, mae'n rhaid i'r prawf gwasanaeth gyd-fynd â'r Ddeddf Sederunt<sup>25</sup>.

Dylai'r swyddog awdurdodedig sicrhau parhad y dystiolaeth waeth a fydd

---

<sup>24</sup> Cyfarwyddeb 2002/32/EC Senedd a Chyngor Ewrop 7 Mai 2002 ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 2006/13. Cafodd y Gyfarwyddeb ei gweithredu yn gyfraith genedlaethol gan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Lloegr) 2005, Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (yr Alban) 2005 a Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2005.

<sup>25</sup> Rheolau Cais Cryno, Ceisiadau Statudol ac Apeliadau ac ati 1999 OS 1999/929

erlyn ai peidio, a dylai wneud pob ymdrech i beidio â gadael y bwyd a atafaelwyd heb fod neb yn ei oruchwyllo.

### **3.4.4 Hysbysiadau Cadw/Atafael**

Dylai'r swyddog sy'n cymryd y penderfyniad i gadw'r bwyd anifeiliaid lofnodi Hysbysiad Cadw Bwyd Anifeiliaid.

Pan gaiff bwyd ei atafaelu, dylid cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Dylai'r hysbysiad hwn gynnwys manylion pa fath o fwyd anifeiliaid a atafaelwyd a faint ohono, gan gynnwys unrhyw farciau penodol, codau, dyddiadau ac ati.

Dylid cyflwyno hysbysiad condemnio bwyd anifeiliaid i'r sawl sy'n gyfrifol am y bwyd anifeiliaid pan fydd y swyddog yn bwriadu i Ynad Heddwch neu Siryf yn yr Alban ymdrin â'r bwyd anifeiliaid. Gellir rhoi'r hysbysiad i berchennog y bwyd anifeiliaid hefyd.

#### **3.4.4.1 Tynnu'r Hysbysiad Cadw Bwyd Anifeiliaid yn ôl**

Dylai'r swyddog awdurdodedig weithredu cyn gynted ag y bo modd pan fydd tystiolaeth neu wybodaeth yn dangos y gellir rhyddhau bwyd anifeiliaid a gadwyd, ac ym mhob achos cyn pen 21 diwrnod. Dylid cyflwyno Hysbysiad Tynnu Achos o Gadw Bwyd Anifeiliaid yn ôl.

Dylid cymryd y penderfyniad i gyflwyno Hysbysiad Tynnu Achos o Gadw Bwyd Anifeiliaid yn ôl naill ai gan y swyddog a gyflwynodd yr hysbysiad yn wreiddiol neu a gychwynodd y camau, neu gan swyddog arall â'r profiad perthnasol.

Dylid cyflwyno Hysbysiad Tynnu Achos o Gadw Bwyd Anifeiliaid yn ôl cyn gynted ag y bo modd i atal dirywiad posibl y bwyd anifeiliaid ac i leihau'r posibilrwydd o'r awdurdod bwyd anifeiliaid yn gorfod talu iawndal o dan reoliad 25(6). Nid oes yn rhaid i'r swyddog a wnaeth y penderfyniad gyflwyno'r hysbysiad, ond gellir ei gyflwyno gan unrhyw swyddog awdurdodedig.

### **3.4.5 Ymdrin â sypiau, lotiau a llwythi o fwyd anifeiliaid**

Mae Erthygl 15(3) 178/2002<sup>26</sup> yn nodi lle bydd unrhyw fwyd anifeiliaid sy'n anniogel yn rhan o swp, lot neu lwyth o fwyd anifeiliaid o'r un dosbarth neu ddisgrifiad, y rhagdybir bod yr holl fwyd yn y llwyth, lot neu lwyth hwnnw'n anniogel hefyd, oni bai yn dilyn asesiad manwl nad oes unrhyw dystiolaeth fod gweddill y llwyth, lot neu lwyth yn anniogel".

Os bydd swm o fwyd anifeiliaid o fathau neu lwythi gwahanol yn cael ei gadw, dylai'r swyddog awdurdodedig gyflwyno Hysbysiad Cadw Bwyd Anifeiliaid ar wahân o ran pob math neu lwyth o fwyd anifeiliaid.

Wrth ystyried a ddylid atafaelu neu gadw swp, lot neu lwyth, dylai'r

---

<sup>26</sup> Rheoliad Rhif 178/2002 Senedd a Chyngor Ewrop 28 Ionawr 2002 yn nodi egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd anifeiliaid, gan sefydlu'r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd a nodi gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd.

swyddog awdurdodedig ystyried y canlynol:

- y dystiolaeth sydd ar gael;
- natur yr halogiad;
- natur a chyflwr unrhyw gynhwysydd sy'n dal y bwyd anifeiliaid;
- y perygl i iechyd;
- cyfanswm y bwyd anifeiliaid perthnasol o ran unrhyw samplu a wnaed.

### **3.4.6 Gweithdrefnau Gwirfoddol**

Gellir defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol i waredu bwyd anifeiliaid nad yw'n addas i'w fwyta gan anifeiliaid y bwriadwyd iddynt gyrraedd y gadwyn fwyd, naill ai ar gais perchennog y bwyd anifeiliaid neu yn dilyn awgrym y swyddog awdurdodedig pan fydd perchennog y bwyd anifeiliaid yn cytuno nad yw'n addas i'w fwyta gan anifeiliaid.

Dylid cyflwyno derbynneb ar gyfer bwyd anifeiliaid a gaiff ei ildio'n wirfoddol i'r awdurdod bwyd anifeiliaid i'w ddifa. Dylai'r dderbynneb nodi i'r bwyd anifeiliaid gael ei ildio'n wirfoddol i'r awdurdod bwyd i'w ddifa, a dylid ei llofnodi a'i gwrthlofnodi gan y swyddog awdurdodedig a'r unigolyn sy'n ildio'r bwyd anifeiliaid, yn y drefn honno.

Dylai'r dderbynneb gynnwys lle ar gyfer cofnodi amser, lleoliad a dull difa'r bwyd anifeiliaid, a dylid cofnodi'r manylion hyn ar gopi'r swyddfa gan y swyddog awdurdodedig maes o law a'i chadw gan yr awdurdod bwyd anifeiliaid.

Os nad yw'r awdurdod bwyd anifeiliaid yn sicrhau, fel rhan o ildio bwyd anifeiliaid yn wirfoddol, gydsyniad y perchennog i dalu costau rhesymol i ddifa neu waredu'r bwyd anifeiliaid, efallai y bydd yn rhaid iddo dalu'r costau ei hun.

### **3.4.7 Difa neu Waredu Bwyd Anifeiliaid**

Mae'r awdurdod bwyd anifeiliaid yn gyfrifol am sicrhau bod bwyd anifeiliaid a atafaelwyd neu a ildiwyd yn wirfoddol yn cael ei ddifa, a dylid trefnu goruchwyllo'r bwyd anifeiliaid tan y gellir ymdrin ag ef yn y dull priodol. Os yw'n bosibl, ac mae'n debygol y ceir peth oedi cyn ei ddifa, dylid anffurfio'r bwyd anifeiliaid er mwyn atal unrhyw bosibilrwydd y gallai ddychwelyd drachefn i'r gadwyn fwyd neu fod pobl yn ei fwyta.

Dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid sicrhau bod bwyd anifeiliaid yn cael ei ddifa'n llwyr trwy ei losgi neu drwy ddull priodol arall, gan fod yn ymwybodol o ofynion deddfwriaeth berthnasol ar waredu gwastraff. Wrth waredu bwyd anifeiliaid, bydd angen i awdurdodau gofio bod angen gwaredu bwydydd anifeiliaid anwes, neu fwydydd anifeiliaid tebyg, sy'n cynnwys sgil-gynhyrchion anifeiliaid, trwy losgwyr trwyddedig.

Rhaid cadw copi o'r hysbysiad trosglwyddo gwastraff a'i gadw ar ffeil ar gyfer

unrhyw fwyd anifeiliaid a waredwyd gan gontractwr gwaredu gwastraff  
trwyddedig o dan y trefniadau hyn.

## **PENNOD 3.5 DEWISIADAU GORFODI MEWN SEFYDLIADAU SYDD ANGEN EU COFRESTRU/CYMERADWYO O DAN REOLIAD 183/2005**

### **3.5.1 Cyflwyniad**

Yn ogystal â'r pwerau gorfodi y manylir arnynt uchod, mae gan swyddogion awdurdodedig bwerau eraill o dan y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) mewn perthynas â sefydliadau sydd angen eu cofrestru/cymeradwyo o dan Reoliad 183/2005.

Darperir pwerau i ddirymu, neu atal, cymeradwyaeth sefydliad sydd angen ei gofrestru/gymeradwyo o dan Reoliad 183/2005 gan reoliad 9 ac 11 y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi).

### **3.5.2 Atal / Dirymu Cofrestriad neu Gymeradwyaeth - Cyffredinol**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gofio y gall effaith uniongyrchol atal neu dynnu cymeradwyaeth sefydliad yn ôl olygu na ellir defnyddio'r sefydliad ar gyfer unrhyw weithgareddau a fyddai'n peri ei fod yn ddarostyngedig i'w gofrestru/gymeradwyo o dan Reoliad 183/2005.

Os canfyddir diffyg cydymffurfio mewn sefydliadau sydd angen eu cofrestru neu eu cymeradwyo/cymeradwyo'n amodol o dan Reoliad 183/2005, dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid, cyn ystyried atal neu ddirymu, ystyried dewisiadau gorfodi eraill i reoli'r peryglon bwyd a gyflwynir gan y sefydliad.

Ni ddylid ystyried bod diffyg cydymffurfio o reidwydd yn ddigon i gyfiawnhau atal neu dynnu'n ôl cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad *ar unwaith*, a dylid caniatáu cyfle rhesymol i gydymffurfio lle bo hyn yn briodol.

#### **3.5.2.1 Atal Cofrestriad neu Gymeradwyaeth**

Ni ddylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gychwyn achos i atal cofrestriad neu gymeradwyaeth sefydliad oni bai i ddewisiadau gorfodi eraill gael eu hystyried a bod amgylchiadau'n bodoli'n unol ag Erthygl 14 Rheoliad 183/2005. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ofyn bod unrhyw warant ynglŷn â chynhyrchu yn y dyfodol a wneir gan weithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn unol â'r Erthygl hon yn cael ei wneud yn ysgrifenedig, er y dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid fod yn ymwybodol na allant fynnu cael hwn gan nad oes gofyniad yn bodoli o dan y gyfraith i roi gwarantau ysgrifenedig o'r fath.

#### **3.5.2.2 Dirymu Cofrestriad neu Gymeradwyaeth**

Ni ddylai awdurdodau bwyd anifeiliaid gychwyn achos i dynnu cofrestriad neu gymeradwyaeth yn ôl oni bai i ddewisiadau gorfodi eraill gael eu hystyried, gan gynnwys atal y gymeradwyaeth (gweler paragraff 3.5.2.3), a bod amgylchiadau'n bodoli'n unol ag Erthygl 15 o Reoliad 183/2005.

Dylid ond tynnu cofrestriad/cymeradwyaeth sefydliad yn ôl mewn amgylchiadau lle nad yw'r gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn gallu

bodloni'r awdurdod bwyd anifeiliaid i'r graddau bod ganddo ddisgwyliad rhesymol y bydd y diffygion a nodwyd yn cael eu cywiro ac y caiff safon dderbyniol ei chynnal yn y dyfodol.

### **3.5.2.3 Hysbysiadau Atal/Dirymu Cofrestriad neu Gymeradwyaeth**

Rhaid hysbysu am atal neu ddirymu cofrestriad/cymeradwyaeth o dan reoliadau 9 ac 11 y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi). Ceir dogfennau hysbysu enghreifftiol yn Atodiad 7. Dylai hysbysiad o'r fath hefyd sicrhau bod y gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid yn ymwybodol o'i hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad ac yng Nghymru a Lloegr, ddarparu cyfeiriad y Llys Ynadon lle gellir gwneud apêl o'r fath. Mae'r hawliau i apelio yn cael eu darparu gan Reoliad 13 o Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi).

Dylai copïau o hysbysiadau gael eu cadw ar ffeiliau'r awdurdod bwyd anifeiliaid. Dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid hefyd hysbysu'r Asiantaeth pan fydd cofrestriad neu gymeradwyaeth sefydliad wedi cael ei atal neu ei dynnu'n ôl (gweler paragraff 2.4.3).

### **3.5.2.4 Apeliadau'n erbyn Atal neu Dynnu Cofrestriad/Cymeradwyaeth yn ôl**

Dylai'r awdurdodau bwyd anifeiliaid gofio bod Rheoliad 13(5) o'r Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) yn nodi, wedi apêl yn erbyn penderfyniad gan awdurdod bwyd anifeiliaid i atal neu i ddirymu cofrestriad/cymeradwyaeth, y gall gweithredwr y busnes bwyd a fu'n defnyddio'r sefydliad dan sylw, yn union cyn yr atal neu'r dirymu, barhau i'w ddefnyddio, nes daw canlyniadau'r apêl, yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodwyd gan yr awdurdod cymwys i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Os yw'r awdurdod bwyd anifeiliaid o'r farn y gallai unrhyw weithgareddau y mae sefydliad yn ymgymryd â nhw tra'n aros am ganlyniad apêl beryglu iechyd y cyhoedd, dylai ystyried defnyddio pwerau gorfodi perthnasol eraill, sy'n briodol i'r amgylchiadau dan sylw.

## **PENNOD 3.6 DEWISIADAU GORFODI MEWN PERTHYNAS Â DEUNYDDIAU BWYD ANIFEILIAID WEDI’U MEWNFORIO O DRYDYDD GWLEDYDD**

### **3.6.1 Cyflwyniad**

Mae gan swyddogion awdurdodedig bwerau pellach o dan y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd i sicrhau nad yw bwyd anifeiliaid o drydydd gwledydd nad yw’n cydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid yn cael ei ddsbarthu yn yr UE.

### **3.6.2 Llwythi bwyd anifeiliaid sy’n niweidiol i iechyd pobl neu anifeiliaid neu sy’n anniogel**

Mae Erthygl 19(2)(a) o Reoliad 882/2004 yn nodi bod rhaid cadw bwyd anifeiliaid sy’n niweidiol i iechyd pobl neu anifeiliaid neu sy’n anniogel cyn ei ddifa neu y dylid cymryd unrhyw fesur priodol arall i ddiogelu iechyd pobl neu anifeiliaid.

Pan benderfynir gwrthod unrhyw lwyth o fwyd anifeiliaid ar y sail y bydd yn achosi perygl i iechyd pobl neu anifeiliaid, dylai’r corff gorfodi hysbysu Cangen Digwyddiadau’r Asiantaeth. Dylai ddefnyddio’r ffurflen system rhybudd cyflym ar gyfer hyn (gweler paragraff 1.6.2.9).

### **3.6.3 Llwythi bwyd anifeiliaid nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith bwyd anifeiliaid ond nad ydynt yn niweidiol i iechyd pobl neu anifeiliaid nac yn anniogel**

Mae’n rhaid cadw llwythi o’r fath ac yna naill ai:

- rhoi gorchymyn i’w difa; neu
- eu trin yn fanwl fel yr amlinellwyd yn Erthygl 20 o Reoliad 882/2004; neu
- eu hail-ddosbarthu y tu allan i’r Gymuned.

#### **3.6.3.1 Triniaethau arbennig a amlinellwyd yn Erthygl 20**

Gall triniaethau arbennig gynnwys:

- trin neu brosesu i sicrhau bod y bwyd anifeiliaid yn gydnaws â gofynion cyfraith y Gymuned neu’r drydedd wlad, yn cynnwys dadhalogi, lle bo’n briodol, ond nid gwanedu; neu
- brosesu mewn unrhyw ddull addas arall at unrhyw ddiben heblaw bwyd i anifeiliaid neu bobl.

#### **3.6.3.2 Ail-ddosbarthu llwythi**

Ni all awdurdodau bwyd anifeiliaid gytuno i ail-ddosbarthu oni bai:

- (a) y cytunwyd ar y gyrchwlad gyda gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid sy'n gyfrifol am y llwyth;
- (b) bod gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid wedi hysbysu'r awdurdod cymwys yn y drydedd wlad darddiad neu'r drydedd gyrchwlad, os yn wahanol, am y rhesymau a'r amgylchiadau sy'n atal gosod bwyd anifeiliaid ar y farchnad ar gyfer bwyd anifeiliaid yn y Gymuned; a
- (c) phan fo awdurdod bwyd anifeiliaid y drydedd gyrchwlad, os nad y drydedd wlad darddiad, wedi hysbysu awdurdod cymwys perthnasol y DU o'i barodwydd i dderbyn y llwyth.

Mae Erthygl 21(2) yn nodi bod rhaid i'r ail-ddosbarthu ddigwydd o fewn 60 diwrnod i'r adeg y penderfynodd yr awdurdod bwyd anifeiliaid ar gyrchwlad y llwyth oni bai bod camau cyfreithiol wedi'u cymryd neu fod modd cyfiawnhau oedi. Fel arall, bydd y llwyth yn cael ei ddifa.

Pan fydd cynnyrch yn cael ei ail-ddosbarthu mae'n rhaid rhoi hysbysiadau yn nodi'r cynnyrch a'i gyrchwlad derfynol i'r Asiantaeth fel y gall hysbysu HMRC, y Comisiwn ac Aelod-Wladwriaethau eraill.

#### **3.6.4 Apeliadau yn erbyn camau gweithredu a gymerwyd o dan Erthygl 19 i 21 o Reoliad 882/2004**

Mae'n rhaid i'r mewnoforiwr gael hysbysiad ysgrifenedig o benderfyniad yr awdurdod bwyd anifeiliaid. Mae'n rhaid i'r penderfyniad ymwneud â'r ffordd fwyaf effeithiol o ymdrin â'r cynnyrch ac ni ddylai gael ei roi fel cosb. Mae'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd yn darparu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod bwyd anifeiliaid. Mae'n rhaid cyflwyno apêl yn erbyn yr hysbysiad o fewn mis i gyhoeddi'r hysbysiad.

## **ADRAN 4      ARCHWILIADAU**

### **PENNOD 4.1      ARCHWILIADAU**

#### **4.1.1      Cyflwyniad**

Mae'r Bennod hon yn diffinio'r mathau o archwiliadau y gallai awdurdodau bwyd anifeiliaid eu cynnal, yr amgylchiadau lle mae'r mathau hyn o archwilio'n briodol, natur yr archwiliadau hyn a'r system seiliedig ar risg ar gyfer cynnal archwiliadau rheolaidd.

#### **4.1.2      Archwiliadau Sylfaenol - Cyffredinol**

Bydd awdurdodau bwyd anifeiliaid yn sefydlu rhaglen o archwiliadau blynyddol. Bydd y rhaglen yn seiliedig ar risg gweithgareddau a gyflawnir gan fusnesau bwyd anifeiliaid unigol. Gweler paragraffau 4.1.5 ac Atodiad 5 am wybodaeth bellach am gyfraddau risg busnesau bwyd anifeiliaid a pha mor aml mae angen archwilio.

Dylid cynnal archwiliadau ym mhob cam o'r cynhyrchu, prosesu a dosbarthu i weld a yw gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid perthnasol yn cael eu bodloni, yn unol â'r rhwymedigaethau cyffredinol a nodwyd yn Erthygl 3 o Reoliad 882/2004.

Gall archwiliad o fusnes bwyd anifeiliaid fod yn archwiliad sylfaenol neu'n archwiliad eilaidd.

Mae "gorfodi" yn cynnwys rhoi cyngor a chanllawiau ymarferol ar ddehongli neu weithredu cyfraith bwyd anifeiliaid.

Archwiliad o fusnes bwyd anifeiliaid lle ystyrir yr elfennau priodol a nodir yn y ffurflen archwilio berthnasol ar gyfer y busnes perthnasol – dyna yw archwiliad sylfaenol. Fodd bynnag, gall swyddogion awdurdodedig ddefnyddio eu barn broffesiynol a phenderfynu cynnwys elfennau o'r ffurflen archwilio yn unig mewn amgylchiadau lle y tybiant y mae'n briodol gwneud hynny (gweler Paragraff 4.2.2). Gellir cynnal archwiliad sylfaenol hefyd pan fo gwybodaeth a ddaeth i law yn dangos fod yna achos difrifol o dorri cyfraith bwyd anifeiliaid.

Gall awdurdodau bwyd anifeiliaid neu eu Grwpiau Rhanbarthol ddatblygu a defnyddio ffurflenni archwilio lleol, ar yr amod bod yr holl elfennau archwilio sy'n briodol i'r math o fusnes a archwilir yn cael eu cynnwys.

Dylai swyddog sy'n cynnal archwiliad sylfaenol:

- sefydlu cwmpas y busnes a'r gyfraith bwyd berthnasol sy'n gymwys i'r gweithrediadau a gyflawnir;
- casglu a chofnodi gwybodaeth yn sgil arsylwi ar arferion, gweithdrefnau a phrosesau, gan gynnwys gweithdrefnau ar sail egwyddorion HACCP, a thrafodaethau â gweithredwyr a rheolwyr busnesau bwyd anifeiliaid, a hynny mewn modd trwyadl a systematig;

- pennu a yw'n ofynnol casglu samplau o ddeunyddiau crai, cynhwysion, ychwanegion, cyfansoddion rhyngol, cynhyrchion gorffenedig er mwyn eu dadansoddi;
- nodi unrhyw droseddau gwirioneddol neu droseddau posibl yn erbyn cyfraith bwyd anifeiliaid ac, os bydd yn briodol, casglu a chadw tystiolaeth; a
- nodi ffynonellau halogiad sylweddau annymunol posibl a chynnal ymchwiliadau priodol pan fo'r rhain yn uwch na'r lefelau uchaf a ganiateir neu'n uwch na throthwyon gweithredu<sup>27</sup>;

Caiff yr ymweliad cyntaf â sefydliad busnes bwyd anifeiliaid er mwyn cynorthwyo'r gweithredwr i sefydlu a gweithredu gweithdrefnau ar sail egwyddorion HACCP, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 6 o Reoliad 183/2005, ei ystyried yn archwiliad sylfaenol hefyd, ar yr amod ei fod yn cynnwys y gweithgareddau a nodir ym Mharagraff 4.2.2.

Bydd ymweliadau dilynol i drafod agweddau ar weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP yn parhau i gael eu hystyried yn archwiliadau eilaidd (cyfeirir at hyn ym mhedwerydd pwynt bwled Paragraff 4.1.3 isod).

Dylai awdurdodau lleol ystyried y memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng yr AMI a LACORS ar yr ymweliadau deuol/ar y cyd cyn penderfynu a oes angen i'r awdurdod lleol ymweld. Dylid trefnu ymweliadau awdurdod lleol yn unol â chynllun asesu risg LACORS neu gynllun sy'n seiliedig ar yr hyn a amlinellwyd yn y Cod hwn (gweler paragraff 4.1.4 ac Atodiad 5).

#### **4.1.3 Archwiliadau Eilaidd - Cyffredinol**

Unrhyw ymweliad arall nad yw'n ymweliad sylfaenol â busnes bwyd anifeiliaid – dyna yw ymweliad eilaidd. Fe'i cynhelir at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â gorfodi cyfraith bwyd anifeiliaid, gan gynnwys:

- ymweliadau samplu;
- ymweliadau i wirio cynnydd mesurau sy'n ofynnol ar ôl archwiliad blaenorol;
- ymweliadau i ymchwilio i gwynion; ac
- ymweliadau i drafod agweddau ar weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid yn seiliedig ar egwyddorion HACCP;

---

<sup>27</sup> Cyflwynodd Erthygl 4.2 o Gyfarwyddeb 2002/32 ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid ddarpariaeth i Aelod-Wladwriaethau, mewn cydweithrediad â busnesau bwyd anifeiliaid, fel y gallent gynnal ymchwiliadau o ffynonellau halogiad posibl lle canfyddir lefelau uchel o sylwedd annymunol, sy'n is na'r lefel uchaf statudol a ganiateir. Erbyn diwedd 2006, disgwyliar y bydd darpariaethau newydd yn cael eu cyflwyno i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Lloegr) 2005 i roi pŵer i swyddogion gorfodi archwilio cofnodion a chymryd samplau mewn ymchwiliadau o dan Erthygl 4.2 Cyfarwyddeb 2002/32. Bydd pwerau cyfatebol ar wahân yn cael eu gweithredu yng Nghymru a'r Alban.

#### **4.1.3.1 Busnesau**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ddefnyddio gwybodaeth a roddir iddynt gan weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid mewn cysylltiad â chofrestru neu gymeradwyo eu sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid yn unol ag Erthygl 31 o Reoliad 882/2004 (gweler Pennod 1.5) er mwyn penderfynu pryd i gynnal archwiliad sylfaenol neu eilaidd.

Dylid cofnodi dull yr awdurdod bwyd anifeiliaid o gofnodi ac archwilio busnesau bwyd anifeiliaid y dylid eu cofrestru neu eu cymeradwyo ond sydd heb eu gwneud yn ei Gynllun Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid<sup>28</sup> neu Bolisi Gorfodi.

#### **4.1.4 Amllder Archwilio: Graddau Archwilio**

Dylai graddau archwilio bennu'r cyfnod a ddylai fynd heibio rhwng un archwiliad sylfaenol o fusnes bwyd anifeiliaid a'r nesaf, a blaenoriaeth yr archwiliad sylfaenol nesaf o'r busnes hwnnw mewn perthynas â busnesau eraill yn rhaglen archwilio arfaethedig yr awdurdod bwyd anifeiliaid (gweler Atodiad 5).

Dylid asesu neu ailasesu gradd(au) archwilio busnes bwyd anifeiliaid ar ddiwedd pob archwiliad sylfaenol yn unol ag Atodiad 5 (neu unrhyw ddiwygiad iddo y gellir rhoi gwybod amdano i awdurdodau bwyd anifeiliaid gan yr Asiantaeth).

Ni ddylid ailasesu graddau archwilio yn ystod archwiliadau eilaidd.

Dylid cynllunio rhaglenni archwilio fel y caiff busnesau eu harchwilio o fewn 28 diwrnod o leiaf i'r dyddiad perthnasol a bennwyd gan y radd archwilio, ac eithrio pan fo amgylchiadau y tu allan i reolaeth yr awdurdod bwyd anifeiliaid.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod archwiliadau sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid yn bodloni'r amllder archwilio a nodir yn Atodiad 5.

#### **4.1.5 Archwilio Cynnar**

Efallai y bydd amgylchiadau'n codi sy'n golygu ei bod yn briodol dod ag unrhyw archwiliad sylfaenol yn ei flaen. Gall y fath amgylchiadau gynnwys pan fydd yr awdurdod bwyd anifeiliaid yn:

- derbyn cais newydd i gofrestru;
- derbyn cwyn o natur ddifrifol;
- derbyn cais i newid manylion cofrestru;
- dod yn ymwybodol o unrhyw newid materol ym mherchnogaeth,

---

<sup>28</sup> Gweler Pennod 1 y Cytundeb Fframwaith

rheolaeth, cynllun neu natur gweithredu busnes bwyd anifeiliaid;

- derbyn cyfeiriad o dan Egwyddor yr Awdurdod Cartref;
- derbyn cais neu wybodaeth arall gan yr Asiantaeth neu'r AMI.

#### **4.1.5.1 Yr angen i aildrefnu archwiliadau sylfaenol**

Efallai y bydd amgylchiadau'n codi sy'n golygu ei bod yn ofynnol i awdurdodau bwyd anifeiliaid aildrefnu eu harchwiliadau sylfaenol er mwyn cymryd camau brys dros gyfnod o amser.

Efallai y bydd y fath sefyllfaoedd yn cynnwys y rheiny lle ceir tystiolaeth:

- bod arfer anniogel yn digwydd neu wedi digwydd sy'n berygl sylweddol i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid;
- y canfyddir bod arferion trafod bwyd neu baratoi bwyd penodol yn cynnwys perygl i iechyd y cyhoedd neu anifeiliaid nas amheuyd o'r blaen;
- y canfyddir bod bwyd anifeiliaid a ystyriwyd yn ddiogel o'r blaen yn beryglus i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid;
- y canfyddir bod bwyd anifeiliaid a ddsberthir yn eang wedi'i halogi a'i fod, gan hynny'n achosi perygl sylweddol i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid;
- bod bwyd a ddsberthir yn eang yn destun camddehongli o ran labelu neu gyflwyniad.

Lle bydd y fath sefyllfa'n codi gall yr Asiantaeth, trwy gyfrwng a gyhoeddir yn unol â pharagraff 2.2.2, fynnu bod awdurdodau bwyd anifeiliaid yn cymryd camau penodol. Felly, mae'n ofynnol i awdurdodau bwyd anifeiliaid ystyried y fath gyfathrebu a gweithredu yn unol ag ef.

Fel arfer, cynhelir trafodaethau gyda LACORS cyn y gofynnir i awdurdodau bwyd anifeiliaid aildrefnu eu harchwiliadau sylfaenol. Ym mhob achos, bydd yr Asiantaeth, cyn gweithredu o dan y paragraff hwn, yn ystyried a yw camau brys gan awdurdodau bwyd anifeiliaid yn angenrheidiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid.

Efallai y gofynnir i awdurdodau bwyd anifeiliaid ddarparu gwybodaeth i'r Asiantaeth ar y camau y maent wedi'u cymryd. Dylent gofnodi'r camau a gymerwyd i ymateb i geisiadau o dan y paragraff hwn.

#### **4.1.6 Archwiliadau o Gyfansoddiad Bwyd Anifeiliaid**

Dylai archwiliadau o gyfansoddiad bwyd anifeiliaid gynnwys gwiriadau fod y busnes bwyd anifeiliaid yn bodloni'r gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â chyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu'r bwyd anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau ar gyfer presenoldeb ychwanegion na chaniateir neu

lefelau gormodol o ychwanegion, a gwiriadau ar gyfer sylweddau annymunol (yn enwedig y rhai sy'n destun lefel uchaf a ganiateir), deunyddiau gwaharddedig neu halogyddion eraill. Dylid talu sylw arbennig i bwyntiau rheoli allweddol perthnasol, camau lle mae cynhwysion ac ychwanegion yn cael eu cymysgu, gweithdrefnau monitro a gwirio, camau unioni a dogfennaeth.

Dylai swyddog sy'n cynnal archwiliad sylfaenol:

- asesu'r perygl o'r busnes yn methu â bodloni'r gofynion;
- ystyried presenoldeb ac effeithiolrwydd systemau rheoli a gynlluniwyd i sicrhau bod gofynion cyfansoddiadol yn cael eu bodloni;
- asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfansoddiad a labelu trwy archwilio fformiwla, canlyniadau monitro mewnol, labeli a samplu lle bo'n briodol; ac
- argymhell arferion da/gorau yn unol â chodau ymarfer a safonau technegol perthnasol.

#### **4.1.7 Archwiliadau Hylendid Bwyd Anifeiliaid**

Mae Rheoliad Hylendid Bwyd Anifeiliaid 183/2005 y CE yn diffinio 'Hylendid Bwyd' fel 'mesurau ac amodau sy'n ofynnol i reoli peryglon a sicrhau addasrwydd bwyd anifeiliaid i'w fwyta gan anifeiliaid, gan ystyried ei ddefnydd bwriedig'.

Dylai archwiliadau gynnwys gwiriadau bod y busnes bwyd anifeiliaid yn bodloni darpariaethau gofynion Rheoliad 183/2005 y CE ar ba mor ddiogel yw'r bwyd anifeiliaid i'w fwyta, yn enwedig bod gofynion diogelwch yn cael eu bodloni mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid, iechyd pobl trwy fwyta cynhyrchion anifeiliaid, a'r amgylchedd.

Dylai swyddog awdurdodedig sy'n cynnal archwiliad sylfaenol:

- asesu'r perygl i'r busnes o fethu â bodloni safonau hylendid a nodwyd (e.e. Atodiad I, II a III neu HACCP fel sy'n berthnasol);
- asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r busnes, dealltwriaeth o'r peryglon hynny a'r defnydd o reolaethau priodol, gan ystyried natur a maint y busnes;
- archwilio i weld a nodwyd rheolaethau critigol ac a yw'r rheolaethau ar waith ac yn weithredol;
- asesu a gwirio bod y gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd anifeiliaid sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP yn briodol a chymesur i natur a

maint y busnes. Dylai'r asesiad gadarnhau bod rheolaethau ar waith ac yn gweithio'n effeithiol a bod camau unioni priodol yn cael eu cymryd lle bo angen;

- argymhell arferion hylendid da yn unol â chodau ymarfer priodol, yn enwedig Canllawiau'r Gymuned a ddatblygwyd o dan Erthygl 20 Rheoliad 183/2005 y CE, a hyrwyddo gwelliannau parhaus mewn safonau hylendid trwy fabwysiadu arferion da;
- trafod gyda gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid unrhyw beryglon a nodwyd gan y swyddog nad yw'r busnes wedi ymdrin â nhw, neu nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan reolaethau effeithiol os ydynt wedi'u nodi; ac
- archwilio cofnodion o bryniannau'r busnes i wirio bod yr holl fwyd anifeiliaid neu ychwanegion wedi dod o fusnesau bwyd anifeiliaid sydd wedi'u cymeradwyo neu'u cofrestru i gyflenwi deunydd o'r fath yn unol â Rheoliad 183/2005 y CE.

Mae Pennod 4.3 yn cynnwys gofynion ychwanegol mewn perthynas â'r rhaglen archwilio ar gyfer sefydliadau cymeradwy.

#### **4.1.8 Busnesau sy'n cael eu hystyried fel rhai risg isel**

Nid oes yn rhaid i fusnesau bwyd anifeiliaid nad ydynt yn peri fawr o risg neu unrhyw risg i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid at ddibenion hylendid neu gyfansoddiad bwyd anifeiliaid, nac o niweidio defnyddwyr neu fasnachu'n annheg at ddibenion cyfansoddiad bwyd anifeiliaid, fod yn destun archwiliadau sylfaenol unwaith mae eu gradd risg isel wedi'i gadarnhau gan archwiliad sylfaenol o'r safle a'i fod yn cydymffurfio â darpariaethau deddfwriaeth cyfraith bwyd berthnasol (gweler paragraff 1.2.13 ac Atodiad 5).

Fodd bynnag, dylai archwiliadau sylfaenol o'r cyfryw fusnesau gael eu sbarduno gan feini prawf ar wahân i'r rhaglen archwilio arfaethedig. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys:

- pan na dderbyniwyd gohebiaeth gan fusnes bwyd anifeiliaid sy'n destun strategaethau gorfodi eraill (AES) e.e. ni ddychwelwyd holiadur;
- cwynion;
- gwybodaeth a dderbyniwyd gan AES yn awgrymu nad yw'r busnes yn cydymffurfio â gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid neu newidiadau sylweddol mewn gweithgareddau; a
- gallai dulliau eraill o asesu cydymffurfiaeth busnesau bwyd anifeiliaid gynnwys derbyn holiadur wedi'i gwblhau gan fusnes a anfonwyd gan yr awdurdod bwyd anifeiliaid a allai olygu bod angen anfon dogfennau fel

labeli, cynlluniau system rheoli ansawdd a diogelwch bwyd anifeiliaid (fel HACCP) ymlaen i'r corff gorfodi.

## **PENNOD 4.2 YR ARCHWILIAD**

### **4.2.1 Archwiliadau - Cyffredinol**

Dylid seilio archwiliadau sylfaenol ar y ffurflen archwilio berthnasol ar gyfer y busnes dan sylw, neu ar ffurflen archwilio ddogfenedig a ddatblygwyd yn lleol gan yr awdurdod bwyd anifeiliaid neu ei grŵp rhanbarthol (gweler paragraff 4.1.2).

Bwriedir i'r ffurflen archwilio gynorthwyo swyddogion a busnesau trwy gyflwyno proses archwilio strwythuredig sy'n gydnaws ag arfer sicrhau ansawdd. Nid oes angen archwilio pob agwedd ar fusnes bwyd yn ystod pob archwiliad sylfaenol.

Dylai'r broses archwilio gychwyn gydag adolygiad o'r wybodaeth sydd wedi'i chofnodi gan yr awdurdod bwyd anifeiliaid am y busnes bwyd anifeiliaid sydd i'w archwilio.

Ar bwynt priodol ar ddechrau'r archwiliad, dylai'r swyddog drafod diben a chwmpas yr archwiliad gyda gweithredwr neu gynrychiolydd y busnes bwyd anifeiliaid, a fu unrhyw newidiadau mewn gweithgareddau ers yr ymweliad diwethaf, a'r hyn y mae'r swyddog yn bwriadu ei wneud.

Dylai archwiliad sylfaenol gynnwys nodi'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a wneir gan y busnes, y manau yn y sefydliad a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu a chadw bwydydd anifeiliaid, unrhyw brosesau a ddefnyddir a'r staff cysylltiedig.

Gellir holi staff busnesau bwyd anifeiliaid y rhoddwyd cyfrifoldebau penodol iddynt i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol perthnasol er mwyn gwirio eu bod yn deall eu dyletswyddau a'u bod yn eu cyflawni'n effeithiol.

Dylai asesu a ddylid cymryd samplau ac, os felly, beth y dylid ei samplu, fod yn rhan annatod o bob archwiliad sylfaenol, ond yn arbennig mewn busnesau gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid a chymysgwyr ar fferm.

Gall archwiliadau hefyd fod at ddibenion sy'n gysylltiedig ag Egwyddor yr Awdurdod Cartref, er enghraifft, cynghori gweithredwyr busnes bwyd anifeiliaid ar y gyfraith a ffyrdd y gallant gydymffurfio â hi.

Dylai swyddogion gynnig cyngor lle bo'n ofynnol neu lle gwneir cais amdano, a dylent annog gweithredwyr busnesau bwyd, trwy ddull addysgiadol, i fabwysiadu arferion gorau/da i sicrhau cydymffurfiaeth statudol.

Ar ddiwedd pob archwiliad, dylai'r swyddog drafod unrhyw drosedd yn erbyn cyfraith bwyd anifeiliaid y daethpwyd o hyd iddi, unrhyw gamau unioni sy'n ofynnol, yr amserlen ar gyfer y camau unioni, unrhyw gamau pellach y mae'r swyddog yn bwriadu eu cymryd ac unrhyw argymhellion o ran arferion gorau/da y mae'r swyddog yn eu hystyried yn briodol.

Yn ystod y drafodaeth derfynol hon, ac mewn unrhyw adroddiadau neu ohebiaeth ddilynol, dylai swyddogion wahaniaethu'n eglur rhwng camau sy'n

ofynnol i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da.

Dylai'r swyddog, ar gais, gynghori a thrafod pa mor aml yr archwilir y safle neu'r radd a roddwyd i'r busnes gyda gweithredwr y busnes bwyd anifeiliaid.

## **4.2.2 Archwiliadau Hylendid Bwyd Anifeiliaid Sylfaenol**

(Gweler paragraff 4.1.2 hefyd)

### **4.2.2.1 Cwmpas**

Bydd y dull archwilio'n dibynnu ar y gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i fusnes bwyd anifeiliaid penodol fel yr amlinellwyd yn Atodiadau I, II a III rheoliad 183/2005 y CE ac i ba raddau mae'n rhaid i fusnes weithredu egwyddorion rheoli diogelwch bwyd sy'n seiliedig ar HACCP.

Yn gyffredinol, dylai swyddog sy'n cynnal archwiliad hylendid bwyd sylfaenol:

- asesu'r perygl y bydd y fenter yn methu â bodloni gofynion hylendid bwyd;
- asesu'r peryglon a achosir gan weithgareddau'r busnes, dealltwriaeth gweithredwr y busnes bwyd o'r peryglon hynny, a chymhwyso rheolaethau priodol; gan ystyried natur a maint y busnes;
- asesu a gwirio gweithdrefnau priodol ar sail egwyddorion HACCP sy'n briodol i natur a maint y busnes, cadarnhau y gweithredir rheolaethau a'u bod yn gweithredu'n effeithiol, ac y cymerir camau unioni yn ôl y gofyn;
- archwilio cofnodion sydd angen eu cadw gan fusnesau bwyd anifeiliaid yn Atodiad I a II Rheoliad 183/2005 y CE a bod y gofyniad hwn yn cael ei ddilyn;
- archwilio i weld a yw bwyd anifeiliaid yn cael ei drafod a'i gynhyrchu'n hylan, yn ddiogel, a bod amodau storio perthnasol yn cael eu dilyn;
- argymhell arferion hylendid bwyd da yn unol â Chanllawiau Diwydiant yr UE a'r DU, codau penodol-i-sector perthnasol, a safonau technegol perthnasol eraill, a hyrwyddo gwelliannau parhaus mewn safonau hylendid trwy fabwysiadu arfer da.

Yn ogystal â'r gofynion cyffredinol a fanylir uchod, os yw'n briodol dylai archwiliad hylendid bwyd sylfaenol gynnwys:

- trafodaeth ag unrhyw staff sy'n gyfrifol am fonitro a chamau unioni ar bwyntiau rheoli critigol i gadarnhau bod rheolaeth yn effeithiol;
- archwiliad ffisegol i bennu a nodwyd rheolaethau critigol ac a weithredir y rheolaethau, ac i asesu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol;

- asesiad o gydymffurfiaeth â gofynion y gallu i olrhain Erthygl 18 o Reoliad 178/2002;
- trafodaeth ynghylch unrhyw beryglon a nodwyd gan y swyddog sydd heb eu cynnwys gan systemau'r busnes;
- trafodaeth ynghylch unrhyw fethiant i weithredu neu fonitro unrhyw reolaethau critigol a nodwyd gan y busnes.

Gall Canllawiau Arferion Da y DU fod yn arbennig o berthnasol i sefydliadau penodol sy'n ddarostyngedig i gyfraith bwyd, yn yr un modd ag y bydd codau ymarfer diwydiant eraill a argymhellir. Gall swyddogion dynnu sylw gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid at y rhain mewn amgylchiadau priodol.

Dylai manylion cwmpas llawn yr archwiliad hylendid bwyd fod yn y ffurflen archwilio berthnasol ar gyfer y busnes dan sylw.

### **4.2.3 Archwiliadau o Gyfansoddiad Bwyd Anifeiliaid Sylfaenol - Cwmpas**

(Gweler paragraff 4.1.2 hefyd)

Dylid rhoi sylw arbennig i bwyntiau rheoli allweddol perthnasol, cyfnodau cymysgu pan ychwanegir cynhwysion, gweithdrefnau monitro a gwirio, camau unioni a dogfennaeth.

Yn benodol, dylai swyddog sy'n cynnal archwiliad o gyfansoddiad bwyd anifeiliaid sylfaenol:

- asesu'r risg y bydd y fenter yn methu â bodloni gofynion cyfansoddiad bwyd anifeiliaid;
- ystyried bodolaeth ac effeithiolrwydd systemau rheoli i sicrhau y bodlonir gofynion cyfansoddiad bwyd anifeiliaid a, lle byddant yn bodoli, profi eu heffeithiolrwydd;
- asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfansoddiad, cyflwyniad a labelu trwy archwilio hysbysebion, labeli, disgrifiadau, fformiwlâu a chofnodion eraill;
- asesu cydymffurfiaeth â gofynion y gallu i olrhain Erthygl 18 o Reoliad 178/2002; ac
- argymhell arferion da yn unol â chodau diwydiant perthnasol a safonau technegol perthnasol eraill.

Manylir cwmpas llawn yr archwiliad o gyfansoddiad bwyd anifeiliaid yn y ffurflen archwilio berthnasol ar gyfer y busnes dan sylw.

#### **4.2.4 Archwiliadau Eilaidd – Hylendid a Chyfansoddiad Bwyd Anifeiliaid** (gweler paragraff 4.1.3 hefyd)

Rhaid i fusnesau bwyd anifeiliaid sy'n methu â chydymffurfio â gofynion statudol arwyddocaol fod yn destun camau gorfodi priodol ac archwiliad(au) eilaidd.

Mae diffyg cydymffurfio â gofynion statudol arwyddocaol yn cynnwys:

- diffyg cydymffurfiaeth ag un gofyniad sy'n cyfaddawdu diogelwch bwyd anifeiliaid, sy'n cyfaddawdu iechyd y cyhoedd neu anifeiliaid, neu sy'n peryglu defnyddwyr;
- diffyg cydymffurfiaeth â nifer o ofynion sydd, gyda'i gilydd, yn dangos rheolaeth aneffeithiol;
- diffyg cydymffurfiaeth â hysbysiad gwella busnes bwyd anifeiliaid; a
- diffyg cydymffurfiaeth â gofynion Gorchymyn Gwahardd Busnes Anifeiliaid neu Hysbysiad neu Orchymyn Gwahardd Brys Busnes Anifeiliaid;

Dylid seilio archwiliadau eilaidd o dan yr adran hon ar y ffurflen archwilio berthnasol ar gyfer y busnes dan sylw, er y gall yr archwiliad ganolbwyntio ar y gofynion statudol arwyddocaol a gafodd eu torri yn ystod yr archwiliad blaenorol.

Pennir amseriad yr archwiliad eilaidd gan y camau a gymerir o ganlyniad i'r archwiliad cynharach.

Lle bynnag y bo'n ymarferol, dylai'r swyddog a gynhaliodd yr archwiliad gwreiddiol gynnal yr archwiliad hwn.

Dylai dull yr awdurdod bwyd anifeiliaid o gynnal archwiliadau eilaidd fod yn rhan o'i gynllun Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid dogfenedig neu ei Bolisi Gorfodi dogfenedig (gweler paragraff 3.1.4).

##### **4.2.4.1 Dillad a Chyfarpar**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ddarparu dillad diogelu glân, gan gynnwys penwisg, sy'n gydnaws ag arferion diwydiant da, i swyddogion sy'n cynnal archwiliadau.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ei gwneud hi'n ofynnol i swyddogion wisgo dillad diogelu, rhoi unrhyw wybodaeth berthnasol am statws eu hiechyd ar gais, a glynu wrth unrhyw ragofalon rhesymol sy'n ofynnol gan y busnes sy'n cael ei archwilio. Dylai swyddogion wisgo dillad diogelu priodol ac ati os cânt eu darparu gan y busnes.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ddarparu'r cyfarpar a'r cyfleusterau i'w swyddogion sy'n ofynnol i'w galluogi i gyflawni eu harchwiliadau'n gymwys ac yn unol â chyfraith bwyd a'r safonau yn y Cod hwn.

## **PENNOD 4.3 GOFYNION YCHWANEGOL YNGHYLCH ARCHWILIO SAFLEOEDD CYMERADWY**

### **4.3.1 Cyflwyniad**

Mae'r Bennod hon yn gofyn i awdurdodau bwyd anifeiliaid nodi sefydliadau busnes bwyd anifeiliaid yn eu cylch gorfodi sydd angen eu cymeradwyo o dan Reoliad 183/2005 a sicrhau eu bod yn cael eu cymeradwyo a'u harchwilio fel y bo'n briodol.

### **4.3.2 Gofynion Cyffredinol**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid sicrhau bod sefydliadau yn eu hardal sydd angen eu cymeradwyo o dan Reoliad 183/2005 yn cael eu nodi a'u cymeradwyo'n briodol, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol (gweler Pennod 1.5).

Mae'n rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid ystyried amodau'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng yr AMI a LACORS wrth benderfynu pa gorff sy'n cynnal yr ymweliad cymeradwyo.

### **4.3.3 Archwiliadau Sylfaenol**

Dylid cynnal archwiliadau sylfaenol o sefydliadau sydd angen eu cymeradwyo o dan Reoliad 183/2005 yn unol â Phennod 4.1 a Phennod 4.2.

Dylid cofnodi cwmpas yr archwiliad a'r materion i'w hystyried ar y ffeil sy'n ymwneud â'r sefydliad, ac mewn unrhyw adroddiad i'r gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid.

Dylai archwilwyr sicrhau bod y gofynion a nodwyd yn Atodiad II o Reoliad 183/2005 yn cael eu bodloni cyn cymeradwyo ac mewn archwiliadau dilynol.

## **PENNOD 4.4 CAMAU GWEITHREDU AR ÔL ARCHWILIO**

### **4.4.1 Cyflwyniad**

Mae'r Bennod hon yn nodi'r safonau gofynnol ar gyfer ysgrifennu adroddiadau a chadw cofnodion.

### **4.4.2 Adroddiadau Ôl-archwilio**

Dylai canlyniad archwiliad sylfaenol bob amser gael ei adrodd yn ysgrifenedig i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid naill ar derfyn yr archwiliad neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny, hyd yn oed os bu canlyniad boddhaol.

Dylai'r adroddiad gynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn Atodiad 6, a all gael ei chynnwys mewn llythyr ôl-archwilio sy'n disgrifio'r mesurau i'w cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth.

Dylid dilyn archwiliad eilaidd gydag adroddiad ysgrifenedig os yw'r swyddog sy'n cynnal yr archwiliad:

- am i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid gymryd camau gweithredu;
- angen cadarnhad bod rhywbeth wedi cael ei wneud;
- angen i rywbeth gael ei nodi.

Gall adroddiadau ôl-archwilio gynnwys deddfwriaeth arall sy'n cael ei chwmpasu yn ystod archwiliadau o fusnesau bwyd anifeiliaid, e.e. iechyd anifeiliaid, pwysau a mesurau ac ati, er y dylid gwahaniaethu rhwng materion sy'n gysylltiedig â chyfraith bwyd a chyfreithiau eraill.

### **4.4.3 Ffeiliau Cofnodion Archwilio**

Dylid diweddarau ffeiliau cofnodion archwilio'r awdurdod bwyd anifeiliaid<sup>29</sup>, a allai fod yn ffeiliau cyfrifiadurol, ar ôl pob archwiliad a dylent gynnwys:

- gwybodaeth am faint a graddfa'r busnes a phwy yw ei gwsmeriaid;
- gwybodaeth am y math o weithgareddau bwyd y mae'r busnes yn ymgymryd â nhw, gan gynnwys unrhyw gyfarpar, prosesau neu nodweddion arbennig;
- copiâu o unrhyw ohebiaeth â'r busnes, gan gynnwys dogfennaeth sy'n gysylltiedig â chymeradwyaeth neu gofrestru;
- copiâu o ganlyniadau dadansoddi samplau bwyd;

ac o ran y sefydliadau a archwiliwyd at ddibenion hylendid bwyd:

---

<sup>29</sup> Gweler Pennod 2, Paragraffau 16.1 a 16.2 y Cytundeb Fframwaith

- asesiad o gynnydd y busnes wrth gydymffurfio â gweithdrefnau ar sail egwyddorion HACCP;
- gwybodaeth am hyfforddiant y mae gweithwyr cyflogedig yn ymgymryd ag ef a chymwysterau sydd gan weithwyr cyflogedig sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu bwydydd anifeiliaid;
- i sefydliadau sydd angen eu cymeradwyo, manylion am gynhyrchion cymeradwy sy'n cael eu trafod;
- bodolaeth ac asesiad o unrhyw system ansawdd sydd wedi'i dogfennu; a
- manylion am fusnesau eraill sy'n cynhyrchu neu'n mewnforio ar gyfer y busnes.

#### **4.4.4 Cadw Adroddiadau Archwilio**

Dylid cadw adroddiadau archwilio am o leiaf 6 blynedd, neu hyd nes yr archwiliad sylfaenol nesaf, pa bynnag gyfnod sydd hiraf, oni bai bod angen eu cadw'r hirach oherwydd achos cyfreithiol, adolygiad gan Ombwdsmon Llywodraeth Leol neu bolisi rheoli dogfennau'r awdurdod bwyd anifeiliaid, neu gyfarwyddyd gan yr Asiantaeth.

## **PENNOD 4.5 BWYD ANIFEILIAID A FEWNFORIWYD O DRYDYDD GWLEDYDD**

Mae llawer iawn o fwyd anifeiliaid yn cael ei fewnforio'n rheolaidd i'r DU ac mae'n bwysig fod gan awdurdodau bwyd anifeiliaid drefniadau effeithiol i wirio bwyd a fewnforiwyd yn y pwyntiau mynediad ac yn fewndirol. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid ystyried y canllawiau cyffredinol ar orfodi yn y Cod Ymarfer hwn mewn perthynas â'u trefniadau rheoli gorfodaeth bwyd anifeiliaid a fewnforiwyd.

## **ADRAN 5 SAMPLU A DADANSODDI**

### **PENNOD 5.1 SAMPLU A DADANSODDI**

#### **5.1.1 Cyflwyniad**

Mae samplu rheolaidd effeithiol yn rhan hanfodol o wasanaeth gorfodi cytbwys a dylai felly fod yn nodwedd o Bolisi Samplu pob awdurdod bwyd anifeiliaid.

Mae'n bwysig cydnabod y gellir cymryd samplau hefyd at ddibenion gwyliadwriaeth, monitro a darparu cyngor i weithredwyr busnes bwyd yn ogystal ag at ddibenion gorfodi. Dylai Polisi a Rhaglen Samplu Awdurdod Bwyd gwmpasu'r holl fathau o waith samplu yr ymgymeryr ag ef.

#### **5.1.2 Polisi Samplu a Rhaglen Samplu<sup>30</sup>**

Dylai cyrff gorfodi baratoi a chyhoeddi polisi samplu bwyd anifeiliaid. Dylai'r polisi nodi'r ffactorau y mae'r rhaglen samplu'n seiliedig arnynt yn cynnwys y math o fusnesau bwyd anifeiliaid yn yr ardal, cyfrifoldebau'r awdurdod cartref, monitro prosiectau samplu cenedlaethol a rhanbarthol, a'r blaenoriaethau a nodwyd gan y corff cymwys canolog yn y cynllun rheoli cenedlaethol.

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid baratoi rhaglen samplu bwyd anifeiliaid hefyd. Dylid paratoi'r rhaglen samplu mewn ymgynghoriad â dadansoddwr amaethyddol yr awdurdod, a all ddigwydd yn lleol neu'n rhanbarthol.

#### **5.1.3 Ceisiadau am wybodaeth gan weithgynhyrchwyr neu fewnforwyr**

Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid fodloni pob cais rhesymol i roi gwybodaeth am sut y dewiswyd y sampl, y dull samplu a'r dull dadansoddi fel y gall gweithgynhyrchwr neu fewnforwr y bwyd anifeiliaid asesu canlyniad neu fel y gellir ail-gynnal yr archwiliad neu'r dadansoddiad.

#### **5.1.4 Cyffredinol**

Nid yw darpariaethau samplu gweddill yr Adran hon yn berthnasol i'r canlynol:

- samplau o fwyd anifeiliaid sy'n destun cwyn ac sydd wedi eu dwyn gerbron yr Awdurdod Bwyd gan ddefnyddwyr neu asiantaethau eraill ;
- samplau o fwyd anifeiliaid a gyflwynir at ddibenion monitro neu wylidwriaeth yn unig, h.y. ar adeg y samplu nid oes bwriad i'r canlyniad arwain at unrhyw gamau gorfodi
- samplau sy'n cael eu cymryd ar gais y prynwr i wirio cydymffurfiaeth gan roi gwarant mewn perthynas â'r bwyd anifeiliaid dan sylw.

---

<sup>30</sup> Gweler Pennod 2, Paragraff 12.4 y Cytundeb Fframwaith

Samplau ffurfiol yw'r rhai a gymerir gan lynu'n gaeth at weithdrefnau Cyfarwyddeb 76/371/EEC<sup>31</sup> y mae Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1999 yn seiliedig arni. Mae sampl a gymerir trwy'r dull penodedig yn cynrychioli'r holl ddeunydd a samplir oni bai y profir fel arall.

Mae'n rhaid i swyddogion fod yn ymwybodol o'r gofynion samplu perthnasol i gael samplau ffurfiol a'r gwahaniaethau a allai fodoli ar gyfer samplu rhai cynhyrchion penodol, yn arbennig y rhai sy'n cynnwys sylweddau annymunol nas dosbarthwyd yn wastad e.e. myctocsinau.

Wrth gasglu samplau anffurfiol o fwyd anifeiliaid dylid gofalu sicrhau bod y sampl mor gynrychioliadol â phosibl os yw canlyniadau'r dadansoddiad i fod yn ddibynadwy.

Mae'n rhaid i gyrff gorfodi ddarparu'r cyfarpar sampl sy'n angenrheidiol er mwyn cymryd samplau'n iawn i bob safle busnes bwyd anifeiliaid yn ei ardal.

Dylai awdurdodau gorfodi ystyried y canllawiau ar samplu yn '*Practical Sampling Guidance for Food Standards and Feeding Stuffs*' Rhannau 1 a 3 a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth yn ([www.food.gov.uk/enforcement/foodsampling/guidance/](http://www.food.gov.uk/enforcement/foodsampling/guidance/))

#### **5.1.4.1 Samplau i'w Dadansoddi (Y Ddeddf neu'r Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi))**

Dylid cyflwyno pob sampl i'w ddadansoddi i ddadansoddwr amaethyddol, neu labordy sy'n cydymffurfio â phwynt 4 pan fo'r sampl yn cael ei ddadansoddi i weld a oes deucosin yn bresennol. Bydd y corff gorfodi'n penodi labordai o'r fath.

Mae'n rhaid i swyddogion weithio gyda mewnforwyr, HMRC, Awdurdodau Porthladdoedd (Iechyd) a swyddogion Safonau/Hylendid Bwyd Anifeiliaid i sefydlu pwyntiau samplu ym mhwyntiau mynediad (porthladdoedd) eu hardal. Mae'n rhaid i gyrff gorfodi wneud trefniadau gyda'u dadansoddwyr amaethyddol a labordai pwynt 4 penodedig<sup>32</sup> i sicrhau bod canlyniadau'r samplau ffurfiol ac anffurfiol a gymerwyd yn y pwyntiau mynediad yn cael eu cynhyrchu o fewn 6 diwrnod gwaith lle bo'n bosibl. Dylai swyddogion gymryd samplau ffurfiol lle bo'n bosibl.

---

<sup>31</sup> Cyfarwyddeb gyntaf y Comisiwn 76/371/EEC 1 Mawrth 1976 yn sefydlu dulliau samplu'r Gymuned ar gyfer rheoli bwydydd anifeiliaid yn swyddogol.

<sup>32</sup> Dylid anfon unrhyw samplau sydd angen eu profi am ddeuocsinau yma. Pan gymerir sampl sydd i'w brofi am halogiad deuocsinau, mae'n rhaid anfon rhan o'r sampl terfynol i labordy sy'n cydymffurfio â phwynt pedwar, nad yw'n ddadansoddwr amaethyddol o reidrwydd.

#### **5.1.4.2 Tystysgrifau Dadansoddi**

Yn unol â rheoliad 7 Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1999<sup>33</sup>, mae'n rhaid i fformat y tystysgrifau dadansoddi fod fel y nodir yn Atodlen 3 y Rheoliadau.

#### **5.1.4.3 Hysbysu am Ganlyniadau (Dadansoddi)**

Pan fo tystysgrif dadansoddi wedi cael ei derbyn sy'n nodi nad yw'r bwyd anifeiliaid yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, dylai'r awdurdod bwyd anifeiliaid gyfeirio at a gweithredu unrhyw ddarpariaethau perthnasol a geir ym Mhenodau 1.6 a 2.4 ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref (gweler Paragraff 1.1.5).

Os credir bod y drosedd honedig yn gysylltiedig â'r gweithgynhyrchwr, dylid ei hysbysu cyn gynted â phosibl drwy'r dull cyflymaf posibl (e.e. ffacs neu ffôn, gan gadarnhau hynny'n ysgrifenedig) ynghyd â'r awdurdod bwyd anifeiliaid perthnasol. Rhaid hefyd hysbysu'r Paciwr, neu yn achos bwyd sydd wedi'i fewnforio, y mewnofiwr, neu eu hasiant.

Fodd bynnag, os yw'r awdurdod bwyd anifeiliaid yn cynnal yr ymchwiliad, gellid gohirio rhyddhau'r dystysgrif os byddai ei rhyddhau'n gynnar yn peryglu'r ymchwiliad.

Dylai swyddogion gydymffurfio â dosbarthiad y samplau terfynol fel y nodwyd yn y Rheoliadau priodol.

Rhaid cael tri neu bedwar o samplau terfynol oherwydd bod gofyn i'r gweithgynhyrchwr dderbyn sampl o dan rai amgylchiadau penodol.

---

<sup>33</sup> OS Rhif 1663

## ADRAN 6: ATODIADAU

### ATODIAD 1: Termau a byrfoddau a ddefnyddiwyd yn y Cod Ymarfer hwn

(yr) Asiantaeth Awdurdod cymwys	Asiantaeth Safonau Bwyd Caiff hwn ei ddiffinio yn Rheoliad OFFC y CE fel “ <i>the central authority of a Member State competent for the organisation of official controls, or any other authority on which that competence has been conferred; it shall also include, where appropriate, the corresponding authority of a third country</i> ”.
ALI Bwyd/Bwydydd Anifeiliaid	Awdurdod(au) Lleol Caiff hwn ei ddiffinio yn erthygl 3.4 Rheoliad 178/2002 i olygu unrhyw sylwedd neu gynhyrchion, yn cynnwys ychwanegion y bwriadwyd eu defnyddio i fwydo anifeiliaid, boed wedi'u prosesu, wedi'u prosesu'n rhannol neu heb eu prosesu.
Bwyd anifeiliaid cyfansawdd	Cymysgedd o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid, weithiau'n cynnwys ychwanegion, y bwriadwyd i'w bwydo fel bwyd anifeiliaid cyflawn neu gyflenwol.
Bwyd anifeiliaid cyfansawdd cyflawn	Cymysgedd cyfansawdd o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid, sy'n cyflenwi holl anghenion dietegol anifail (h.y. y ddognddyddiol).
Bwyd anifeiliaid cyfansawdd cyflenwol	Cymysgedd cyfansawdd o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid gyda chrynodiad uchel o rai maetholion (e.e. protein) sy'n ddigon i ddarparu dogn ddyddiol dim ond os caiff ei roi gyda bwydydd anifeiliaid eraill.
Cynhyrchion penodedig	Yn cynnwys cocsidiostatau, hismonostatau a hyrwyddwyr tyfiant nad ydynt yn wrthfotigau
Cytundeb Fframwaith DEFRA Deunydd bwyd anifeiliaid	Cytundeb Fframwaith ar Orfodi Cyfraith Bwyd Awdurdod Lleol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Unrhyw gynhyrchion sy'n dod o lysiau neu anifeiliaid, yn eu cyflwr naturiol, boed yn ffres neu wedi'u cadw; unrhyw gynhyrchion sy'n deillio o brosesu'n ddiwydiannol y cyfryw gynhyrchion neu sylweddau organig neu anorganig y bwriadwyd i'w bwydo i anifeiliaid, naill ai'n uniongyrchol neu mewn bwyd anifeiliaid cyfansawdd.
DTS	Diploma mewn Safonau Masnach
EEA	Ardal Economaidd Ewropeaidd
EHO	Swyddfa Iechyd yr Amgylchedd
FVO	Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth (y Comisiwn Ewropeaidd)
HA	Awdurdod Cartref
HACCP	Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol
HPA	Asiantaeth Diogelu Iechyd
LACORS	Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol
MoU	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth
PHA	Awdurdod Iechyd Porthladdoedd
Rheolaeth swyddogol	At ddibenion y Cod hwn, unrhyw fath o reolaeth y mae'r awdurdod cymwys (y corff gorfodi) neu'r Gymuned yn ei chyflawni i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid.
Trydydd Gwlad	Gwlad ac eithrio Aelod-Wladwriaeth yr UE neu'r EEA
TSI	Sefydliad Safonau Masnach
TSO	Swyddog Safonau Masnach
UE	Undeb Ewropeaidd
UKAS	Gwasanaeth Achredu y Deyrnas Unedig
Ychwanegion bwyd anifeiliaid	Sylweddau a ychwanegir i fwyd anifeiliaid er mwyn cyflawni swyddogaethau technolegol yn bennaf (e.e. fitaminau ac elfennau hybrin) neu i wella cynhyrchiant anifeiliaid (e.e. micro-organebau).

## **ATODIAD 2: Cymwyseddau Gwerthuso HACCP**

Safonau Cymhwysedd i swyddogion awdurdodau bwyd anifeiliaid mewn perthynas â gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP (awdurdodiad lefel dau).

Rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid fod yn fodlon bod staff sy'n ymwneud ag archwilio hylendid bwyd anifeiliaid sefydliadau busnesau bwyd anifeiliaid, sy'n ddarostyngedig i ofynion Rheoliad 183/2005 y CE, sy'n cynnwys archwilio systemau rheoli diogelwch bwyd ar sail egwyddorion HACCP, yn ogystal â dal y cymhwyster perthnasol a nodir ym Mhennod 1.2 ar gyfer categori'r busnes bwyd anifeiliaid sydd i'w archwilio, yn gallu dangos y cymwyseddau canlynol.

Nodi, drwy gynnal archwiliad, fod y busnes bwyd anifeiliaid yn cydymffurfio ag Erthygl 6 Rheoliad 183/2005 y CE gan ystyried natur a maint y busnes.

Asesu'r gwaith o nodi peryglon i ddiogelwch bwyd anifeiliaid.

Asesu'r pwyntiau rheoli critigol (CCP) a'r terfynau critigol priodol.

Asesu addasrwydd y rheolaethau sydd ar waith a'u monitro ar y pwyntiau rheoli critigol.

Asesu dulliau gwirio ac adolygu gweithdrefnau ar sail egwyddorion HACCP gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid.

Hyrwyddo a chefnogi gweithredu gweithdrefnau ar sail egwyddorion HACCP sy'n briodol i natur a maint y busnes.

Esbonio egwyddorion dadansoddi peryglon i weithredwyr neu reolwyr busnesau bwyd anifeiliaid mewn termau sy'n briodol i natur a maint y busnes.

Nodi targedau ar gyfer rheoli peryglon diogelwch bwyd yn well.

Rhoi cyngor ar gyflawni dadansoddiad o beryglon a gweithredu rheolaethau mewn termau sy'n briodol i natur a maint y busnes.

Lle bo'n briodol, esbonio'r berthynas rhwng systemau HACCP (wedi'u seilio ar Codecs) a gweithdrefnau eraill sydd wedi'u seilio ar egwyddorion HACCP.

Sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau wedi'u seilio ar egwyddorion HACCP yn ôl gofynion y ddeddfwriaeth, sy'n briodol i natur a maint y busnes.


Esbonio'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â gweithdrefnau wedi'u seilio ar egwyddorion HACCP.

Sicrhau cynnydd o ran cydymffurfio drwy drafodaeth a pherswâd.

Sicrhau cydymffurfiaeth drwy gyflwyno hysbysiadau. Sicrhau cydymffurfiaeth drwy'r llysoedd (a chasglu a chadw tystiolaeth ar ffurf y gellir ei ddefnyddio mewn llys).

### ATODIAD 3: Diagram Llif Digwyddiadau Bwyd Anifeiliaid

(gweler Pennod 1.7 hefyd)



## **ATODIAD 4: Ffurflen Adrodd am Ddigwyddiadau Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodau Bwyd Anifeiliaid)**

### **FFURFLEN ADRODD AM DDIGWYDDIADAU BWYD ANIFEILIAID**

**I'W CHWBLHAU GAN Y SWYDDOG YMCHWILIO/CYNRYCHOLYDD A'I  
FFACSIO I'R ASIANTAETH AR: 020 7276 8446 (Ffôn: 020 7276 8448/8453)**

Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Bwyd Anifeiliaid sy'n adrodd:

Enw'r Swyddog Adrodd yn cynnwys rhif ffôn, ffacs a chyfeiriad ebost:

Dyddiad ac amser y derbyniodd yr Awdurdod Bwyd Anifeiliaid y wybodaeth gychwynnol:

Derbyniwyd y wybodaeth gychwynnol gan:

Derbyniwyd gan (yn cynnwys cyfeiriad, rhif ffôn ac enw cyswllt mewn Awdurdod Lleol, HPA ac ati lle bo'n bosibl):

Dull (ffôn/ffacs/llythyr/arall):

Disgrifiad byr o'r digwyddiad:

Math o halogiad:

Disgrifiad o'r cynnyrch:

Math o gynnyrch:

Enw'r cynnyrch:

Enw'r brand:

Cod/au'r Llwyth:

Disgrifiad o'r Deunydd Pacio:

Maint y Pecyn:

Dyddiad/au neu God/au Oes:

Gwlad y Tarddiad:

Mewnforiwr/Dosbarthwr yn y DU (yn cynnwys manylion cyswllt):

Gweithgynhyrchwr (yn cynnwys manylion cyswllt):

Oes yna achos o salwch clinigol?

Manylion (math o salwch, symptomau, faint o ddefnyddwyr yr effeithiwyd arnynt ac ati):

Manylion dosbarthu llawn (yn cynnwys o'r UE a Thrydydd Gwledydd) e.e. symiau/ardaloedd, a phryd y cafodd y cynnyrch/lwyth dan sylw ei osod ar y farchnad i ddechrau:

A yw'r gweithgynhyrchwr/manwerthwr/cyflenwr yn ymwybodol o'r digwyddiad, ac os ydynt, beth yw eu hargymhellion ynglŷn ag ymdrin ag ef?

Asesu perygl (rhowch gylch):

Lleol	Manwerthu
Rhanbarthol	Arlwyo
Gweithgynhyrchu	Cenedlaethol
Rhyngwladol	Mewnforio/Allforio

Manylion cyswllt perthnasol eraill (e.e. awdurdod cartref a/neu wreiddiol/Dadansoddwr Amaethyddol/arall)

Enw:

Cyfeiriad, rhif ffôn a ffacs, ebost:

Oes unrhyw gamau gorfodi wedi'u cymryd eisoes? Er enghraifft, a gymerwyd samplau i'w harchwilio neu ddadansoddi, neu a gyflwynwyd hysbysiadau cadw, neu a oes bwyd anifeiliaid wedi'i atafaelu? Ffacsiwch unrhyw adroddiadau labordy neu hysbysiadau cadw ac ati i'r ASB gyda'r ffurflen hon, neu mor fuan â phosibl wedi hynny.

A ddangosodd y cyfryngau ddiddordeb yn y mater? Do/Naddo

Os oedd yna ddatganiad i'r wasg ffacsiwch ef i'r ASB gyda'r ffurflen hon.

Unrhyw wybodaeth ychwanegol: amgawch dudalennau ychwanegol os oes angen.

Llofnod:

Dyddiad:

Teitl y Swydd:

## **ATODIAD 5: Cynllun Graddio Archwilio Cyfraith Bwyd Anifeiliaid**

### **A2.1.1: Egwyddorion Sylfaenol**

- i. Dylai awdurdodau bwyd anifeiliaid bennu amlder archwiliadau bwyd anifeiliaid o fusnesau bwyd anifeiliaid yn eu hardaloedd gan ddefnyddio'r meini prawf asesu yn yr Atodiad hwn, er mwyn pennu eu rhaglenni archwilio cyfraith bwyd anifeiliaid arfaethedig.
- ii. Fel arall, gall yr awdurdod bwyd anifeiliaid seilio'r asesiad risg cyfraith bwyd anifeiliaid ar ganllawiau LACORS ar wneud asesiad risg ar gyfer safonau masnach. Pan mae asesiadau'n seiliedig ar gynllun LACORS, ni ddylai'r amlder archwilio at ddibenion cyfraith bwyd fod yn llai nag y byddai o dan y cynllun hwn.
- iii. Mae'r cynllun yn ymgorffori opsiwn ar gyfer strategaethau gorfodi amgen heblaw am archwiliadau cychwynnol o fusnesau "risg isel" lle nad yw'r peryglon cynhenid yn sylweddol yn rhinwedd eu gweithgareddau masnachu na nifer y defnyddwyr y maent yn eu cyflenwi (gweler isod).
- iv. Gosodir y cynllun allan ar ffurf dogfen asesu y gellir ei defnyddio gan swyddogion yn y maes. Dylid cwblhau asesiad ar ddiwedd pob archwiliad sylfaenol.
- v. Dylai swyddogion ddefnyddio'r ystod lawn o sgoriau sydd ar gael o fewn y system, gan y bydd diben y system raddio'n cael ei llesteirio os bydd marcio gofalus neu amharodrwydd i gydnabod systemau rheoli/rheolaeth effeithiol.
- vi. Dylai busnesau sy'n perthyn i fwy nag un categori sgorio ar gyfer ffactor sgorio gael y sgôr uchaf o'r rhai cymwys.
- vii. Dylai gweithredu'r cynllun graddio archwiliadau hwn o fewn yr awdurdod bwyd anifeiliaid gael ei adolygu'n gyfnodol gan reolwyr i sicrhau bod staff yn defnyddio'r cynllun yn gywir ac yn gyson.
- viii. Dylid archwilio busnesau risg uchel cyn rhai risg isel bob amser. Ni ellir cefnogi'r arfer o gwblhau'r rhaglen o archwilio busnesau risg isel na chawsant ymweliadau yn ystod rhaglen flaenorol cyn cychwyn archwilio busnesau risg uchel.
- ix. Ni ddylid ystyried yr amlder archwilio sy'n ofynnol fel gofyniad caeth ac absoliwt. Fodd bynnag, dylid cwblhau archwiliadau sylfaenol o fewn 28 diwrnod ar ôl y dyddiad dan sylw, ac eithrio dan amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod bwyd anifeiliaid megis busnes yn cau (gweler paragraff 4.1.4).

### A.2.1.2: Gweithgareddau Risg Isel

- i. Nid oes rhaid i fusnesau sy'n sgorio cyfanswm o 45 pwynt neu lai gael archwiliad sylfaenol ar ôl iddynt gael archwiliad sylfaenol sy'n cadarnhau bod y radd risg briodol yn isel a bod y busnes yn cydymffurfio â darpariaethau'r ddeddfwriaeth cyfraith bwyd berthnasol (gweler paragraff 4.1.8).
- ii. Rhaid i fusnesau "risg isel" o'r fath, fodd bynnag, fod yn destun strategaeth orfodi amgen o leiaf unwaith bob 5 mlynedd.
- iii. Rhaid i awdurdodau bwyd anifeiliaid sy'n penderfynu peidio â gorfodi busnesau "risg isel" i fod yn destun archwiliadau sylfaenol nodi eu strategaethau gorfodi amgen ar gyfer cadw golwg ar y cyfryw fusnesau yn eu Cynllun Gwasanaethau Bwyd Anifeiliaid neu eu Polisi Gorfodi.
- iv. Nid yw'n fwriad rhoi'r gorau i archwilio busnesau o'r fath os mai archwilio yw'r opsiwn gwyliadwriaeth y mae'r awdurdod bwyd anifeiliaid yn ei ffafrio. Os felly, bydd amllder yr archwilio sy'n gwbl ofynnol yn cael ei bennu gan y radd archwilio.

### A2.1.3: Diffiniadau

- ii. At ddibenion dehongli'r cynllun graddio risg canlynol defnyddir y diffiniadau canlynol:

Gweithgynhyrchwr	Busnes bwyd anifeiliaid sy'n prosesu bwyd anifeiliaid <sup>1</sup> gyda neu heb gynnwys ychwanegion bwyd anifeiliaid neu sy'n cynhyrchu cynhyrchion bwyd anifeiliaid <sup>2</sup> . Byddai hyn yn cynnwys ffermydd lle mae dognau'n cael eu gwneud ar y safle trwy gynnwys ychwanegion bwyd anifeiliaid neu fwyd anifeiliad cyflenwol.
Paciwr	Busnes bwyd anifeiliaid nad yw'n cynhyrchu ond yn hytrach yn pacio bwyd anifeiliaid neu gynhyrchion bwyd anifeiliaid.
Dosbarthwr	Cyfanwerthwr neu fanwerthwr bwyd anifeiliaid neu gynhyrchion bwyd anifeiliaid.
Cludwr	Busnes bwyd anifeiliaid sy'n symud bwyd anifeiliaid neu gynhyrchion bwyd anifeiliaid o un lle i'r llall.
Storfa	Busnes bwyd anifeiliaid sy'n storio bwyd anifeiliaid neu gynhyrchion bwyd anifeiliaid at ei ddefnydd ei hun neu ar ran busnesau eraill. Byddai hyn yn

---

<sup>1</sup> Mae bwyd anifeiliaid yn cynnwys bwydydd anifeiliaid cyfansawdd, deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid anwes.

<sup>2</sup> Mae cynhyrchion bwyd anifeiliaid yn cynnwys ychwanegion a rhag-gymysgeddau.

cynnwys ffermydd sy'n storio bwyd anifeiliaid i'w ddefnyddio gan eu hanifeiliaid eu hunain.

# System Sgorio Cyfraith Bwyd Anifeiliaid

## Rhan 1: Y Perygl Posibl

### A. Perygl i Iechyd Anifeiliaid/Pobl a/neu Fusnesau Eraill

Mae'r ffactor hwn yn ystyried yr effaith andwyol bosibl ar iechyd anifeiliaid/pobl, a'r goblygiadau i fusnesau eraill, pe na bai'r busnes yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid. Mae canlyniadau i fusnesau eraill yn cynnwys effeithiau economaidd masnachu annheg a'r niwed posibl i iechyd anifeiliaid a phobl.

<b>Sgôr</b>	<b>Canllawiau ar y System Sgorio</b>
<b>30</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gweithgynhyrchwyr ychwanegion maethol yn cynnwys fitaminau, pro-fitaminau, elfennau hybrin, asidau amino a'u halwynau ac analogau, ac wrea a deilliadau.</li><li>• Gweithgynhyrchwyr ychwanegion: ensymau a micro-organebau sy'n gweithredu fel hyrwyddwyr treuliadwyedd, sefydlogwyr bacteria'r perfedd a sylweddau sy'n effeithio'n ffafriol ar yr amgylchedd.</li><li>• Gweithgynhyrchwyr gwrthocsidyddion gyda therfynau uchaf a ganiateir, ychwanegion lliwydd: carotenoidau a santhoffylau.</li><li>• Gweithgynhyrchwyr proteinau a geir o ficro organebau sy'n perthyn i grwpiau o facteria, burum, algae a ffwng.</li><li>• Gweithgynhyrchwyr rhag-gymysgeddau, ychwanegion gydag uchafsymiau a chynhyrchion protein newydd.</li><li>• Gweithgynhyrchwyr ychwanegion eraill a ddefnyddir mewn bwydydd anifeiliaid.</li><li>• Gweithgynhyrchwyr bwydydd anifeiliaid cyfansawdd gydag ychwanegion.</li><li>• Mewnforwyr holl fwyd anifeiliaid a chynhyrchion bwyd anifeiliaid.</li></ul>
<b>20</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gweithgynhyrchwyr bwydydd anifeiliaid cyfansawdd nad ydynt yn cynnwys ychwanegion ond sy'n cael eu cynhyrchu i'w rhoi ar y farchnad.</li><li>• Gweithgynhyrchwyr bwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys ychwanegion bwyd anifeiliaid i fwyd anifeiliaid y gweithgynhyrchwyr eu hunain e.e. ffermydd.</li><li>• Gweithgynhyrchwyr deunyddiau bwyd anifeiliaid yn cynnwys y rhai o'r diwydiant bwyd (cyd-gynhyrchion) a Cludwyr a Storfeydd y cynhyrchion hyn.</li><li>• Paciwr ar gyfer gweithgynhyrchwyr unrhyw un o'r cynhyrchion a restrwyd yn yr adran hon o'r tabl.</li><li>• Cludwyr ychwanegion a rhag-gymysgeddau bwyd anifeiliaid.</li><li>• Dosbarthwyr ychwanegion a rhag-gymysgeddau bwyd anifeiliaid.</li></ul>
<b>10</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gweithgynhyrchwyr bwydydd anifeiliaid trwy gynnwys bwyd anifeiliaid cyfansawdd a gynhyrchir at ddefnydd y gweithgynhyrchwyr ei hun e.e. ffermydd.</li><li>• Cynhyrchwyr cynhyrchion sylfaenol yn cynnwys ffermydd â'r sy'n tyfu cnydau ar gyfer bwyd anifeiliaid a ffermydd da byw sy'n tyfu a defnyddio cnydau ar gyfer bwyd anifeiliaid.</li><li>• Cludwyr bwyd anifeiliaid a chynhyrchion bwyd anifeiliaid na chrybwyllwyd eisoes.</li><li>• Storfeydd bwyd anifeiliaid neu gynhyrchion bwyd anifeiliaid na</li></ul>

	chrybwyllwyd eisoes.
--	----------------------

<b>Sgôr:</b>	
--------------	--

## B. Y graddau y mae gweithgareddau'r busnes yn effeithio ar unrhyw berygl

Mae'r ffactor hwn yn ystyried y math o weithgareddau y mae'r busnes bwyd anifeiliaid yn eu cyflawni, yr angen i fonitro a rheoli'r gweithgareddau hynny'n ofalus, a'u heffeithiolrwydd posibl i gynnal cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid. Ystyried a yw'r busnes yn cynhyrchu, labelu, neu'n hysbysebu cynhyrchion y mae'r gyfraith bwyd anifeiliaid yn berthnasol iddynt. Os yw'r busnes yn cynhyrchu ei gynhyrchion ei hun, ystyried gwaith monitro a rheoli ryseitiau a chynhwysion.

Mae'r sgoriau isod yn dangos enghreifftiau o fusnesau bwyd anifeiliaid a allai gael y sgôr dan sylw.

Sgôr	Canllawiau ar y System Sgorio
30	Gweithgynhyrchwyr, pacwyr a mewnforywr sy'n delio ag ystod eang o gynhyrchion sy'n cynnwys ychwanegion.
20	Gweithgynhyrchwyr bwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys ychwanegion bwyd anifeiliaid i fwydo anifeiliaid y gweithgynhyrchwyr eu hunain e.e. ffermydd. Gweithgynhyrchwyr a phacwyr cynhyrchion nad ydynt yn cynnwys ychwanegion ond sy'n cael eu cynhyrchu i'w rhoi ar y farchnad. Gweithgynhyrchwyr, pacwyr, mewnforywr sy'n delio ag ystod gyfyngedig o gynhyrchion sy'n cynnwys ychwanegion.
10	Gweithgynhyrchwyr bwydydd anifeiliaid trwy gynnwys bwyd anifeiliaid cyfansawdd a gynhyrchir at ddefnydd y gweithgynhyrchwr ei hun e.e. ffermydd.
0	Unrhyw fusnes nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod.

Sgôr:	
-------	--

## C. Pa mor hawdd yw cydymffurfio

Mae'r ffactor hwn yn ystyried faint o gyfraith bwyd anifeiliaid sy'n berthnasol i'r busnes ac mae angen i'r busnes gydymffurfio â hi, a chymhlethdod y gyfraith honno. Ystyried amrywiaeth a chymhlethdod y cynhyrchion, prosesau a'r gwasanaethau yn cynnwys cysondeb deunyddiau crai. Ystyried pa mor anodd yw'r dasg i weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid yn cynnwys pa mor hawdd yw adnabod perygl.

Sgôr	Canllawiau ar y System Sgorio
30	Gweithgynhyrchwr, paciwr neu fewnforiwr ystod eang o gynhyrchion.
20	Gweithgynhyrchwr, paciwr neu fewnforiwr ystod gyfyngedig o gynhyrchion.
10	Gweithgynhyrchwyr bwyd anifeiliaid at eu defnydd eu hunain. Dosbarthwyr yn cynnwys manwerthwyr sy'n dadelfennu bwyd anifeiliaid o swmp ac yn arddangos disgrifiadau a gwybodaeth datganiadau statudol.
0	Unrhyw fusnes nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod.

Sgôr:	
-------	--

## D. Anifeiliaid a Phobl mewn Perygl

Mae'r ffactor hwn yn ystyried nifer yr anifeiliaid/cwsmeriaid sy'n debygol o fod mewn perygl os yw'r busnes yn methu â chydymffurfio â deddfwriaeth bwyd anifeiliaid.

Sgôr	Canllawiau ar y System Sgorio
20	Gweithgynhyrchwyr, pacwyr, mewnforyr a dosbarthwyr bwyd anifeiliaid sy'n cael ei fasnachu'n genedlaethol neu ryngwladol.
10	Gweithgynhyrchwyr, pacwyr, mewnforyr a dosbarthwyr bwyd anifeiliaid nad yw eu masnach yn ymestyn y tu hwnt i'w hardal leol e.e. dosbarthwr/cyfanwerthwr rhanbarthol; gweithgynhyrchwyr lleol bychan.
5	Gweithgynhyrchwyr, pacwyr a dosbarthwyr sy'n cyflenwi'r ardal leol e.e. ffermydd lleol.
0	Unrhyw fusnes arall nad yw wedi'i gynnwys yn y categorïau uchod.

Sgôr:	
-------	--

## Rhan 2: Lefel Cydymffurfiaeth (Cyfredol)

Mae'r ffactor hwn yn ystyried lefel cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a arsylwyd yn ystod yr archwiliad. Dylid ystyried cydymffurfio â Chanllawiau Arfer Ymarfer Da Diwydiannau perthnasol y DU neu'r UE a chanllawiau tebyg eraill e.e. yr Asiantaeth, Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Anifeiliaid a LACORS.

Sgôr	Canllawiau ar y System Sgorio
40	Methiant cyffredinol i fodloni rhwymedigaethau statudol. Safonau'n isel yn gyffredinol.
10	Busnes nodweddiadol gydag ambell achos o fethu â chydymffurfio â rhwymedigaethau statudol.
0	Safonau cydymffurfio uchel gyda rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer argymelledig y diwydiant yn cydymffurfio ag arferion masnachu perthnasol da.

Sgôr:	
-------	--

## Rhan 3: Hyder mewn Systemau Rheoli

Mae perfformiad gwirioneddol y system reoli yn cael ei nodi yn Rhan 2 ar sail y canlyniadau a gyflawnwyd ac a arsylwyd. Dylai system reoli sy'n cydymffurfio'n dda â chyfraith bwyd anifeiliaid, yn cynnwys gofynion hylendid bwyd anifeiliaid, sy'n cael eu deall yn dda gan y gweithlu, gyrraedd safon dda yn Rhan 2, a chael sgôr isel am y ffactor hwnnw.

Nid bwriad hyder systemau rheoli yw ailystyried y Lefel Gydydffurfio (Gyfredol). Yn hytrach, rhoi barn ar allu parhau i gydymffurfio'n foddhaol yn y dyfodol.

Mae'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar benderfyniad y swyddog yn cynnwys:

- cyflawniad blaenorol y cwmni, ei barodrwydd i weithredu ar gyngor a gorfodaeth flaenorol, a hanes y gŵyn;
- agwedd y rheolwyr presennol tuag at ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid, yn cynnwys gofynion hylendid bwyd anifeiliaid;
- a oes trefniadau awdurdod cartref neu wreiddiol i'w cael;
- gwybodaeth dechnegol fewnol neu allanol am ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid sydd ar gael i'r busnes yn cynnwys rheoli pwyntiau rheoli critigol;
- a oes systemau ansawdd, yn cynnwys asesiadau o gyflenwyr a monitro perfformiad, sy'n briodol i faint y busnes a'r peryglon dan sylw, gyda chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer rheoli perygl;
- gweithdrefnau dogfenedig boddhaol a systemau rheoli hylendid bwyd anifeiliaid sy'n seiliedig ar HACCP;
- yn achos busnes bach, ystyried y gwiriadau priodol i'r busnes hwnnw; ac
- aelodaeth a chydymffurfiaeth â gofynion y Cynlluniau Sicrwydd Bwyd Anifeiliaid.

<b>Sgôr</b>	<b>Canllawiau ar y System Sgorio</b>
<b>30</b>	Hanes gwael o gydymffurfio. Ychydig o wybodaeth dechnegol os o gwbl. Ychydig o werthfawrogiad o beryglon neu reoli ansawdd, os o gwbl. Dim system o reoli bwyd anifeiliaid.
<b>20</b>	Cydymffurfiaeth yn amrywio. Gwerthfawrogiad gwael o beryglon a mesurau rheoli. Dim system reoli bwyd anifeiliaid.
<b>10</b>	Hanes boddhaol o gydymffurfio. Mynediad i, a defnydd o gyngor technegol naill ai'n fewnol, gan sefydliadau masnach a/neu o Ganllawiau Arfer Da. Deall peryglon sylweddol a mesurau rheoli ar waith. Gwneud cynnydd boddhaol tuag at system o reoli diogelwch bwyd anifeiliaid.
<b>5</b>	Hanes rhesymol o gydymffurfio. Cyngor technegol ar gael yn fewnol neu fynediad i, a defnydd o gyngor technegol ar gael gan sefydliadau masnach neu gynlluniau sicrwydd bwyd anifeiliaid a/neu o Ganllawiau Arfer Da. Gweithdrefnau a systemau boddhaol wedi'u dogfennu. Gallu dangos rheolaeth effeithiol ar beryglon. System foddhaol o reoli diogelwch bwyd wedi'i dogfennu. Archwiliad gan awdurdod bwyd anifeiliaid yn cadarnhau cydymffurfiaeth gyffredinol gyda system ddogfenedig.
<b>0</b>	Hanes da o gydymffurfio. Mynediad i gyngor technegol yn y sefydliad. System foddhaol ddogfenedig o reoli diogelwch bwyd anifeiliaid yn seiliedig ar HACCP a allai fod yn destun proses archwilio allanol. Archwiliad gan awdurdod bwyd anifeiliaid yn cadarnhau cydymffurfiaeth â system reoli ddogfenedig gydag ychydig/mân achosion o beidio â chydymffurfio heb eu nodi yn y system fel pwyntiau rheoli critigol.
<b>-10</b>	Hanes rhagorol o gydymffurfio. Rheolaeth effeithiol iawn. Hyder llwyr mewn rheolwyr i reoli, cynnal ac addasu'r system o reoli bwyd anifeiliaid fel y bo'n briodol ac i gynghori ar unrhyw newidiadau sylweddol i'r busnes.

<b>Sgôr:</b>	<input type="text"/>
--------------	----------------------

## Amllder Archwilio

<b>Categori</b>	<b>Ystod Pwyntiau</b>	<b>Amllder Archwilio Gofynnol</b>
<b>A</b>	101 i 180	o leiaf bob 12 mis
<b>B</b>	46 i 100	o leiaf bob 24 mis
<b>C</b>	0 i 45	o leiaf bob 60 mis

Nid oes rhaid cynnwys sefydliadau sydd wedi'u graddio fel rhai risg isel (45 neu lai) yn y rhaglen archwilio ond mae'n rhaid iddynt fod yn rhan o strategaeth orfodi amgen o leiaf unwaith bob 5 mlynedd.

## **ATODIAD 6: Adroddiad Archwilio Sefydliad Busnes Bwyd Anifeiliaid / Safle Bwyd Anifeiliaid**

